



Rhif ymchwil gymdeithasol: 126/2025

Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2025

Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o uwch arweinwyr ac ymarferwyr

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-783-5

Awduron: Gillian Parkinson a Ben Tylden-Smith (AlphaPlus), Hefin Thomas a Joanne Davis (Cwmni ymchwil Arad), Yr Athro Cyswllt Claire Sinnema, Prifysgol Auckland

Adroddiad Ymchwil Llawn: Parkinson, G; Tylden-Smith, B; Thomas, H; Davis, J; Sinnema, C. (2025). Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 126/2025.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-ffurfiannol-y-cwricwlwm-i-gymru-arolwg-o-uwch-arweinwyr-ac-ymarferwyr>

Barn yr ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil y Cwricwlwm

Yr Is-adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0255381

E-bost: curriculum.research@gov.cymru

Tabl cynnwys

Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o uwch arweinwyr ac ymarferwyr ...	1
Tabl cynnwys.....	3
Rhestr o ffigurau.....	4
Rhestr termau.....	7
1. Crynodeb gweithredol	9
2. Cyflwyniad.....	27
3. Methodoleg	32
4. Proffil y sampl.....	45
5. Crynodeb o'r canfyddiadau	51
Rhan A: Canfyddiadau'r arolwg uwch arweinwyr	78
6. Ymrwymiad i newid cwricwlwm (uwch arweinwyr)	78
7. Gwybodaeth am newid cwricwlwm (uwch arweinwyr).....	81
8. Dealltwriaeth o newid cwricwlwm (uwch arweinwyr)	83
9. Y gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm (uwch arweinwyr)	86
10. Lles (uwch arweinwyr).....	93
11. Effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm (uwch arweinwyr)	96
12. Cydweithio ar gynllunio cwricwlwm (uwch arweinwyr)	99
13. Dealltwriaeth gyffredin o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru (uwch arweinwyr)	104
14. Dysgu a chymorth proffesiynol (penaethiaid ac uwch arweinwyr)	106
15. Cymorth yn y system (uwch arweinwyr).....	109
16. Dulliau ysgolion a UC Dau o gynllunio cwricwlwm (uwch arweinwyr)	112
17. Newidiadau i arfer (uwch arweinwyr)	115
18. Agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith (uwch arweinwyr).....	121
19. Arferion addysgegol (uwch arweinwyr).....	133
20. Cynnydd ac asesu (uwch arweinwyr).....	139
21. Galluogi dysgu (uwch arweinwyr).....	144
22. Ymholi proffesiynol (uwch arweinwyr)	147
23. Cyfraniad i'r cwricwlwm (uwch arweinwyr)	151
24. Hyder y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd (uwch arweinwyr).....	154
25. Heriau a chymorth yn y dyfodol (uwch arweinwyr)	158
Rhan B: Canfyddiadau'r arolwg i athrawon	162
26. Ymrwymiad i newid cwricwlwm (athrawon)	162

27.	Gwybodaeth am newid cwricwlwm (athrawon).....	166
28.	Dealltwriaeth o newid cwricwlwm (athrawon)	169
29.	Y gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm (athrawon)	171
30.	Lles (athrawon)	177
31.	Cydweithio ar gynllunio cwricwlwm (athrawon)	180
32.	Dealltwriaeth gyffredin o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru (athrawon).....	186
33.	Dysgu a chymorth proffesiynol (athrawon).....	188
34.	Cymorth system (athrawon)	191
35.	Dulliau ysgolion a UC Dau o gynllunio cwricwlwm (athrawon)	194
36.	Newidiadau i arfer (athrawon)	197
37.	Agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith (athrawon)	202
38.	Arferion addysgegol (athrawon)	214
39.	Cynnydd ac asesu (athrawon).....	219
40.	Galluogi Dysgu (athrawon).....	223
41.	Ymholi proffesiynol (athrawon).....	226
42.	Cyfraniad i'r cwricwlwm (athrawon).....	230
43.	Hyder y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd (athrawon)	233
44.	Heriau a chymorth yn y dyfodol (athrawon).....	237
	Rhan C: Archwilio perthnasoedd rhwng newidynnau arolwg.....	241
45.	Dadansoddi Ffactorau (FA) a Modelu Hafaliadau Strwythurol (SEM)	241
	Atodiadau A-E: Atodiadau arolwg technegol (gweler dogfennau ar wahân).....	251

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Ymrwymiad i newid cwricwlwm.....	79
Ffigur 2: Gwybodaeth am newid cwricwlwm	82
Ffigur 3: Dealltwriaeth o newid cwricwlwm.....	85
Ffigur 4: Y gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid yn y cwricwlwm (uwch arweinwyr oedd yn addysgu).....	89
Ffigur 5: Y gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid yn y cwricwlwm (uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu).....	91
Ffigur 6 Lles uwch arweinwyr ac ymarferwyr	95

Ffigur 7: Y gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid i'r cwricwlwm	98
Ffigur 8: Cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm	102
Ffigur 9: Cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm	103
Ffigur 10: Dealltwriaeth gyffredin o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru.....	105
Ffigur 11: Dysgu a chymorth proffesiynol (penaethiaid ac uwch arweinwyr).....	108
Ffigur 12: Cefnogaeth system	111
Ffigur 13: Dulliau ysgolion o gynllunio cwricwlwm.....	114
Ffigur 14: Newidiadau i arfer (uwch arweinwyr oedd yn addysgu)	117
Ffigur 15: Newidiadau i arfer (uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu)	119
Ffigur 16: Agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith	125
Ffigur 17: Cefnogi sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben	126
Ffigur 18: Agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith	127
Ffigur 19: Cefnogi sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben	128
Ffigur 20: Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru A	129
Ffigur 21: Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru B	130
Ffigur 22: Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru C	131
Ffigur 23: Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru D	132
Ffigur 24: Ymarfer addysgegol (uwch arweinwyr oedd yn addysgu).....	136
Ffigur 25: Ymarfer addysgegol (uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu).....	138
Ffigur 26: Cynnydd ac asesu (uwch arweinwyr oedd yn addysgu)	141
Ffigur 27: Cynnydd ac asesu (uwch arweinwyr nad oeddent yn addysgu)	143
Ffigur 28: Galluogi dysgu	146
Ffigur 29: Cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol	148
Ffigur 30: Annog ymholi proffesiynol.....	149
Ffigur 31: Ymholi proffesiynol	150
Ffigur 32: Cyfraniad i'r cwricwlwm.....	153
Ffigur 33: Cynnydd dysgwyr	156
Ffigur 34: Diwallu anghenion dysgwyr	157
Ffigur 35: Ymrwymiad i newid cwricwlwm.....	164
Ffigur 36: Gwybodaeth am newid cwricwlwm	168
Ffigur 37: Dealltwriaeth o newid cwricwlwm.....	170
Ffigur 38: Y gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid yn y cwricwlwm	174
Ffigur 39: Lles	179
Ffigur 40: Cydweithio ar gynllunio cwricwlwm.....	183
Ffigur 41: Cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm	185

Ffigur 42: Dealltwriaeth gyffredin o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru.....	187
Ffigur 43: Dysgu a chymorth proffesiynol.....	190
Ffigur 44: Cefnogaeth system.....	193
Ffigur 45: Dulliau ysgolion o gynllunio cwricwlwm.....	196
Ffigur 46: Newidiadau i arfer.....	199
Ffigur 47. Agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith.....	206
Ffigur 48. Cefnogi sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben.....	207
Ffigur 49. Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru A.....	208
Ffigur 50. Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru B.....	209
Ffigur 51. Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru C.....	210
Ffigur 52. Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru D.....	212
Ffigur 53. Arferion addysgegol.....	217
Ffigur 54. Cynnydd ac asesu.....	221
Ffigur 55. Galluogi dysgu.....	225
Ffigur 56. Cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol.....	227
Ffigur 57. Annog ymholi proffesiynol.....	228
Ffigur 58. Ymholi proffesiynol.....	229
Ffigur 59. Cyfraniad i'r cwricwlwm.....	232
Ffigur 60. Cynnydd dysgwyr.....	235
Ffigur 61. Diwallu anghenion dysgwyr.....	236
Ffigur 62. "Datblygu amodau ar gyfer cynnal cynnydd".....	246

Rhestr termau

ADY

Anghenion Dysgu Ychwanegol

AB

Addysg Bellach

Athro

Ymarferwyr nad oedd yn uwch arweinwyr (gan gynnwys y rhai a adroddodd mai eu prif rôl oedd "athro", "arweinydd canol", "gweithiwr cymorth dysgu" neu "arall" a nododd hefyd nad oeddent yn aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth). Yn rhan B o'r adroddiad hwn, er mwyn bod yn gryno, defnyddir y term "athrawon" i ddisgrifio ymarferwyr nad oeddent yn uwch arweinwyr. Fodd bynnag, defnyddir y term "ymarferwyr nad oedd yn uwch arweinwyr" hefyd fel term yn yr is-adrannau lle dadansoddir fesul is-grŵp trwy gydol yr adroddiad er mwyn osgoi dryswch gyda'r rhai a adroddodd eu prif rôl fel "athro".

AU

Addysg Uwch

CBGY

Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgol

CDU

Cynllun Datblygu Unigol

CFI

Mynegai ffit cymharol

CYBLD

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel Disgybl

Dysgwyr MAT

Dysgwyr mwy abl a thalentog

FA

Dadansoddi ffactor

Maes

Maes dysgu a phrofiad

RMSEA

Cyfeiliorniad brasamcan isradd sgwâr cymedrig

Staff eraill

Ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn eu hysgol neu UCD ac a ddywedodd hefyd nad oedd ganddynt gyfrifoldebau addysgu neu gynorthwyo gydag addysgu.

SAC

Statws Athro Cymwysedig

SEM

Modelu hafaliadau strwythurol

SRMR

Gweddill isradd sgwâr cymedrig safonedig

TLI

Mynegai Tucker-Lewis

UCD

Uned cyfeirio disgyblion

Uwch arweinwyr oedd yn addysgu (ac uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu)

Uwch arweinwyr mewn ysgolion neu UCDAu a ddywedodd fod ganddynt (neu nad oedd ganddynt) gyfrifoldebau addysgu neu a gynorthwyodd gydag addysgu

1. Crynodeb gweithredol

Cefndir a methodoleg

Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i arwain gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru (y Cwricwlwm), gan gyd-weithio â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor, y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgol Stirling, Prifysgol Auckland ac AlphaPlus Consultancy. Mae'r holl adroddiadau â gyhoeddwyd hyd yn hyn ar gael ar [wefan gwerthusiad ffurfiannol Cwricwlwm i Gymru](#).

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg o uwch arweinwyr ac ymarferwyr wedi'i arwain gan Ymchwil Arad, AlphaPlus Consultancy a Phrifysgol Auckland. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2024. Cwblhaodd cyfanswm o 925 o uwch arweinwyr ac ymarferwyr yr arolwg.

Methodoleg

Cafodd holiadur yr arolwg ei lywio gan y theori newid ar gyfer y diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu fel y'u cyflwynir yn yr [astudiaeth gwmpasu](#), a'i brofi gyda sampl o rieni/gofalwyr a dysgwyr.

Defnyddiwyd dull samplu yn seiliedig ar gwota yn yr arolwg, dull sydd yn ceisio cyfateb cyfrannau yr ymatebwyr sydd â nodweddion penodol (fel sector a rhanbarth) i'r cyfrannau yn y boblogaeth. Defnyddiwyd data Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframweithiau samplo ar gyfer uwch arweinwyr ac ymarferwyr.

Roedd yr arolwg ar agor rhwng 30 Medi a 22 Rhagfyr 2024 ac fe'i gynhaliwyd ar blatfform Smart Survey. Dosbarthwyd yr arolwg trwy wahoddiadau e-bost i benaethiaid ym mhob ysgol gan ddefnyddio cyfeiriadau oedd ar gael i'r cyhoedd. Hyrwyddwyd yr arolwg hefyd drwy Dysg, Hwb, awdurdodau lleol, Cyngor y Gweithlu Addysg, a thudalen Facebook Cwricwlwm i Gymru oedd dan arweiniad ymarferwyr, a digwyddiadau ymarferwyr Llywodraeth Cymru.

O'r 925 o ymatebion gafodd eu cynnwys yn y dadansoddiad, roedd 451 yn uwch arweinwyr (h.y. fe wnaethant ddweud eu bod yn aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn eu hysgol), 444 yn athrawon (gan gynnwys arweinwyr canol nad oeddent ar yr uwch dîm arweinyddiaeth a gweithwyr cymorth dysgu), ac roedd gan 30 rolau eraill. Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar ganlyniadau wedi'u pwysoli (h.y. sut fyddai'r canlyniadau yn edrych pe baent yn cael eu haddasu i fod yn seiliedig ar sampl oedd yn gynrychioliadol yn genedlaethol). Cynhaliwyd

dadansoddiad is-sampl i wirio a oedd gwahaniaethau mewn ymatebion rhwng gwahanol grwpiau ymatebwyr (e.e. cynradd ac uwchradd).

Cyfngiadau methodolegol

Wrth ddadansoddi'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio bod risg o ragfarn dethol ymhlith y sampl o ymatebwyr. Mae'n bosibl yr oedd yr ymarferwyr a ddewisodd gymryd rhan yn teimlo'n fwy hyderus wrth wireddu'r Cwricwlwm i Gymru neu, fel arall, bod cymhelliant ganddynt i dynnu sylw at eu pryderon. Ceisiodd y gwerthusiad liniaru'r risgiau hyn trwy ddosbarthu nodiadau atgoffa i gwblhau'r arolwg gan eu targedu at ysgolion â nodweddion penodol a oedd wedi eu tangynrychioli yn y sampl. Ar ben hynny, roedd y dull o bwysoli'r sampl yn ceisio lliniaru unrhyw dangynrychiolaeth.

Prif ganfyddiadau

Cyflwynir crynodeb o'r canfyddiadau yn ôl themâu'r arolwg isod. Yn y rhan fwyaf o gwestiynau, gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau mewn perthynas â gwahanol agweddau ar newid cwricwlwm. Roedd yr opsiynau ymateb ar gyfer pob cwestiwn yn amrywio o "cytuno'n gryf" i "anghytuno yn gryf", oni nodir fel arall.

Themâu lle mynegodd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon farn gadarnhaol

Gwybodaeth am newid cwricwlwm

Yn gyffredinol, mynegodd uwch arweinwyr ac athrawon hyder yn eu gwybodaeth am newid cwricwlwm. Ymysg uwch arweinwyr, cytunodd y mwyafrif llethol^[Troednodyn 1] â datganiadau ynglŷn â'u gwybodaeth am y cwricwlwm tra, ymysg athrawon, fe wnaeth y mwyafrif gytuno â'r rhan fwyaf o ddatganiadau, er roedd llai ohonynt yn glir ynglŷn â'r rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm. Nododd ymatebwyr eu bod:

- yn gallu esbonio prif elfennau'r Cwricwlwm i Gymru i eraill (92% o uwch arweinwyr a 68% o athrawon yn cytuno)
- yn deall eu rôl wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru (91% o uwch arweinwyr a 76% o athrawon yn cytuno)

[1] Yn seiliedig ar ddisgrifiyddion â ddefnyddiwyd ar gyfer adrodd ar ganrannau. Y trothwyon oedd 85% - mwyafrif llethol; 59-84% - mwyafrif; 42-58% - tua hanner; 15-41% - lleiafrif; llai na 15% - lleiafrif bach.

- yn glir beth oedd wedi newid yn y Cwricwlwm i Gymru o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol (85% o uwch arweinwyr a 70% o athrawon yn cytuno)
- yn glir ar y rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm (78% o uwch arweinwyr a 47% o athrawon yn cytuno)

Dealltwriaeth o newid cwricwlwm

Roedd uwch arweinwyr ac athrawon yn cytuno i raddau helaeth eu bod yn deall newid cwricwlwm o ran:

- sut y dylent newid eu harfer mewn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru (cytunodd 86% o uwch arweinwyr a 69% o athrawon)
- yr hyn yr oedd yn ofynnol i'w hyssgol ei wneud i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru (cytunodd 83% o uwch arweinwyr a 64% o athrawon)

Nododd tua hanner yr uwch arweinwyr a'r athrawon eu bod yn deall beth oedd yn ofynnol i'w hyssgol ei wneud i gynllunio eu trefniadau asesu eu hunain yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru (cytunodd 57% o uwch arweinwyr a 49% o athrawon).

Lles ac amgylchedd gwaith

Yn gyffredinol, roedd gan uwch arweinwyr ac athrawon agwedd gadarnhaol mewn perthynas â'u lles a'u hamgylchedd gwaith, gan nodi:

- roedd eu hyssgol yn lle da i weithio (93% o uwch arweinwyr a 78% o athrawon yn cytuno)
- roedden nhw'n fodlon â'u swydd (77% o uwch arweinwyr a 70% o athrawon yn cytuno)
- Roedd eu gwaith fel addysgwr yn ystyrlon (90% o uwch arweinwyr a 82% o athrawon yn cytuno)
- roedd eu perthynas â dysgwyr yn werth chweil iddynt (98% o uwch arweinwyr a 94% o athrawon yn cytuno)
- roedd eu perthynas â chydweithwyr yn gefnogol (94% o uwch arweinwyr a 86% o athrawon yn cytuno)
- gallent fod yn nhw eu hunain gyda chydweithwyr yn y gwaith (84% o uwch arweinwyr a 77% o athrawon yn cytuno)

Fodd bynnag, roedd tua hanner yr uwch arweinwyr a'r athrawon yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf eu bod yn fodlon â'u cydbwysedd bywyd gwaith (56% o uwch arweinwyr a 42% o athrawon yn cytuno).

Effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm (uwch arweinwyr yn unig)

Gofynnwyd i uwch arweinwyr yn unig pa mor hyderus oeddent yn teimlo mewn perthynas â chyfres o agweddau ar effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "ddim yn hyderus o gwbl" i "hyderus ofnadwy". Roedd mwyafrif yr uwch arweinwyr yn teimlo'n hyderus fel arweinydd yn eu gallu i:

- ddylanwadu ar ymrwymiad eraill i newid cwricwlwm (68% yn hyderus iawn neu'n hyderus ofnadwy)
- ddatblygu dealltwriaeth eraill o sut i ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru (63% yn hyderus iawn neu'n hyderus ofnadwy)
- gefnogi eraill i ddatblygu eu haddysgu a'u dysgu (78% yn hyderus iawn neu'n hyderus ofnadwy)
- ddatrys heriau wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm (58% yn hyderus iawn neu'n hyderus ofnadwy)
- arwain trafodaethau cwricwlwm oedd yn cefnogi gwella'r cwricwlwm (66% yn hyderus iawn neu'n hyderus ofnadwy)
- sicrhau dull strategol fel bod dyheadau'r cwricwlwm yn cael eu cyflawni (62% yn hyderus iawn neu'n hyderus ofnadwy)
- gwella arferion cwricwlwm yn seiliedig ar werthuso cadarn (62% yn hyderus iawn neu'n hyderus ofnadwy)

Roedd uwch arweinwyr yn llai hyderus ynglŷn â'u gallu i gysylltu pobl i gydweithio ar gynllunio cwricwlwm ac asesu, gyda thua hanner yr uwch arweinwyr (54%) yn nodi eu hyder mewn perthynas â hyn.

Cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau y bu cydweithio â gwahanol grwpiau wrth gynllunio'r cwricwlwm yn eu hysgol. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Dim cydweithio" i "Llawer iawn o gydweithio".

Nododd mwyafrif helaeth yr uwch arweinwyr fod rhywfaint neu lawer o gydweithio rhwng athrawon (98%) yn ogystal â gyda dysgwyr (99%), rhieni/gofalwyr (94%) a llywodraethwyr (93%). Nododd mwyafrif yr athrawon bod "rhywfaint" neu "lawer" o gydweithio rhwng athrawon (92%) yn ogystal â gyda dysgwyr (80%) a llywodraethwyr (64%), gyda thua hanner yr athrawon yn nodi bod "rhywfaint" neu "lawer" o gydweithio â rhieni/gofalwyr (58%).

O ran natur cydweithio, cytunodd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr, a'r mwyafrif o athrawon:

- bod athrawon wedi cymryd rhan weithredol mewn cynnal disgwyliadau uchel i gynyddu cyrhaeddiad dysgwyr (93% o uwch arweinwyr a 86% o athrawon yn cytuno)
- bod arweinwyr yn eu hysgol yn ystyried cyngor gan athrawon wrth wneud penderfyniadau (90% o uwch arweinwyr a 65% o athrawon yn cytuno)
- bod athrawon wedi cymryd rhan yn gyson mewn trafodaethau/penderfyniadau am addysgeg (88% o uwch arweinwyr a 66% o athrawon yn cytuno)
- y darparwyd cyfleoedd i athrawon i ysgogi newidiadau (88% o uwch arweinwyr a 65% o athrawon yn cytuno)
- bod arweinyddiaeth wedi ei feithrin a'i ddosbarthu ymhlith athrawon (87% o uwch arweinwyr a 62% o athrawon yn cytuno)
- bod athrawon yn cymryd cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd am gynnydd dysgwyr (86% o uwch arweinwyr a 76% o athrawon yn cytuno)

Dealltwriaeth gyffredin o agweddau ar Cwricwlwm i Gymru

Cytunodd uwch arweinwyr ac athrawon i raddau helaeth fod dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr yn eu hysgol (80% o uwch arweinwyr a 76% o athrawon yn cytuno) a'r hyn yr oedd yn ei olygu i gael cwricwlwm cynhwysol yn eu hysgol (87% o uwch arweinwyr a 80% o athrawon yn cytuno) yn ogystal â sut roedd eu cwricwlwm yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben (84% o uwch arweinwyr a 73% o athrawon yn cytuno).

Agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith

Cytunodd uwch arweinwyr ac athrawon i raddau helaeth bod yr agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru a archwiliwyd yn yr arolwg yn cael eu hadlewyrchu yn eu harfer (neu arferion athrawon yn eu hysgol) a bod arferion yn cefnogi'r sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben.

Cytunodd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon bod eu harferion addysgu (neu arferion athrawon yn eu hysgol ar gyfer uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu), yn adlewyrchu:^[Troednodyn 2]

- y pedwar diben (88% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 89% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 72% o athrawon yn cytuno)
- y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig (86% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 89% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 72% o athrawon yn cytuno)
- egwyddorion cynnydd (74% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 71% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 63% o athrawon yn cytuno)
- y disgrifiadau o ddysgu (82% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 85% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 72% o athrawon yn cytuno)

Roedd mwyafrif yr uwch arweinwyr (oedd yn addysgu 81%, nad oedd yn addysgu 79%) a thua hanner yr athrawon (58%) yn cytuno bod eu harferion addysgu yn adlewyrchu'r 12 egwyddor addysgegol.

Roedd mwyafrif yr uwch arweinwyr a'r athrawon yn hyderus bod eu harfer addysgu, neu arferion athrawon yn eu hysgol, yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu pob un o'r sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben:

- Creadigrwydd ac arloesi (84% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 85% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 75% o athrawon yn cytuno)
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau (85% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 89% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 76% o athrawon yn cytuno)
- Effeithiolrwydd personol (81% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 80% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 74% o athrawon yn cytuno)

[?] "Uwch arweinwyr oedd yn addysgu" oedd y rhai a nododd fod ganddynt gyfrifoldebau addysgu neu gynorthwyo gydag addysgu tra bod "uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu" yn rai a nododd nad oedd ganddynt y cyfrifoldebau hyn.

- Cynllunio a threfnu (78% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 75% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 71% o athrawon yn cytuno)

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd oedd yn cefnogi cynnydd ym mhob un o'r meysydd dysgu a phrofiad:

- Celfyddydau mynegiannol (75% o uwch arweinwyr a 68% o athrawon yn cytuno)
- Iechyd a lles (88% o uwch arweinwyr a 78% o athrawon yn cytuno)
- Dyniaethau (83% o uwch arweinwyr a 69% o athrawon yn cytuno)
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (94% o uwch arweinwyr ac 81% o athrawon yn cytuno)
- Mathemateg a rhifedd (94% o uwch arweinwyr ac 80% o athrawon yn cytuno)
- Gwyddoniaeth a thechnoleg (80% o uwch arweinwyr a 70% o athrawon yn cytuno).

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd oedd yn cefnogi cynnydd mewn:

- Saesneg (91% o uwch arweinwyr a 76% o athrawon yn cytuno)
- Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE) (69% o uwch arweinwyr a 60% o athrawon yn cytuno),
- Cymraeg (85% o uwch arweinwyr a 70% o athrawon yn cytuno)
- Cymhwysedd Digidol (85% o uwch arweinwyr a 72% o athrawon yn cytuno)
- Llythrennedd (94% o uwch arweinwyr a 84% o athrawon yn cytuno)
- Rhifedd (92% o uwch arweinwyr a 80% o athrawon yn cytuno)
- Amrywiaeth (77% o uwch arweinwyr a 68% o athrawon yn cytuno)
- Addysg Hawliau Dynol (74% o uwch arweinwyr a 66% o athrawon yn cytuno)
- Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol (79% o uwch arweinwyr a 60% o athrawon yn cytuno)
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE) (79% o uwch arweinwyr a 60% o athrawon yn cytuno)

Roedd tua hanner yr uwch arweinwyr (43%) a lleiafrif o athrawon (36%) yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd oedd yn cefnogi cynnydd mewn gyrfaedd a phrofiadau oedd yn gysylltiedig â byd gwaith.

Arferion addysgegol

Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr ac athrawon eu bod yn hyderus bod eu harferion addysgu, neu arfer athrawon yn eu hysgol:

- yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol (uwch arweinwyr (98% oedd yn addysgu, 96% nad oedd yn addysgu) yn hyderus a 94% o athrawon yn hyderus)
- yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol (uwch arweinwyr (97% oedd yn addysgu, 99% nad oedd yn addysgu) yn hyderus a 89% o athrawon yn hyderus)
- yn defnyddio cymysgedd o ddulliau (uwch arweinwyr (96% oedd yn addysgu, 93% nad oedd yn addysgu) yn hyderus a 92% o athrawon yn hyderus)
- yn ennyn diddordeb dysgwyr (uwch arweinwyr (96% oedd yn addysgu a 97% nad oedd yn addysgu) yn hyderus a 90% o athrawon yn hyderus)
- yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol (uwch arweinwyr (96% oedd yn addysgu a 98% nad oedd yn addysgu) yn hyderus a 84% o athrawon yn hyderus)
- yn cynnwys pob dysgwr (uwch arweinwyr 96% oedd yn addysgu a 97% nad oedd yn addysgu) yn hyderus a 88% o athrawon yn hyderus)
- yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr (uwch arweinwyr, 95% oedd yn addysgu a 98% nad oedd yn addysgu yn hyderus a 89% o athrawon yn hyderus)
- yn annog cydweithio (95% o uwch arweinwyr (oedd yn addysgu a nad oedd yn addysgu) a 89% o athrawon yn hyderus)

Cytunodd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr a'r mwyafrif o athrawon eu bod yn hyderus bod eu harfer addysgu yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu a phrofiad (89% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 86% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu ac 81% o athrawon), defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu (92% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 91% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu ac 84% o athrawon) ac yn annog ddysgwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu (92% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu ac nad oedd yn addysgu ac 80% o athrawon).

Cynnydd ac asesu

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon yn hyderus bod eu harferion asesu, neu arferion asesu athrawon yn eu hysgol:

- yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr (uwch arweinwyr (86% oedd yn addysgu, 76% nad oedd yn addysgu) yn cytuno a 81% o athrawon yn cytuno)
- wedi'i ymgorffori o fewn dysgu ac addysgu (uwch arweinwyr (86% oedd yn addysgu, 82% nad oedd yn addysgu) yn cytuno a 76% o athrawon yn cytuno)
- yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol (uwch arweinwyr (83% oedd yn addysgu, 85% nad oedd yn addysgu) yn cytuno a 73% o athrawon yn cytuno)
- yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu (uwch arweinwyr (83% oedd yn addysgu, 84% nad oedd yn addysgu) yn cytuno a 69% o athrawon yn cytuno)
- yn adeiladu darlun o ddatblygiad dysgwyr (uwch arweinwyr (80% oedd yn addysgu, 84% nad oedd yn addysgu) a 69% o athrawon yn cytuno)
- yn defnyddio ystod eang o ddulliau asesu (uwch arweinwyr (80% oedd yn addysgu, 79% nad oedd yn addysgu) yn cytuno a 67% o athrawon yn cytuno)
- yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd (uwch arweinwyr (78% oedd yn addysgu, 75% nad oedd yn addysgu) yn cytuno a 67% o athrawon yn cytuno)
- yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn (uwch arweinwyr (74% oedd yn addysgu, 78% nad oedd yn addysgu) yn cytuno a 60% o athrawon yn cytuno)

Galluogi dysgu

Mynegodd mwyafrif yr uwch arweinwyr ac athrawon hyder mewn arferion sy'n ymwneud â galluogi dysgu, yn benodol yn eu gallu, neu yng ngallu athrawon yn eu hysgol, i:

- sylwi, dadansoddi ac ymateb i anghenion unigol dysgwyr i gefnogi eu cynnydd
- (mynegodd 89% o uwch arweinwyr a 86% o athrawon eu hyder)
- ddefnyddio arferion sy'n briodol yn ddatblygiadol i gefnogi cynnydd dysgwyr (mynegodd 88% o uwch arweinwyr a 88% o athrawon eu hyder)

- ddarparu profiadau dysgu sy'n briodol yn ddatblygiadol i gefnogi cynnydd dysgwyr (mynegodd 88% o uwch arweinwyr a 87% o athrawon eu hyder)
- wneud y defnydd gorau o'r mannau dan do oedd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu (83% o uwch arweinwyr a 72% o athrawon eu hyder)

Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr (67%) a thua hanner yr athrawon (56%) eu bod yn hyderus yn defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel rhan o'u harfer addysgu a dysgu.

Ymholi proffesiynol

Roedd mwyafrif yr uwch arweinwyr (75%) a thua hanner yr athrawon (47%) wedi ymwneud ag ymholi proffesiynol a nododd y mwyafrif bod hyn yn cael ei annog "llawer" neu "llawer iawn" yn eu hysgol (71% o uwch arweinwyr ac athrawon).

Roedd uwch arweinwyr ac athrawon oedd wedi bod yn ymwneud ag ymholi proffesiynol yn cytuno ei fod:

- wedi cynnwys cydweithio (88% o uwch arweinwyr a 82% o athrawon yn cytuno)
- wedi defnyddio mewnwelediadau o ymchwil berthnasol (85% o uwch arweinwyr a 69% o athrawon yn cytuno)
- wedi archwilio achosion problemau a wynebwyd ganddynt yn eu hymarfer (74% o uwch arweinwyr a 66% o athrawon yn cytuno)
- wedi arwain at welliannau ystyrlon mewn ymarfer (83% o uwch arweinwyr a 63% o athrawon yn cytuno)
- yn cefnogi ymchwil i addasrwydd addysgeg ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol (81% o uwch arweinwyr a 73% o athrawon yn cytuno)

Themâu lle mynegodd y mwyafrif o uwch arweinwyr farn gadarnhaol ond lle roedd barn athrawon yn fwy cymysg

Ymrwymiad i newid cwricwlwm

Cyflwynodd uwch arweinwyr ac athrawon ddarlun cymysg o ran eu hymrwymiad i newid cwricwlwm, gydag athrawon yn nodi lefelau is o ymrwymiad nag uwch arweinwyr.

Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr ac athrawon eu bod yn barod i wneud newidiadau i'w harfer proffesiynol i gwrdd â dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru (94% o uwch

arweinwyr a 87% o athrawon yn cytuno). Dywedodd mwyafrif yr uwch arweinwyr (77% yn cytuno) eu bod bob amser yn hyrwyddo'r Cwricwlwm i Gymru wrth siarad â chydweithwyr, o'i gymharu â thua hanner yr athrawon (45% yn cytuno). Roedd tua hanner yr uwch arweinwyr o'r farn bod y Cwricwlwm i Gymru llawer yn well na'r cwricwlwm blaenorol o'i gymharu â lleiafrif o athrawon (55% o uwch arweinwyr a 32% o athrawon yn cytuno).

Gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid i'r cwricwlwm

Roedd uwch arweinwyr, i raddau helaeth, yn hyderus yn eu gallu eu hunain, neu allu athrawon yn eu hysgol, i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm, tra'r oedd gan athrawon farn mwy cymysg. Mynegodd mwyafrif yr uwch arweinwyr ac athrawon hyder fod ganddynt, neu fod gan athrawon y neu hysgol:

- y wybodaeth addysgegol oedd ei hangen arnynt (94% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 83% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 83% o athrawon yn cytuno)
- y gallu i addasu eu harfer proffesiynol (93% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 84% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 82% o athrawon yn cytuno)
- y gallu i ddarparu profiadau dilys a phwrpasol i ddysgwyr (92% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 88% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 82% o athrawon yn cytuno)
- y wybodaeth pwnc oedd ei hangen arnynt (90% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 79% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 83% o athrawon yn cytuno)
- y gallu i gefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng pynciau a meysydd dysgu a phrofiad (91% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 86% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 78% o athrawon yn cytuno)
- y sgiliau oedd eu hangen arnynt (88% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 88% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 65% o athrawon yn cytuno)

Roedd uwch arweinwyr ac athrawon yn llai tebygol, fodd bynnag, o fynegi hyder yn eu harbenigedd cwricwlwm ac asesu eu hunain, neu arbenigedd athrawon yn eu hysgol. Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr oedd yn addysgu a thua hanner yr athrawon yn cytuno eu bod yn hyderus yn eu harbenigedd cynllunio cwricwlwm (73% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu a 54% o athrawon yn cytuno) a chynllunio asesu eu hunain (62% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu a 45% o athrawon yn cytuno), gyda lleiafrif yn anghytuno. Ymhlith uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu, mynegodd tua hanner hyder (52% yn

cytuno) bod gan athrawon yr arbenigedd cynllunio cwricwlwm yr oedd ei angen arnynt a lleiafrif bod ganddynt yr arbenigedd cynllunio asesu oedd ei angen arnynt (40% yn cytuno).

Dulliau o gynllunio cwricwlwm

Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr, a thua hanner yr athrawon, fod cynllunio cwricwlwm yn eu hysgol wedi cynnwys "llawer iawn", neu "cryn dipyn" o:

- rannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws clwstwr neu rwydweithiau lleol eraill (nododd 65% o uwch arweinwyr a 49% o athrawon eu bod wedi ymwneud â hyn)
- defnyddio ymchwil addysgol (nododd 63% o uwch arweinwyr a 41% o athrawon eu bod wedi ymwneud â hyn)
- dysgu o ymholi proffesiynol (nododd 60% o uwch arweinwyr a 44% o athrawon eu bod wedi ymwneud â hyn)

Nododd lleiafrif o uwch arweinwyr (41%) ac athrawon (19%) fod cynllunio cwricwlwm yn eu hysgol wedi cynnwys rhannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws rhwydweithiau rhanbarthol neu genedlaethol. Nododd lleiafrif bach o uwch arweinwyr (15%) ac athrawon (10%) fod cynllunio cwricwlwm yn eu hysgol wedi cynnwys partneriaeth â sefydliadau addysg bellach ac uwch.

Newidiadau i arfer

Roedd uwch arweinwyr yn cytuno i raddau helaeth eu bod nhw, neu athrawon yn eu hysgol (yn achos uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu), wedi gwneud newidiadau sylweddol, lle'n briodol, i wahanol agweddau o'u harfer, tra'r oedd gan athrawon farn mwy cymysg.

Cytunodd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon eu bod wedi gwneud newidiadau sylweddol i:

- eu cynllunio (neu ddogfennaeth gynllunio) (86% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 80% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu, 59% o athrawon)
- y dulliau addysgu/dysgu a ddefnyddir (82% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 83% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu, 69% o athrawon)
- y gweithgareddau addysgu/dysgu a ddefnyddir (80% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 81% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu, 64% o athrawon)

- y cynnwys/pynciau/themâu a addysgir (77% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 84% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu, 60% o athrawon)
- sut yr oeddent yn diwallu anghenion pob dysgwr unigol er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd ar gyflymder priodol (73% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 73% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu, 60% o athrawon)

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr, a thua hanner yr athrawon yn cytuno eu bod, lle'n briodol, wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r adnoddau a ddefnyddir mewn addysgu (69% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 72% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a 54% o athrawon yn cytuno), ffocws asesu dysgwyr (72% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 79% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu, 58% o athrawon yn cytuno) a'r dull o asesu dysgwyr (69% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu, 80% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu, 57% o athrawon yn cytuno).

Cyfraniad i'r cwricwlwm

Cytunodd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon fod eu cyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn eu hysgol yn cael ei gefnogi gan berthnasoedd gwaith cadarnhaol (89% o uwch arweinwyr a 71% o athrawon yn cytuno), yn gwneud iddynt deimlo bod ganddynt ddylanwad (87% o uwch arweinwyr a 62% o athrawon yn cytuno) ac wedi'i lywio gan eu profiadau eu hunain yn y gorffennol (86% o uwch arweinwyr a 71% o athrawon yn cytuno).

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr a thua hanner yr athrawon yn cytuno bod eu cyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn eu hysgol yn gwneud iddynt deimlo'n frwdfrydig yn eu gwaith (79% o uwch arweinwyr a 57% o athrawon yn cytuno), yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi (78% o uwch arweinwyr a 57% o athrawon yn cytuno) ac yn cael ei gefnogi gan ansawdd yr amgylchedd ffisegol y maent yn gweithio ynddo (67% o uwch arweinwyr a 55% o athrawon yn cytuno).

Hyder y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd

Mynegodd uwch arweinwyr ac athrawon hyder yn gyffredinol y byddai eu cwricwlwm ysgol yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd, gyda'r mwyafrif yn cytuno y byddai'n:

- cefnogi eu dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben (92% o uwch arweinwyr a 75% o athrawon yn cytuno)

- cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u man cychwyn (89% o uwch arweinwyr a 75% o athrawon yn cytuno)
- cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol (90% o uwch arweinwyr a 73% o athrawon yn cytuno)
- galluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i wneud cynnydd mor llawn â'u cyfoedion (84% o uwch arweinwyr a 66% o athrawon yn cytuno)

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr a thua hanner yr athrawon yn hyderus yn y cwricwlwm newydd o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol, yn benodol eu bod yn hyderus y byddai cwricwlwm eu hysgol yn:

- diwallu anghenion pob dysgwr yn well (71% o uwch arweinwyr a 51% o athrawon yn cytuno)
- arwain at well cynnydd dysgwyr (66% o uwch arweinwyr a 52% o athrawon yn cytuno)
- helpu dysgwyr i gyrraedd eu llawn botensial (68% o uwch arweinwyr a 53% o athrawon yn cytuno)
- gwella lefelau cyrraedd cyffredinol dysgwyr (63% o uwch arweinwyr a 49% o athrawon yn cytuno)

Themâu lle roedd gan uwch arweinwyr ac athrawon farn gymysg

Dysgu proffesiynol a chefnogaeth

Cytunodd mwyafrif y penaethiaid a'r uwch arweinwyr (64%) fod ganddynt fynediad at gymorth priodol gan gorff llywodraethu eu hysgol neu bwyllgor rheoli eu UCD.

Cytunodd mwyafrif yr uwch arweinwyr (59%) ac athrawon (60%) fod ganddynt fynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel. Cytunodd mwyafrif yr uwch arweinwyr (62%), a thua hanner yr athrawon (51%) eu bod wedi bod yn rhan o ddigon o ddysgu proffesiynol i ddiwallu eu hanghenion.

Cytunodd tua hanner yr uwch arweinwyr ac athrawon bod:

- y canllawiau, cefnogaeth ac adnoddau ar lefel ysgol yr oeddent wedi'u defnyddio wedi diwallu eu hanghenion (56% o uwch arweinwyr, 55% o athrawon yn cytuno)

- y dysgu proffesiynol yr oeddent wedi bod yn rhan ohono i gyd wedi bod o ansawdd uchel, yn eu barn nhw (51% o uwch arweinwyr, 57% o athrawon yn cytuno)
- y canllawiau ehangach (er enghraifft ar Hwb), cymorth ac adnoddau yr oeddent wedi'u defnyddio wedi diwallu eu hanghenion (49% o uwch arweinwyr, 44% o athrawon yn cytuno)

Cytunodd tua hanner yr uwch arweinwyr (52%), a lleiafrif o athrawon (39%) bod y gefnogaeth gan bartneriaid cymorth addysg wedi diwallu eu hanghenion.

Cymorth yn y system

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon yn anghytuno bod digon o arian wedi'i ddyrannu i gefnogi gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru (82% o uwch arweinwyr a 72% o athrawon yn anghytuno) a bod digon o amser wedi'i neilltuo i gefnogi gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru (78% o uwch arweinwyr a 68% o athrawon yn anghytuno).

Roedd barn gymysg ymhlith uwch arweinwyr (26% yn cytuno, 32% yn anghytuno) ac athrawon (22% yn cytuno, 40% yn anghytuno) ynghylch a oedd arweinyddiaeth o safon ar draws y system addysg i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Cytunodd tua hanner yr uwch arweinwyr:

- bod y system arolygu ysgolion yn addas i gefnogi'r (neu'n cyd-fynd gyda'r) Cwricwlwm i Gymru (47% o uwch arweinwyr a 24% o athrawon yn cytuno)
- bod y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu, Arweinyddiaeth a Chynorthwyo Addysgu yn gefnogol i'r Cwricwlwm i Gymru (55% o uwch arweinwyr a 36% o athrawon yn cytuno)
- bod digon o wybodaeth ar gael iddynt i alluogi hunanwerthuso effeithiol i gefnogi'r gwaith o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru (49% o uwch arweinwyr a 31% o athrawon yn cytuno)

Mynegodd mwyafrif yr uwch arweinwyr (74%) ac athrawon (69%) farn niwtral (ddim yn siŵr, neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno) bod y dull o ddatblygu cymwysterau newydd ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru.

Cwestiynau testun agored: heriau a chymorth yn y dyfodol

Mewn ymateb i gwestiynau testun agored dewisol, dywedodd lleiafrif o uwch arweinwyr ac athrawon mai'r agweddau a oedd yn fwyaf heriol wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru oedd:

- diffyg amser, cyllid ac adnoddau i ymwneud â chydweithio a rhyddhau staff ar gyfer dysgu proffesiynol
- diffyg eglurder mewn perthynas ag asesu a chynnydd
- diffyg enghreifftiau da o gynllunio a gwireddu cwricwlwm ar lefel ymarferol

Nododd lleiafrif o uwch arweinwyr bryderon mwy cyffredinol am y Cwricwlwm i Gymru (er enghraifft, ei fod yn rhy amwys) neu'r system addysg yn fwy cyffredinol (er enghraifft, pryderon yn ymwneud â baich gwaith ymarferwyr).

Nododd lleiafrif o uwch arweinwyr ac athrawon, pe bai cydweithiwr yn gofyn iddynt beth yr oeddent yn ei hoffi fwyaf am y Cwricwlwm i Gymru, y byddent yn dweud:

- eu bod yn hoffi'r hyblygrwydd a'r rhyddid i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain i weddu at anghenion eu dysgwyr
- eu bod nhw'n teimlo bod y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei arwain yn fwy gan ddysgwyr a'i fod yn fwy perthnasol i fywyd go iawn, gan gefnogi ymgysylltiad dysgwyr
- eu bod yn hoffi agweddau allweddol y cwricwlwm, er enghraifft y pedwar diben, creu cysylltiadau rhwng ac ar draws pynciau a meysydd dysgu a phrofiad
- eu bod yn teimlo bod y Cwricwlwm i Gymru o fudd i'w dysgwyr o ran eu hymwneud nhw â'r cwricwlwm – trwy gyfrannu at eu gwneud yn fwy creadigol ac annibynnol, gan ddarparu cyd-destunau ar gyfer dysgu, mwy o ffocws ar les a mwynhad dysgwyr o'u dysgu

Tueddiadau cyffredinol ymysg ymatebion uwch arweinwyr ac athrawon

Yn gyffredinol, roedd gan uwch arweinwyr farn fwy cadarnhaol na'r rheini nad oedd yn uwch arweinwyr ar draws sawl thema o'r arolwg. Er enghraifft, roeddent yn fwy tebygol o nodi:

- eu bod yn wybodus am, ac yn deall rhai agweddau ar newid cwricwlwm
- safbwyntiau cadarnhaol mewn perthynas â sawl agwedd ar eu lles a'u hamgylcheddau gwaith
- cytundeb bod dealltwriaeth gyffredin o rai agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgol
- eu bod wedi ymwneud â sawl math o gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm
- bod llawer o agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru wedi eu hadlewyrchu yn eu harfer addysgu (neu arferion athrawon yn eu hysgol)

- bod y cwricwlwm yn cael ei wireddu mewn ffordd oedd yn cefnogi cynnydd mewn rhai agweddau penodol ar y cwricwlwm
- bod ymholi proffesiynol yn cael ei annog yn eu hysgol a bod hyn wedi bod yn fuddiol mewn sawl ffordd

Yn gyffredinol, roedd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd farn fwy cadarnhaol na'r rhai mewn ysgolion cynradd mewn perthynas â sawl thema. Er enghraifft, roeddent yn fwy tebygol o nodi:

- safbwyntiau mwy cadarnhaol mewn perthynas â sawl agwedd ar eu lles a'u hamgylcheddau gwaith
- mwy o ymwneud â sawl math o gydweithio ar gynllunio cwricwlwm, gan gynnwys cydweithio ag athrawon a rhieni a gofalmwr
- bod llawer o agweddau ar Cwricwlwm i Gymru yn cael eu hadlewyrchu yn eu harfer addysgu (neu arferion athrawon yn eu hysgol)
- bod y cwricwlwm yn cael ei wireddu mewn ffordd oedd yn cefnogi cynnydd mewn rhai agweddau penodol ar y cwricwlwm
- eu bod yn teimlo bod eu cyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn eu hysgol yn gadarnhaol mewn rhai ffyrdd

I'r gwrthwyneb, ymatebodd athrawon mewn ysgolion cynradd yn fwy cadarnhaol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd mewn perthynas â'r rhan fwyaf o themâu'r arolwg. Er enghraifft, roeddent yn fwy tebygol o nodi:

- eu hymrwymiad i sawl agwedd ar newid cwricwlwm
- eu gwybodaeth am sawl agwedd ar newid cwricwlwm
- safbwyntiau mwy cadarnhaol mewn perthynas â sawl agwedd ar eu lles a'u hamgylcheddau gwaith
- mwy o ymwneud â sawl math o gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, gan gynnwys cydweithio ag athrawon a rhieni a gofalmwr
- cytundeb bod dealltwriaeth gyffredin o rai agweddau ar Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgol
- barn gadarnhaol ar y dysgu proffesiynol a'r cymorth system a oedd ar gael iddynt
- eu bod wedi gwneud newidiadau sylweddol i sawl agwedd ar eu hymarfer
- bod llawer o agweddau ar Cwricwlwm i Gymru yn cael eu hadlewyrchu yn eu harfer addysgu

- hyder bod llawer o arferion addysgu yn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru
- hyder bod llawer o arferion asesu yn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru
- hyder bod y cwricwlwm yn cael ei wireddu mewn ffordd oedd yn cefnogi cynnydd mewn llawer o agweddau penodol ar y cwricwlwm
- hyder mewn arferion oedd yn ymwneud â sawl agwedd ar alluogi dysgu
- bod ymholi proffesiynol yn cael ei annog yn eu hysgol a bod hyn wedi bod yn fuddiol mewn sawl ffordd
- eu bod yn teimlo bod eu cyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn eu hysgol yn gadarnhaol mewn rhai ffyrdd

Roedd mwy o wahaniaethau nodedig yn ôl rôl ac yn ymatebion uwch arweinwyr ac athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd na gwahaniaethau oedd yn gysylltiedig â newidynnau eraill.

2. Cyflwyniad

Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i arwain gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru (y Cwricwlwm). Mae Ymchwil Arad yn gweithio ochr yn ochr â nifer o sefydliadau fel rhan o raglen ymchwil eang, sy'n cynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor, y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgol Stirling, Prifysgol Auckland ac AlphaPlus Consultancy.

Defnyddir dull cymysg ar gyfer y gwerthusiad, gan gynnwys arolygon o uwch arweinwyr ac ymarferwyr, arolygon o rieni a gofalcwyr a dysgwyr, astudiaethau achos hydredol i ddeall teithiau ysgolion o ran gweithredu'r cwricwlwm a sawl astudiaeth ansoddol yn seiliedig ar bynciau sy'n archwilio elfennau penodol o'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg o uwch arweinwyr ac ymarferwyr (h.y. athrawon a'r rhai sy'n cynorthwyo gydag addysgu) mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a darpariaeth addysg arall heblaw yn yr ysgol (EOTAS) dan arweiniad cwmni ymchwil Arad ac AlphaPlus Consultancy. Archwiliodd yr arolwg farn ymatebwyr ar eu profiadau o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Derbyniodd yr arolwg 1,227 o ymatebion, a phenderfynwyd bod 925 ohonynt wedi ymgysylltu â'r arolwg i lefel ddigonol i gael eu cynnwys yn y dadansoddiad. Mae rhagor o fanylion am broffil sampl a phoblogaeth yr arolwg wedi'u nodi ym Mhennod 4 (Proffil y sampl) ac yn Atodiad Technegol B, a gyhoeddir ar wahân.

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru, yr arolwg o uwch arweinwyr ac ymarferwyr a strwythur yr adroddiad hwn.

Trosolwg o'r gwerthusiad ffurfiannol

Nod y gwerthusiad yw asesu i ba raddau y mae'r diwygiadau'n gweithio yn ôl y disgwyl fel y nodir yn [Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru \(Y Fframwaith\)](#). Amcanion y gwerthusiad yw:

- adolygu'r theori newid yn yr [Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru](#), a gwneud diwygiadau os oes angen, yn benodol er mwyn rhoi ystyriaeth lawnach i degwch o fewn y theori newid
- ystyried i ba raddau y mae'r mecanweithiau yn y theori newid, a'r gweithgareddau, allbynnau a deilliannau tymor byr / canolig a ragwelir yn cael eu gwireddu yn ôl y disgwyl

- ymchwilio i'r amrywiad rhwng dulliau ar draws ysgolion a mathau eraill o ddarpariaeth a disgrifio pa ffactorau a/neu amodau sy'n cefnogi neu'n rhwystro gwireddu'r diwygiadau'n effeithiol a pha gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen
- archwilio barn, arferion a phrofiadau uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau eraill a darpariaeth mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae barn, profiadau ac arferion yn wahanol ar gyfer gwahanol fathau o ymarferwyr a lleoliadau, a pham
- archwilio barn a phrofiadau dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau a darpariaethau eraill mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â'u rhieni/gofalwyr, gan gynnwys i ba raddau ac ym mha ffyrdd y mae barn a phrofiadau'n wahanol ar gyfer gwahanol fathau o ddysgwyr a rhieni/gofalwyr, a pham
- dod i gasgliadau ac thynnu sylw at feysydd i'w hystyried ar gyfer polisi ac ymarfer ar draws y system gyfan i gefnogi'r gwaith o wireddu'r diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu a'u heffeithiolrwydd y yn y dyfodol, gan sicrhau bod y rhain yn ystyried yn llawn ehangder y diwygiadau ar draws gwahanol grwpiau rhanddeiliaid, cyd-destunau, darpariaeth a lleoliadau

Cefndir a chyd-destun

Y Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg ac i greu system addysg sy'n codi safonau addysgol yng Nghymru ac sy'n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd.. Mae pedwar diben i'r Cwricwlwm i Gymru sy'n fan cychwyn ac yn ddyhead i holl blant a phobl ifanc Chymru. [Mae adroddiad 'Improving Schools in Wales' y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygu Economaidd](#) (OECD, 2014) a [Dyfodol Llwyddiannus](#) (Donaldson, 2015) yr adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, yn nodi'r rhesymeg dros y diwygiadau yn ogystal a chynnig argymhellion ynghylch sut i gynllunio cwricwlwm newydd sy'n addas ar gyfer y Gymru fodern. O dan y diwygiadau, mae'n ofynnol i bob ysgol ac UCD ddatblygu ei chwricwlwm ei hun, o fewn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a ddiffiniwyd yn genedlaethol, gan alluogi dysgwyr i ymgorffori pedwar diben y cwricwlwm drwy ddod yn:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd

- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

O dan Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, mae'r pedwar diben yn cael eu hategu gan y sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben (neu 'sgiliau cyfannol') sydd i'w datblygu ar draws ystod eang o weithgareddau dysgu ac addysgu. Y sgiliau cyfannol hyn yw: creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol a chynllunio a threfnu. Mae'r pynciau wedi'u trefnu ar sail chwe Maes Dysgu a Phrofiad: Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles; Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Ar draws y chwe maes hyn, o fewn [canllawiau statudol y Cwricwlwm i Gymru](#), mae 27 datganiad o'r hyn y mae'n rhaid i ysgolion seilio eu cwricwlwm arnynt (Llywodraeth Cymru, 2024a).

Fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol. Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau cynnydd yn y sgiliau hyn ar draws pob maes o'r cwricwlwm. Wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai ysgolion hefyd ymgorffori themâu trawsbynciol mewn dysgu ar draws y cwricwlwm. Y themâu trawsbynciol yw: Addysg cydberthynas a rhywioldeb, Hawliau dynol, Amrywiaeth, Gyrfaedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn nodi'r [egwyddorion a'r gofynion gorfodol](#) a ddylai arwain y gwaith o baratoi a chynllunio cwricwlwm ysgolion a lleoliadau, y cyfeirir at lawer ohonynt yn adran canfyddiadau'r adroddiad hwn. Mae'r Fframwaith yn cyfeirio at [ddatblygu'r cwricwlwm ar y cyd](#), gan gynnwys dysgwyr, rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach wrth gynllunio'r cwricwlwm, sicrhau bod addysgeg yn cefnogi'r broses o wireddu'r pedwar diben, ymgysylltu â rhwydweithiau proffesiynol, gweithio gyda lleoliadau, ysgolion a sefydliadau addysg bellach eraill, ac adlewyrchu cyd-destun yr ysgol leol wrth ddatblygu'r cwricwlwm. Cyhoeddwyd canllawiau statudol y Cwricwlwm i Gymru yn 2020, gyda diweddariadau blynyddol wedi hynny, i gefnogi ymarferwyr gyda'r camau ymarferol o gynllunio, gwireddu ac adolygu eu cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys [canllawiau 'Cwricwlwm i Gymru: ymlaen â'r daith'](#) (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024) sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm a dysgu, gan bwysleisio natur gylchol y broses o gynllunio'r cwricwlwm a'r camau y dylai ysgolion eu cymryd i gynllunio, gwerthuso a mireinio eu cwricwlwm. Pwysleisiodd y canllaw hwn bwysigrwydd:

- rôl arweinyddiaeth yn y broses gynllunio

- datblygu cwricwlwm â diben
- defnyddio egwyddorion cynnydd a datganiadau o'r hyn sy'n bwysig i gynllunio ar gyfer cynnydd
- sicrhau bod asesu yn cefnogi dysgwyr unigol i wneud cynnydd
- defnyddio'r disgrifiadau dysgu i lywio cynllunio ac asesu
- sicrhau bod dulliau addysgegol yn manteisio ar alluogedd a barn broffesiynol ymarferwyr a bod strategaethau addysgu yn diwallu anghenion newidiol dysgwyr yn eu cyd-destun

Mae canllawiau Galluogi Dysgu [Llywodraeth Cymru](#), sy'n rhan o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, yn cefnogi ysgolion i gynllunio cwricwlwm sy'n briodol i ddatblygiad pob dysgwr, yn enwedig y rhai sy'n symud ymlaen tuag at Gam Cynnydd 1. Mae'n tynnu sylw at dri 'galluogydd' sy'n gysylltiedig â'i gilydd – oedolion sy'n galluogi dysgu, profiadau sy'n ennyn diddordeb, ac amgylcheddau effeithiol – sydd gyda'i gilydd yn meithrin datblygiad cyfannol drwy ddysgu seiliedig ar chwarae, dysgu yn yr awyr agored, arsylwi, a phrofiadau dilys. Mae'r canllawiau hefyd yn tanlinellu pum llwybr datblygiadol – perthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol, a llesiant – sydd wedi'u seilio ar feysydd traddodiadol o ddatblygiad plant fel rhai hanfodol ar gyfer cefnogi twf a chynnydd dysgwyr tuag at bedwar diben y cwricwlwm.

Mae canllawiau a chynlluniau strategol eraill Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r angen i ysgolion ystyried sut y gall gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru gefnogi diwygiadau a blaenoriaethau ehangach, gan gynnwys [y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol](#) (ADY), [Cymraeg 2050](#), mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a [hyrwyddo iechyd a llesiant dysgwyr](#).

Yn ystod y gwaith ymchwil hwn, cyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr hŷn a chyflwyno cymwysterau newydd, cafodd adran ar ddarparu [canllawiau pellach ar ddysgu 14 i 16](#) eu cynnwys yng nghanllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ymarferwyr i gynllunio, gwireddu ac adolygu cwricwlwm cynhwysol ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 10 ac 11. Mae'r adran hon o ganllawiau statudol y cwricwlwm yn nodi y dylid cynllunio, adolygu a mireinio'r holl ddysgu ac addysgu ym Mlynnyddoedd 10 ac 11 yn unol â chanllawiau ehangach y Cwricwlwm i Gymru.

Adeg y gwaith ymchwil hwn, roedd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob dysgwr oedran cynradd ac ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 7, 8 a 9.

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 3 yn nodi'r fethodoleg ar gyfer yr arolwg
- Mae Pennod 4 yn nodi proffil y sampl
- Mae Pennod 5 yn cyflwyno crynodeb o'r prif ganfyddiadau
- Mae penodau 6-45 yn cyflwyno canfyddiadau manwl
 - Mae Rhan A (penodau 6-25) yn cyflwyno canfyddiadau ar farn uwch arweinwyr
 - Mae Rhan B (penodau 26-44) yn cyflwyno canfyddiadau ar farn ymarferwyr
- Mae Pennod 45 yn cyflwyno canfyddiadau dadansoddiad pellach sy'n archwilio'r berthynas rhwng gwahanol newidynnau yn yr arolwg ac ymdrech i ddilysu rhannau o'r [theori newid ar gyfer y diwygiadau cwrïcwllwm ac asesu](#). Roedd y dadansoddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad ffactor (FA) a modelu hafaliad strwythurol (SEM)

Mae'r atodiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wahân: Mae Atodiad A yn cynnwys yr holiadur arolwg a ddefnyddiwyd. Mae Atodiad B yn nodi gwybodaeth samplu ychwanegol. Mae Atodiad C yn cynnwys canfyddiadau dadansoddi is-grŵp ac mae Atodiad D yn cynnwys rhagor o fanylion technegol a chanfyddiadau ychwanegol sy'n ymwneud â'r Dadansoddiad Ffactor a'r Modelu Hafaliad Strwythurol. Mae Atodiad E yn cynnwys y tablau data.

3. Methodoleg

Mae'r bennod hon yn rhoi manylion ynglŷn â methodoleg yr arolwg. Mae hyn yn cynnwys manylion y broses o gynllunio'r holiadur, samplu, gwaith maes yr arolwg a'r broses ddadansoddi yn ogystal â chyfyngiadau'r fethodoleg.

Cynllunio'r holiadur

Dyluniwyd holiadur yr arolwg gan Arad a'r Athro Cyswllt Claire Sinnema gyda mewnbwn gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Cafodd strwythur a themâu'r holiadur eu llywio gan y [theori newid ar gyfer y diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu a gyflwynwyd yn yr astudiaeth gwmpasu](#). Cynhaliwyd cyfres o weithdai gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth a Mehefin 2024 i lywio'r broses o gynllunio'r holiadur.

Dyluniwyd yr holiadur i'w gwblhau gan uwch arweinwyr, athrawon a staff cynorthwyol. Cafodd cwestiynau eu teilwra i fod yn berthnasol i'r rheini oedd â chyfrifoldebau addysgu neu gynorthwyo gydag addysgu (er enghraifft, trwy ofyn iddynt fyfyrion ar eu gwybodaeth, eu sgiliau neu eu harfer eu hunain) yn ogystal â'r rhai nad oedd â'r cyfrifoldebau hyn (er enghraifft, trwy ofyn iddynt fyfyrion ar wybodaeth, sgiliau ac arfer athrawon, naill ai yn eu hysgol neu'n fwy cyffredinol). Yn adrannau canfyddiadau'r adroddiad hwn, cyflwynir ymatebion gan uwch arweinwyr oedd yn addysgu a rhai nad oeddent yn addysgu yn ogystal ag athrawon a staff eraill (nad oeddent yn uwch arweinwyr)^[Troednodyn 3]. Archwiliwyd gwahaniaethau rhwng safbwyntiau uwch arweinwyr/ymarferwyr oedd yn addysgu a rhai nad oedd yn addysgu yn ystod y dadansoddiad ac, lle roedd gwahaniaethau yn nodedig, fe'u cyflwynir yn y testun sy'n cyd-fynd â'r siartiau.

Strwythurwyd yr holiadur i holi uwch arweinwyr ac ymarferwyr am:

- eu hymrwymiad i newid cwricwlwm
- eu gwybodaeth ynglŷn â newid cwricwlwm
- eu dealltwriaeth o newid cwricwlwm
- eu gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm
- eu lles

[1] Roedd y rhain yn cynnwys y rhai a ddywedodd eu bod yn athro myfyriwr, arweinydd bugeiliol, gweithiwr ieuenctid, cydlynnydd ADY cynorthwyol, gweinyddwr neu lywodraethwr ysgol.

- effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm (Uwch Arweinwyr yn Unig)
- cydweithio ar gynllunio cwricwlwm
- dealltwriaeth gyffredin o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru (wedi'u labelu fel elfennau cwricwlwm yn yr holiadur)
- dysgu a chymorth proffesiynol
- cefnogaeth
- dulliau ysgolion o gynllunio'r cwricwlwm
- newidiadau i arfer
- agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru (wedi'u labelu fel elfennau'r cwricwlwm yn yr holiadur) ar waith
- arferion addysgegol
- cynnydd ac asesu
- galluogi dysgu
- ymholi proffesiynol
- cyfraniad i'r cwricwlwm
- cynnydd dysgwyr
- heriau a chefnogaeth yn y dyfodol

Roedd y rhan fwyaf o gwestiynau yn gofyn i ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â datganiad neu gyfres o ddatganiadau, gyda rhai cwestiynau testun agored yn rhoi cyfleoedd iddynt ddarparu sylwadau pellach i gefnogi eu hymateb a thri chwestiwn agored dewisol arall.

Profwyd yr holiadur yn wybyddol rhwng Gorffennaf a Medi 2024 gyda 6 uwch arweinydd a 6 athro, gan gynnwys 6 mewn ysgolion cynradd a 6 mewn ysgolion uwchradd. Fe wnaeth y cyfweiliadau profi gwybyddol bara tua 45 munud, a roeddent yn cynnwys ymchwilwyr yn rhannu cwestiynau'r arolwg ar sgrin ac yn gofyn i ymatebwyr 'feddwl yn uchel' wrth gwblhau'r arolwg fel y gallai'r ymchwilwyr ddeall sut yr oeddent yn dehongli pob cwestiwn. Holodd ymchwilwyr ymatebwyr ymhellach trwy ofyn cwestiynau fel 'Beth yr oeddech chi'n ei feddwl amdano wrth ateb y cwestiwn hwnnw?'. Gofynnwyd i'r ymatebwyr sôn am unrhyw eiriau neu ymadroddion yr oeddent yn eu gweld yn anodd eu hateb, neu'n aneglur, yn

ogystal â chwestiynau yr oeddent yn ystyried eu bod yn bwysig (neu'n llai pwysig) i'w gofyn. Defnyddiwyd y canfyddiadau i ddiwygio'r holiadur, a chymerodd 6 uwch arweinydd ac athrawon ran mewn ail gyfweiliad byrrach (tua 25 munud) i brofi'r diwygiadau a wnaethpwyd. Gwnaed rhai diwygiadau pellach yn dilyn yr ail rownd o gyfweiliadau. Mae copi o'r holiadur wedi'i gynnwys yn Atodiad A o'r adroddiad hwn, wedi'i gyhoeddi ar wahân.

Poblogaeth a fframwaith samplu

Uwch arweinwyr

Defnyddiwyd dull samplu cwota haenedig yn yr arolwg o uwch arweinwyr, dull sy'n ceisio cyfateb cyfrannau'r ymatebwyr â nodweddion penodol (fel sector, rhanbarth) â'r cyfrannau yn y boblogaeth. Dechreuwyd defnyddio dull samplu haenedig ar hap i ddechrau, ond defnyddiwyd dull samplu cwota haenedig yn y pen draw gan nad oedd yn bosibl cyflawni'r sampl targed gan ddefnyddio'r dull haenedig ar hap, oherwydd diffyg ymateb gan grŵp cychwynnol o leoliadau a ddewiswyd ar hap.

Defnyddiwyd cyfanswm nifer yr ysgolion a'r UC Dau fel sail ar gyfer samplu uwch arweinwyr. Defnyddiwyd data o restr gyfeiriadau ysgolion Llywodraeth Cymru (a ddiweddarwyd ddiwethaf yn Awst 2024 pan ddyluniwyd y sampl) a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2023/2024 (CYBLD, a gasglwyd ddiwethaf ym mis Ionawr 2024 ar yr adeg pan ddyluniwyd y sampl) i greu proffil o ysgolion ac UC Dau yng Nghymru. Defnyddiwyd nifer yr ysgolion/lleoliadau (yn seiliedig ar restr gyfeiriadau ysgolion Llywodraeth Cymru a CYBLD) fel sail ar gyfer samplu, yn hytrach na nifer y penaethiaid yn seiliedig ar Gyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion 2023/24 (CBGY). Gwnaethpwyd hyn er mwyn galluogi samplu a monitro ymatebion ar lefel ysgol unigol, yn hytrach nag ar lefel gyffredinol, rhywbeth nad yw'n bosibl gan ddefnyddio'r data CBGY cyhoeddedig, gan nad yw'n cael ei gyhoeddi ar lefel ysgol unigol.^[Troednodyn 4] Dangosir nifer a chanran yr ysgolion a'r UC Dau yn ôl sector a chyfrwng iaith yn Nhabl 3 yn Atodiad B, wedi'i gyhoeddi ar wahân.

Yn 2024/25, roedd 1,476 o ysgolion ac UC Dau, yn cynnwys 1,415 o ysgolion prif ffrwd, 39 o ysgolion arbennig a 22 o UC Dau^[Troednodyn 5]. Roedd data wedi'i gyhoeddi ar gael ar sector

[2] Nid oedd nifer yr ysgolion/lleoliadau a nifer y penaethiaid yn union yr un fath (oherwydd bod rhai penaethiaid yn arwain mwy nag un lleoliad). Yn ôl [Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion 2023/24 \(CBGY\)](#), roedd 1,415 o benaethiaid (gan gynnwys penaethiaid gweithredol a phenaethiaid dros dro), o'i gymharu â 1476 o ysgolion/lleoliadau yn 2023/24.

[3] Yn seiliedig ar [restr Cyfeiriadau ysgolion Llywodraeth Cymru \(Awst 2024\)](#). Mae hyn ychydig yn wahanol i'r 1482 o ysgolion a UC Dau a restrir yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol 2023/24 (CYBLD) oherwydd roedd nifer fach o ysgolion wedi uno a/neu wedi cau rhwng blynyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25.

(cynradd, uwchradd, ysgol arbennig, UCD), cyfrwng iaith (ar gyfer ysgolion prif ffrwd) a rhanbarth yr holl ysgolion ac UCDAu hyn. Roedd data wedi'i gyhoeddi hefyd ar gael ar ganran y disgyblion oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn 1,278 o'r ysgolion prif ffrwd, ar ganran y disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) neu Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) mewn 339 o'r rhain a chanran y dysgwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn 1,120 o'r ysgolion hyn^[Troednodyn 6]. Nid oedd data wedi'i gyhoeddi ar gael ar gyfer rhai ysgolion/lleoliadau, gan gynnwys:

- y rhai lle roedd rhwng un a phedwar o ddysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gydag ADY neu yn ddysgwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac felly gallai'r data ddatgelu gwybodaeth am unigolion. Ar gyfer yr ysgolion hyn, priodolwyd gwerth o 2 ddysgwr i lywio'r samplu; roedd hyn yn galluogi pennu categori ar gyfer pob ysgol (isel, canolig neu uchel) yn seiliedig ar ganran ei dysgwyr â'r nodweddion hyn
- ysgolion newydd (neu ysgolion 3-18 oed oedd newydd eu creu)
- ysgolion meithrin ac arbennig (39) ac UCDAu (22) ^[Troednodyn 7]

Mae poblogaeth (nifer) yr ysgolion ym mhob un o'r categorïau uchod wedi'u nodi yn Nhabl 3 yn Atodiad Technegol B, ochr yn ochr â'r sampl darged.

Ymarferwyr nad oedd yn uwch arweinwyr

Defnyddiwyd dull samplu cwota haenedig ar gyfer ymarferwyr nad oedd yn uwch arweinwyr. Diffiniwyd ymarferwyr nad oeddent yn uwch arweinwyr fel yr holl ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn aelod o uwch dîm arweinyddiaeth eu hysgol, gan gynnwys y rhai a adroddodd eu prif rôl fel "athro", "arweinydd canol", "gweithiwr cymorth dysgu" a staff "eraill". Yn rhan B o'r adroddiad hwn, defnyddir y term "athro", er mwyn bod yn gryno, i ddisgrifio ymarferwyr nad oeddent yn uwch arweinwyr. Y rhesymeg dros ddefnyddio dull samplu cwota haenedig ar gyfer y grŵp hwn oedd nad oedd gan y tîm gwerthuso fynediad at gronfa ddata o ymarferwyr a'u manylion cyswllt y gellid ei defnyddio ar gyfer dewis cyfranogwyr yr arolwg, dosbarthu'r arolwg yn uniongyrchol i'r derbynwyr arfaethedig a

[4] Mae nifer yr ysgolion lle mae data ADY / AAA wedi'i gyhoeddi ar gael yn is na'r categorïau eraill oherwydd bod y categori hwn yn deillio o gyfrifo cyfanswm o bedwar is-gategori ar wahân o ddata. Mae cyfrifo cyfanswm nifer y dysgwyr ag ADY / AAA yn gofyn am agregu cyfanswm nifer y dysgwyr sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU), Gweithredu Ysgol, Gweithredu Ysgol a Datganiad AAA. Ym mhob ysgol heblaw 339, mae gan o leiaf un o'r pedwar categori hynny werth rhwng 1 a 5 (dangosir gwerthoedd 0) felly nid yw'n bosibl creu cyfanswm manwl gywir. Pan oedd data ar goll ar gyfer un neu fwy o'r categorïau hyn, neilltuwyd gwerth o 2 i alluogi amcangyfrif o gyfanswm nifer a chanran y dysgwyr ag ADY/AAA i gael ei cyfrifo.

[7] Gweler [Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgybl \(CYBLD\)](#)

monitro ymatebion. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn bosibl gwybod faint o athrawon oedd wedi derbyn gwahoddiad yr arolwg i allu amcangyfrif lefelau diffyg ymateb. Nid oedd sampl tebygolrwydd yn bosibl ar gyfer ymarferwyr nad oeddent yn uwch arweinwyr oherwydd hyn. Yn hytrach, dosbarthwyd yr arolwg i benaethiaid trwy e-bost a gofynnwyd iddynt drosglwyddo'r gwahoddiad i ymarferwyr yn eu hysgol.

Datblygwyd fframwaith samplu yn seiliedig ar nodweddion poblogaeth athrawon yn seiliedig ar Gyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (CBGY) 2023/24, gyda chwotâu wedi'u gosod ar gyfer y nodweddion canlynol:

- Nodweddion yr ysgol:
 - sector neu gyfnod
 - cyfrwng iaith
 - ardal ddaearyddol
 - canran y dysgwyr oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- Nodweddion unigol:
 - nifer y blynyddoedd ers ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC).

Gosodwyd sampl darged o 1000 o athrawon, wedi'i rannu yn ôl y nodweddion uchod. Mae'r fframwaith samplu wedi'i gynnwys yn Atodiad B.

Gwaith maes arolwg

Roedd yr arolwg ar agor rhwng 30 Medi a 22 Rhagfyr 2024 ac fe'i gynhaliwyd ar blatfform Smart Survey. Y prif ddull dosbarthu oedd e-bostio gwahoddiad i benaethiaid ym mhob ysgol a'u gwahodd nhw a'u staff i gwblhau'r arolwg. Defnyddiwyd cyfeiriadau e-bost oedd ar gael yn gyhoeddus i ddosbarthu'r arolwg i ysgolion.

Ar gyfer yr arolwg o uwch arweinwyr, dewiswyd sampl haenedig ar hap o 295 o uwch arweinwyr i ddechrau ac anfonwyd y gwahoddiad i gwblhau'r arolwg. Y bwriad oedd y byddai unrhyw ymatebion gan uwch arweinwyr mewn ysgolion y tu allan i'r sampl haenedig ar hap hon yn cael eu dadansoddi ar wahân a'u hystyried fel sampl ychwanegol ar gyfer cymharu a dilysu'r sampl haenedig ar hap. Cafodd nifer yr ymatebion o'r sampl haenedig ar hap eu monitro yn ystod wythnosau cynnar yr arolwg, ond derbyniwyd nifer annigonol o ymatebion gan yr ysgolion hyn i gyrraedd y sampl targed. Yna penderfynwyd defnyddio dull

samplu cwota haenedig yn hytrach na sampl haenedig ar hap, gydag uwch arweinwyr ym mhob ysgol wedyn yn cael eu hystyried yn rhan o'r sampl targed a'u hannog i gwblhau'r arolwg.

Ar gyfer yr arolwg o ymarferwyr, anogwyd pob pennaeth i drosglwyddo'r gwahoddiad i staff yn eu hysgol. Anfonwyd gwahoddiad cychwynnol a thri e-bost atgoffa at bob ysgol, a gwnaed hyd at dair galwad ffôn dilynol i geisio cyrraedd yr ymatebydd i wirio a oeddent wedi derbyn yr arolwg a'u hannog i'w gwblhau.

Cafodd erthyglau ynglŷn â'r arolwg (gan gynnwys dolen i'r holiadur) eu cynnwys yng nghylchlythyr Dysg Llywodraeth Cymru, a ddosbarthwyd i athrawon yn ystod cyfnod yr arolwg. Cafodd gwahoddiadau i gwblhau'r arolwg eu postio hefyd ar wefan Hwb, gwefan Cyngor y Gweithlu Addysg a thudalen Facebook Cwricwlwm i Gymru (oedd dan arweiniad ymarferwyr) a chynhwyswyd gwybodaeth oedd yn hyrwyddo'r arolwg mewn sleidiau a gyflwynwyd mewn cynhadledd Rhwydwaith Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a chynhadledd phenaethiaid.

Cafodd ymatebion yr arolwg eu monitro yn rheolaidd yn erbyn y fframwaith samplu, a dosbarthwyd nodiadau atgoffa wedi'u targedu at fathau o ysgolion ac ymarferwyr a oedd wedi'u tangynrychioli yn y sampl o'i gymharu â'r gyfran yn y sampl darged. Gofynnwyd i awdurdodau lleol (drwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru) hyrwyddo'r arolwg drwy eu rhwydweithiau. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd anfon e-bost uniongyrchol at ysgolion (gan ddefnyddio gwybodaeth oedd ar gael i'r cyhoedd) mewn ardaloedd daearyddol lle roedd cyfran llai o ymatebion.

Dadansoddiad data meintiol

Glanhau data

Glanhawyd y gronfa ddata o ymatebion uwch arweinwyr ac ymarferwyr i eithrio ymatebion lle nad oedd 50% o'r cwestiynau wedi cael eu cwblhau. Cafodd cwestiynau proffil eu heithrio o'r broses hon, felly roedd yn rhaid i'r ymatebwyr fod wedi ateb 50% o'r cwestiynau a oedd yn gofyn am eu safbwynt ar agwedd ar eu haddysgu neu arferion yn eu hysgol. Derbyniodd yr arolwg 1,227 o ymatebion, a phenderfynwyd bod 925 ohonynt wedi ymgysylltu â'r arolwg i lefel ddigonol i gael eu cynnwys yn y dadansoddiad. O'r 925 o ymatebion a gynhwyswyd yn y dadansoddiad, roedd 451 yn uwch arweinwyr, 444 yn athrawon, ac roedd gan 30 rolau eraill (gweler Pennod 4 am ragor o fanylion).

Pwysoliad

Mae'r data a gyflwynir yn adrannau canfyddiadau'r adroddiad hwn wedi'u pwysoli (h.y. wedi'u haddasu fel bod proffil y sampl yn fwy cynrychioliadol o'r boblogaeth) yn ôl cwestiynau proffil penodol y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru, ac a nodir isod. Sylwer, oni nodir fel arall, mae'r holl ddata a chanlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad yn seiliedig ar werthoedd wedi'u pwysoli (h.y. sut fyddai'r sampl yn edrych pe bai'n gynrychioliadol yn genedlaethol, yn ôl y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer pwysoli). Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r canfyddiadau a gyflwynir yn gor-gynrychioli barn un grŵp poblogaeth penodol.

Crëwyd matricesau pwysoli ar gyfer pob un o'r cwestiynau arolwg unigol gan ddefnyddio data cyfrifiad ysgolion o CYBLD 2023/24. Pwysolwyd y sampl gan ddefnyddio'r nodweddion lefel ysgol a restrir isod. Defnyddiwyd data lefel ysgol o CYBLD 2024 ar y nodweddion hyn ac yna fe'i cynhwyswyd yng nghronfa ddata yr arolwg ochr yn ochr ag enw'r ysgol a ddewiswyd gan ymatebwyr yn yr arolwg. Sicrhodd hyn nad oedd y ffactorau a ddefnyddiwyd ar gyfer pwysoli'r sampl yn dibynnu ar ymatebwyr yn cwblhau pob cwestiwn yn yr arolwg ac nad oedd y broses bwysoli yn cael ei sgiwio gan ddata coll. Y newidynnau pwysoli a ddefnyddiwyd oedd:

- Cyfrwng iaith (Cymraeg neu ddwyieithog, Saesneg, Anhysbys)
- Sector (Cynradd, Canol ac Uwchradd, UCD, Arbennig)
- Rhanbarth (gogledd, canolbarth a gorllewin, canolbarth de, de-ddwyrain)
- % y dysgwyr yn yr ysgol oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Isel, Canolig, Uchel)
- % o ddysgwyr yn yr ysgol ag ADY (Isel, Canolig, Uchel)
- % o ddysgwyr yn yr ysgol o leiafrifoedd ethnig (Isel, Canolig, Uchel)^[Troednodyn 8]

Oherwydd y nifer isel o ysgolion arbennig ac UCDAu, a'r diffyg data cyfrifiad sydd ar gael ar rai categorïau o ddata ar gyfer y lleoliadau hyn (yn benodol canran y dysgwyr oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, canran y dysgwyr oedd ag ADY a chanran y dysgwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig), pwysolwyd ymatebion o'r mathau hyn o ysgolion yn ôl

[8] Gosodwyd trothwyon a ddefnyddiwyd i ddiffinio ysgolion fel rhai sydd â chanran isel, canolig neu uchel o ddysgwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ogystal â dysgwyr ag ADY neu sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim gan y tîm ymchwil. Dewiswyd y trothwyon i sicrhau bod tua thraean o ysgolion ym mhob un o'r grwpiau hyn.

sector yn unig. Ar gyfer pob cwestiwn, cafodd ymatebion eu cynnwys yn y matrices pwysoli dim ond os oeddent wedi darparu ymateb ystyrlon, h.y. eu bod wedi dewis opsiwn ymateb yn yr holiadur yn hytrach na gadael y cwestiwn yn wag. Ar gyfer pob cyfuniad o'r newidynnau uchod, gwerthuswyd y matrices pwysoli ar sail:

- amllder (nifer) yn y boblogaeth ar gyfer y cyfuniad perthnasol o newidynnau
- amllder (nifer) yn y sampl a gyflawnwyd ar gyfer y cyfuniad perthnasol o newidynnau
- pwysoliad ar gyfer y cyfuniad penodol o newidynnau fel amllder (nifer) yn y boblogaeth wedi'i rannu ag amllder (nifer) yn y sampl

Gan mai dim ond o'r ymatebwyr hynny a ddarparodd ymatebion ystyrlon y penderfynwyd ar y pwysoliad, nid yw'r crynodebau wedi'u pwysoli a gyflwynir yn yr adroddiad yn adrodd ar y gyfran na ymatebodd i bob cwestiwn.

Roedd yr opsiynau graddfa cytundeb a gyflwynwyd ar gyfer y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn cynnwys pum opsiwn (y rhain oedd: "Anghytuno'n gryf", "Anghytuno", "Ddim yn cytuno nac yn anghytuno", "Cytuno", "Cytuno'n gryf"). Trwy gydol y canfyddiadau, mae "Cytuno'n gryf" a "Cytuno" wedi'u cyfuno a'u cyflwyno fel "Cytuno", tra bod yr opsiynau ymateb "Anghytuno'n gryf" ac "Anghytuno" wedi'u cyfuno a'u cyflwyno fel "Anghytuno" yn naratif yr adroddiad. Cyflwynir graddfa lawn yr ymatebion yn y siartiau (cyflwynir dadansoddiadau llawn yn y tablau data yn Atodiad E, wedi'i gyhoeddi ar wahân). Mae copi o'r holiadur wedi'i gynnwys yn Atodiad A o'r adroddiad hwn, wedi'i gyhoeddi ar wahân.

Ail-godiwyd cwestiynau arolwg gydag opsiynau ymateb trefnol, h.y. y rhai sydd â threfn amlwg i'r ymateb, i ymatebion rhifiadol. Er enghraifft, byddai cwestiwn gydag ymatebion 'isel'/'canolig'/'uchel' yn cael ei ailgodio fel '1'/'2'/'3'.

Cyfrifwyd crynodebau disgrifiadol heb eu pwysoli a rhai wedi eu pwysoli yn seiliedig ar yr ymatebion i bob cwestiwn, ar ffurf cyfrif amllder (niferoedd) a chanrannau. Cwblhawyd y crynodebau hyn ar lefel gyffredinol a hefyd wedi'u rhannu yn ôl newidynnau demograffig o ddiddordeb a bennwyd ymlaen llaw, gyda chwestiynau lle'r oedd modd dewis mwy nag un ymateb wedi'u hailgodio fel eitemau ar wahân.

Cynhyrchwyd siartiau wedi'u pwysoli oedd yn dangos cyfran yr ymatebwyr wnaeth dewis pob opsiwn ymateb ar gyfer pob cwestiwn arolwg. Cynhyrchwyd un siart ar gyfer pob cwestiwn arolwg, gydag ymatebion i gwestiynau aml-ran wedi'u coladu mewn un siart er mwyn eu gwneud yn hawdd eu cymharu ar draws cwestiynau ar thema debyg. Pan fo

canran yr ymatebwyr sy'n dewis opsiwn ymateb yn uwch na 5%, nodir hyn ar y bar perthnasol yn y siart. Trwy gydol yr adroddiad hwn, y ffynhonnell ar gyfer pob siart yw'r arolwg o uwch arweinwyr ac ymarferwyr.

Nid yw meintiau sampl yn cael eu dangos o dan bob siart oherwydd bod y nifer wnaeth ymateb i bob datganiad o fewn cwestiwn yn amrywio. Ar ben hynny, mae'r siartiau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar niferoedd wedi'u pwysoli yn hytrach na'r niferoedd gwirioneddol, sy'n golygu nad oes modd cysylltu nifer amrwd yr ymatebwyr yn uniongyrchol â'r niferoedd a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r canrannau yn y siartiau. Cyflwynir tablau data yn [Atodiad E] sy'n dangos niferoedd gwirioneddol yr ymatebwyr a'r nifer wedi ei bwysoli.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, defnyddir y disgrifiyddion canlynol i adrodd ar ganran yr ymatebwyr a ddarparodd ymatebion penodol i gwestiynau:

- Lle mae mwy na 85% o'r ymatebwyr wedi rhoi ymateb penodol i gwestiwn, defnyddir yr ymadrodd 'mwyafrif helaeth' i ddisgrifio hyn
- Pan fo rhwng 59% ac 84% o'r ymatebwyr wedi rhoi ymateb penodol i gwestiwn, defnyddir yr ymadrodd 'mwyafrif' i ddisgrifio hyn
- Pan fo rhwng 42% a 58% o'r ymatebwyr wedi rhoi ymateb penodol i gwestiwn, defnyddir yr ymadrodd 'tua hanner' i ddisgrifio hyn
- Pan fo rhwng 15% a 41% o'r ymatebwyr yn rhoi ymateb penodol i gwestiwn, defnyddir yr ymadrodd 'lleiafrif' i ddisgrifio hyn
- Pan fo llai na 15% o'r ymatebwyr yn rhoi ymateb penodol i gwestiwn, defnyddir yr ymadrodd 'lleiafrif bach' i ddisgrifio hyn

Profion is-grŵp

Cynhaliwyd cyfres o brofion ystadegol i adnabod presenoldeb gwahaniaethau mewn ymatebion rhwng gwahanol grwpiau poblogaeth ac i adnabod a oedd y gwahaniaethau hyn yn ystadegol nodedig. Lle roedd newidyn yn drefnol (h.y. lle roedd gan gategoriâu ymateb drefn naturiol), ailgodiwyd unrhyw ymatebion 'Ddim yn siŵr' i alinio â'r opsiwn canolog ar y raddfa. Roedd y newidynnau demograffig y dadansoddwyd gwahaniaethau mewn ymatebion ar eu cyfer yn cynnwys:

- cyfrwng iaith ysgol (Saesneg, Cymraeg neu ddwyieithog)

- sector ysgol (Cynradd, Uwchradd, y ddau)
- % o ddysgwyr ysgol oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (Uchel, Canolig, Isel)
- % o ddysgwyr ysgol oedd ag ADY (Uchel, Canolig, Isel)
- % o ddysgwyr ysgol oedd yn ddysgwyr ethnig lleiafrifol (Uchel, Canolig, Isel)
- rhanbarth yr ysgol (Gogledd, Canolbarth a Gorllewin, Canol y De, De-ddwyrain)
- blynyddoedd o brofiad addysgu (<5, 6-10, 11-15, 16-20, 21-25, 26-30, 31+)
- prif rôl (Pennaeth, Uwch arweinydd, Arweinydd canol, Athro, Gweithiwr Cymorth Dysgu, Arall)
- blynyddoedd o brofiad fel arweinydd
- cyfrifoldebau'r Cwricwlwm (pynciau amrywiol)

Dim ond gwahaniaethau nodedig rhwng is-grwpiau sy'n cael eu trafod yn yr adroddiad hwn oherwydd faint o newidynnau a archwiliwyd; felly, mae'r **holl** wahaniaethau grŵp a drafodir yn wahaniaethau nodedig, ac nid ydym yn ailddatgan hyn cyn pob gwahaniaeth. Diffinnir gwahaniaethau nodedig fel y rhai a nodir i fod yn ystadegol arwyddocaol ar lefel 5% yn y profion casgliadol, ond gan ystyried nad oedd y sampl o ymatebwyr yn un tebygolrwydd a'r anymarferoldeb o gyfrif am yr holl ffynonellau o duedd yn y sampl (hyd yn oed wrth bwysoli), nid ydynt yn cael eu hadrodd fel ystadegol arwyddocaol.

Er mwyn bodloni cyfyngiadau ynghylch nifer yr arsylwadau (maint is-sampl) a chymhlethdod y model, cyfunwyd rhai is-grwpiau yn y modelau atchweliad. Er enghraifft, grwpiwyd blynyddoedd o brofiad addysgu i bum lefel yn hytrach na'r wyth lefel wreiddiol a gyflwynwyd yn yr holiadur. Dadansoddwyd gwahaniaethau nodedig rhwng pob un o'r is-grwpiau cyfunol ac fe'u cyflwynir yn yr adroddiad hwn yn hytrach na'r is-grwpiau gwreiddiol

Gan fod y modelau atchweliad yn cynnwys achosion cyflawn yn unig (unigolion oedd â data ar gael ar gyfer y newidyn ymateb a'r holl newidynnau demograffig o ddiddordeb) mae'r garfan a gynhwysir yn y model yn is-grŵp o'r holl ymatebwyr wnaeth ymateb i'r cwestiwn unigol. Felly, nid yw canran yr ymatebwyr ym mhob is-grŵp o newidyn demograffig nodedig yn cael ei gyflwyno yn y crynodebau o ganfyddiadau nodedig er mwyn osgoi cam-gynrychioli'r grŵp y mae'r canfyddiadau nodedig arwyddocaol wedi'u seilio arno.

Ar gyfer nifer o gwestiynau, cyflwynwyd geiriad ychydig yn wahanol i'r rhai a ddywedodd fod ganddynt gyfrifoldebau addysgu neu gynorthwyo gydag addysgu, gan gynnwys uwch

arweinwyr a nododd fod ganddynt gyfrifoldebau addysgu (y cyfeirir atynt yn y canfyddiadau fel "uwch arweinwyr oedd yn addysgu" neu "athrawon") o'i gymharu â'r rhai a ddywedodd nad oedd ganddynt gyfrifoldebau addysgu neu nad oeddent yn cynorthwyo gydag addysgu (y cyfeirir atynt fel "uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu" neu "staff eraill"). Roedd hyn er mwyn sicrhau bod yr holiadur yn gwneud synnwyr i ymatebwyr ym mhob rôl. Yn fras, gofynnwyd cwestiynau i athrawon ac uwch arweinwyr oedd yn addysgu oedd yn eu holi'n uniongyrchol ynglŷn â'u harfer eu hunain, tra gofynnwyd i uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu, a staff eraill, ynglŷn ag arfer ymarferwyr yn eu lleoliad. Gellir gweld enghraifft isod:

- Geiriad i athrawon ac uwch arweinwyr oedd yn addysgu: "Wrth feddwl am eich rôl wrth gynllunio a rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? Rwy'n hyderus bod gen i'r sgiliau sydd eu hangen arnaf..."
- Geiriad i uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu a staff eraill: "Wrth feddwl am waith athrawon (gan gynnwys rheini sy'n cynorthwyo gydag addysgu) yn eich ysgol, wrth gynllunio a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Yn fy ysgol, rwy'n hyderus bod gan athrawon y sgiliau sydd eu hangen arnynt..."

Yn yr achosion hyn, dadansoddwyd fersiynau yr athro/uwch arweinwyr oedd yn addysgu a'r fersiynau i uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu/staff eraill o gwestiynau gyda'i gilydd ar gyfer pob dadansoddiad is-grŵp, y dadansoddi ffactor a modelau SEM.

Deall y gydberthynas rhwng elfennau o'r theori newid

Mae'r dulliau ddadansoddi disgrifiadol ac is-grŵp uchod wedi eu cwblhau fesul datganiad, heb unrhyw dechnegau ystadegol wedi'u defnyddio i ystyried tueddiadau neu'r gydberthynas rhwng datganiadau. Fodd bynnag, dyluniwyd y datganiadau a'r cwestiynau yn yr holiadur i ymwneud â'r cysyniadau a'r pynciau yn theori newid sy'n sail i'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu. Er enghraifft, rhagdybir yn y theori newid bod cwricwlwm ysgol sydd wedi'i gynllunio'n dda, a gyda dysgwyr yn ganolbwynt iddo, yn arwain at ganlyniadau gwell i ddysgwyr.

Felly, mae angen deall y berthynas rhwng ymatebion i wahanol ddatganiadau yn yr arolwg wrth geisio penderfynu sut, neu os, mae rhannau o'r theori newid yn gweithio yn ôl y disgwyl. Mae gwybod hyn yn ddefnyddiol gan y gall ganiatáu adnabod unrhyw rannau o'r theori newid nad ydynt yn ymddangos i fod yn gweithio yn ymarferol fel y disgwyl.

Defnyddiwyd technegau ystadegol cymhleth o'r enw dadansoddi ffactor (FA) a modelu hafaliadau strwythurol (SEM) i ymchwilio i'r berthynas rhwng ymatebion i lawer o wahanol ddatganiadau yn yr holiadur.

Cafodd yr holl fodelau FA a SEM eu ffitio yn y feddalwedd ystadegol R, gan ddefnyddio'r pecyn lavaan (Rosseel, 2012). Yr unig addasiadau i'r gosodiadau safonol yn y pecyn oedd defnyddio amcangyfrif tebygolrwydd uchaf gan ddefnyddio gwybodaeth lawn i drin data coll, a phwysoli'r dadansoddiad gan ddefnyddio'r un dull a drafodwyd uchod ar gyfer pob dadansoddiad arall.

Mae rhagor o fanylion ynglŷn â'r dull SEM wedi'u cynnwys yn Atodiad D, wedi'i gyhoeddi ar wahân.

Dadansoddiad data ansoddol

Defnyddiwyd dull fframwaith i ddadansoddi'r data ansoddol o ymatebion i'r cwestiynau testun agored. Roedd hyn yn caniatáu dadansoddiad strwythuredig o'r ymatebion ac yn caniatáu ystyriaeth o faterion a ddaeth i'r amlwg o'r data ei hun ac efallai nad oeddent wedi'u hystyried o'r blaen. Cafodd sampl o ymatebion i bob cwestiwn testun agored eu hadolygu a'u 'codio' yn annibynnol i ddechrau gan o leiaf ddau ymchwilydd, gyda phob ymateb i'r arolwg yn cael ei neilltuo hyd at bum cod thematig, yn seiliedig ar ddehongliad yr ymchwilydd o'r ymateb. Yna cymharwyd a thrafodwyd setiau ymchwilwyr o godau cychwynnol i gytuno ar y prif bwyntiau oedd yn dod i'r amlwg o'r dystiolaeth, ac mi wnaeth hyn lywio'r broses o godio'r ymatebion oedd yn weddill a'r dadansoddiad dilynol. Yn adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn, cyflwynir nifer yr ymatebwyr a gwblhaodd bob cwestiwn testun agored ac yna'r prif bwyntiau a nodwyd yn seiliedig ar y broses hon. Ym mhob achos, crybwyllwyd y prif bwyntiau a godwyd gan leiafrif neu leiafrif bach o ymatebwyr.

Cyfyngiadau methodolegol

Wrth ddadansoddi'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio rhai o gyfyngiadau'r fethodoleg.

Mae'n bwysig cydnabod y risg o duedd dethol ymhlith y sampl o uwch arweinwyr ac ymarferwyr wnaeth gymryd rhan yn yr arolwg. Efallai bod uwch arweinwyr ac ymarferwyr a

oedd o'r farn bod o broses o wireddu'r cwricwlwm yn mynd yn dda yn eu hysgol wedi bod yn fwy tebygol o gwblhau'r arolwg. Yn yr un modd, efallai bod ymatebwyr a oedd yn teimlo bod eu hysgol yn wynebu anawsterau wrth wireddu'r cwricwlwm wedi ystyried yr ymchwil fel cyfle i dynnu sylw at unrhyw broblemau yr oeddent yn eu hwynebu.

Roedd risg bellach o duedd dethol ymhlith y sampl o ymarferwyr a ymgysylltodd â'r arolwg. Er bod yr arolwg wedi'i hyrwyddo'n uniongyrchol i ymarferwyr trwy sianeli cyfathrebu fel cylchlythyr Dysg a sianeli cyfryngau cymdeithasol, gwahoddwyd penaethiaid hefyd i'w ddosbarthu'n fewnol i'w staff. Mewn sefyllfaoedd lle'r oedd penaethiaid yn gweithredu fel 'porthorion' i sicrhau cyfranogiad eu staff, gallai hyn fod wedi dylanwadu ar gyfansoddiad y sampl.

Ceisiodd y gwerthusiad liniaru'r risgiau hyn drwy fabwysiadu dull cwota haenedig o ddosbarthu nodiadau atgoffa i gwblhau'r arolwg, gan dargedu mathau o ysgolion (yn ôl sector, cyfrwng iaith a rhanbarth) ac ysgolion â nodweddion penodol (er enghraifft y rhai oedd yng nghategoriâu ymweliadau dilynol Estyn) a oedd wedi eu tangynrychioli yn y sampl. Ar ben hynny, roedd y dull o bwysoli'r sampl yn ceisio lliniaru unrhyw dangynrychiolaeth.

4. Proffil y sampl

Derbyniodd yr arolwg 1,227 o ymatebion, a phenderfynwyd bod 925 ohonynt wedi ymgysylltu â'r arolwg i lefel ddigonol i gael eu cynnwys yn y dadansoddiad.

O'r 925 o ymatebion gafodd eu cynnwys yn y dadansoddiad, roedd 451 yn uwch arweinwyr (h.y. roeddent yn dweud eu bod yn aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn eu hysgol), 444 yn athrawon (gan gynnwys arweinwyr canol nad oeddent ar yr uwch dîm arweinyddiaeth a gweithwyr cymorth dysgu), ac roedd gan 30 rolau eraill (ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn eu hysgol neu UCD ac a ddywedodd hefyd nad oedd ganddynt gyfrifoldebau addysgu neu gynorthwyo gydag addysgu).

Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ganlyniadau wedi'u pwysoli (h.y. sut fyddai'r canlyniadau'n edrych pe baent yn cael eu haddasu i fod yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol yn genedlaethol).

Mae proffil manwl o nodweddion y sampl a phoblogaeth yr arolwg wedi'i gyflwyno yn Nhabl 1 isod. Mae Colofn A yn nodi pob nodwedd ddemograffig neu newidyn a ddefnyddiwyd i ddadansoddi a/neu bwysoli data'r arolwg ac mae colofn B yn nodi'r nifer, heb ei bwysoli, o ymatebion a dderbyniwyd i'r arolwg gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr oedd yn bodloni pob un o'r meini prawf hyn. Mae Colofn C yn cyflwyno canran y sampl gyfan a adroddodd fod ganddynt y nodweddion hyn tra bod colofn D yn cynnwys y ganran ag eithrio'r rhai nad oedd wedi cwblhau'r cwestiwn, fel bod y canrannau yn y categorïau ymateb (ag eithrio'r rhai na wnaeth ymateb) yn dod i gyfanswm o 100%. Mae Colofn E yn cyflwyno canran y boblogaeth o uwch arweinwyr ac ymarferwyr oedd ym mhob categori i alluogi cymhariaeth â'r sampl.

Tabl 1. Dadansoddiad o'r sampl a gyflawnwyd

A. Newidyn Demograffig	B. Nifer yn y sampl	C. % (o'r sampl)	D. % (o'r sampl nad oedd ar goll h.y., gan eithrio'r rhai na atebodd y cwestiwn) [Nodyn 1]	E. % (o'r boblogaeth) [Nodyn 2]
Sector Ysgolion:				
Cynradd	592	64.0	64.0	47.7
Canol ac Uwchradd	271	29.3	29.3	47.5
UCD	20	2.2	2.2	1.2
Arbennig	42	4.5	4.5	3.6
% dysgwyr yr ysgol oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim:				
Isel	276	29.8	29.8	30.8
Canolig	340	36.8	36.8	32.7
Uchel	246	26.6	26.6	32.3
Anhysbys / Dim data	63	6.8	6.8	4.1
% dysgwyr ag ADY yr ysgol:				
Isel	330	35.7	35.7	34.1
Canolig	307	33.2	33.2	31.0
Uchel	225	24.3	24.3	30.8
Anhysbys / Dim data	63	6.8	6.8	4.1
% dysgwyr o leiafrifoedd ethnig yr ysgol:				
Isel	253	27.4	27.4	29.4

A. Newidyn Demograffig	B. Nifer yn y sampl	C. % (o'r sampl)	D. % (o'r sampl nad oedd ar goll h.y., gan eithrio'r rhai na atebodd y cwestiwn) [Nodyn 1]	E. % (o'r boblogaeth) [Nodyn 2]
Canolig	351	37.9	37.9	34.8
Uchel	258	27.9	27.9	31.6
Anhysbys / Dim data	63	6.8	6.8	4.1
Cyfrwng Iaith yr Ysgol:				
Cymraeg neu ddwyieithog [Nodyn 3]	247	26.7	26.7	23.3
Saesneg	615	66.4	66.4	71.7
Anhysbys / Dim data [Nodyn 5]	63	6.8	6.8	5.0
Rhanbarth yr Ysgol:				
Gogledd	242	26.2	26.2	27.3
Canolbarth a gorllewin	276	29.8	29.8	31.1
Canol y de	318	34.4	34.4	25.7
De-ddwyrain	89	9.6	9.6	15.9
Cyfrifoldebau Addysgu:				
Oes	772	83.5	83.5	***
Nac oes	153	16.5	16.5	***
Blynyddoedd o brofiad mewn addysg:				
Dan 3 oed	25	2.7	2.7	9.5
3–5 mlynedd	46	5.0	5.0	9.2
6–10 mlynedd	77	8.3	8.4	14.5

A. Newidyn Demograffig	B. Nifer yn y sampl	C. % (o'r sampl)	D. % (o'r sampl nad oedd ar goll h.y., gan eithrio'r rhai na atebodd y cwestiwn) [Nodyn 1]	E. % (o'r boblogaeth) [Nodyn 2]
11–15 mlynedd	134	14.5	14.5	15.8
16–20 mlynedd	169	18.3	18.3	16.8
21–25 mlynedd	203	21.9	22.0	15.4
26–30 mlynedd	172	18.6	18.7	12.4
31 mlynedd +	96	10.4	10.4	6.5
Ni roddwyd ymateb	3	0.3		
Prif Rôl:				
Pennaeth	205	22.2	22.2	2.5 [Nodyn 6]
Uwch arweinydd	160	17.3	17.3	3.8 [Nodyn 7]
Arweinydd canol	161	17.5	17.5	[Nodyn 4]
Athro	282	30.5	30.5	39.8 [Nodyn 8]
Gweithiwr Cymorth Dysgu	76	8.2	8.2	30.6 [Nodyn 9]
Arall	41	4.4	4.4	23.3 [Nodyn 10]
Aelod o'r uwch dîm rheoli:				
Ydw	451	48.8	48.8	[Nodyn 4]
Nac ydw	474	51.2	51.2	[Nodyn 4]
Blynyddoedd o Brofiad Arweinyddiaeth:				
Dan 3 mlynedd	170	18.4	24.2	[Nodyn 4]
3–5 mlynedd	176	19.0	25.0	[Nodyn 4]

A. Newidyn Demograffig	B. Nifer yn y sampl	C. % (o'r sampl)	D. % (o'r sampl nad oedd ar goll h.y., gan eithrio'r rhai na atebodd y cwestiwn) [Nodyn 1]	E. % (o'r boblogaeth) [Nodyn 2]
6–10 mlynedd	170	18.4	24.2	[Nodyn 4]
11–15 mlynedd	105	11.4	14.9	[Nodyn 4]
16–20 mlynedd	48	5.2	6.8	[Nodyn 4]
21–25 mlynedd	21	2.3	3.0	[Nodyn 4]
26–30 mlynedd	6	0.6	0.9	[Nodyn 4]
31 mlynedd +	7	0.8	1.0	[Nodyn 4]
Amherthnasol	214	23.1		
Ni roddwyd ymateb	8	0.9		
Cyfrifoldebau'r cwrwclwm:				
Celfyddydau Mynegiannol	74	8.0	8.0	[Nodyn 4]
Iechyd a Lles	104	11.2	11.2	[Nodyn 4]
Dyniaethau	106	11.5	11.5	[Nodyn 4]
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	146	15.8	15.8	[Nodyn 4]
Mathemateg a Rhifedd	105	11.4	11.4	[Nodyn 4]
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	88	9.5	9.5	[Nodyn 4]
Cymhwysedd digidol	86	9.3	9.3	[Nodyn 4]

[Nodyn 1] Ac eithrio ymatebwyr nad oeddent wedi darparu ymateb i'r cwestiwn demograffig perthnasol

[Nodyn 2] Data poblogaeth yn seiliedig ar CBGY 2023/24 a CYBLD 2023/24

[Nodyn 3] Yn cynnwys ysgolion a oedd gynt wedi'u categorïddio fel categorïau dwyieithog A, B a C / dwy-ffrwd / trosiannol sydd bellach wedi'u categorïddio fel naill ai Dwyiaith, cyfrwng Cymraeg neu ysgolion sy'n pontio i'r categorïau hynny, yn seiliedig ar gategorïau a ddefnyddiwyd yn CYBLD 2023/24.

[Nodyn 4] Nid oedd data poblogaeth ar gael ar gyfer y nodwedd hon

[Nodyn 5] Nid yw UC Dau, ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig yn cael eu categorio yn ôl cyfrwng iaith

[Nodyn 6] Yn cynnwys penaethiaid dros dro a gweithredol (2023/24 CBGY)

[Nodyn 7] Yn cynnwys dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyl (2023/24 CBGY)

[Nodyn 8] Yn cynnwys Ymarferwyr arweiniol, Athrawon dosbarth cymwysedig, Athrawon y byddar, Athrawon plant â nam ar y golwg, Athrawon heb gymhwyso, Athrawon eraill, Athrawon cyflenwi parhaol, Athrawon cyflenwi dan gontract a Hyfforddeion hyfforddiant cychwynnol athrawon (2023/24 CBGY)

[Nodyn 9] Yn cynnwys cynorthwyr addysgu (TAs) a chynorthwyr addysgu lefel uwch (HLTAs)

[Nodyn 10] Yn cynnwys yr holl gategoriâu staff cymorth yn CBGY 2023/24 ac eithrio TA a HLTAs (Cynorthwyr leithoedd Tramor, Cydlynwyr AAA/ADY, staff cymorth AAA/ADY, Rheolwr busnes yr ysgol, Staff cymorth bugeiliol, staff TGCh, Staff Gweinyddol, Technegwyr Gwyddoniaeth a labordy, Llyfrgellwyr a chynorthwyr llyfrgell, Matronau/nyrsys/staff meddygol, Swyddogion Arholiadau/Goruchwylwyr, Goruchwylwyr Canol dydd, Staff cynghori, Staff cymorth eraill)

Tabl 2. Dadansoddiad o brif rôl a sector ysgolion uwch arweinwyr yn y sampl

Newidyn Demograffig	Uwch Arweinwyr oedd yn addysgu		Uwch Arweinwyr nad oedd yn addysgu	
	Nifer yn sampl yr arolwg	% sampl yr arolwg	Nifer yn sampl yr arolwg	% sampl yr arolwg
Prif Rôl				
Pennaeth	97	29.6	107	87.0
Uwch arweinydd	146	44.5	13	10.6
Arweinydd canol	41	12.5	0	0.0
Athro	25	7.6	1	0.8
Gweithiwr Cymorth Dysgu	1	0.0	1	0.8
Arall	18	5.5	1	0.8
Sector Ysgolion:				
Cynradd	253	77.1	103	83.7
Canol ac Uwchradd	63	19.2	10	8.1
UCD	5	1.5	3	2.4
Arbennig	7	2.1	7	5.7
Cyfanswm	328	100.0	123	100.0

5. Crynodeb o'r canfyddiadau

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o'r canfyddiadau o dan bob un o'r themâu a gynhwysir ym Mhenodau 5-44. Mae ymatebion uwch arweinwyr ac athrawon yn cael eu dadansoddi o dan bob thema. Yn y rhan fwyaf o gwestiynau, gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â gwahanol agweddau ar newid cwricwlwm, gyda rhai eithriadau a nodir isod. Roedd yr opsiynau ymateb ar gyfer pob cwestiwn yn amrywio o "cytuno'n gryf" i "anghytuno'n gryf", oni nodir yn wahanol isod. Tynnodd dadansoddiad is-grŵp ar ddata'r arolwg tueddiadau ystadegol nodedig a geir yn y data. Dadansoddwyd gwahaniaethau yn ôl is-grŵp trwy gyfuno ymatebion uwch arweinwyr oedd yn addysgu a rhai nad oedd yn addysgu.

Ymrwymiad i newid cwricwlwm

Yn gyffredinol, nododd uwch arweinwyr ac athrawon eu hymrwymiad i newid cwricwlwm, er nododd athrawon lefelau is o ymrwymiad nag uwch arweinwyr. Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr ac athrawon eu bod yn barod i wneud newidiadau i'w harfer proffesiynol i dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru. Dywedodd mwyafrif yr uwch arweinwyr eu bod bob amser yn hyrwyddo'r Cwricwlwm i Gymru wrth siarad â chydweithwyr, o'i gymharu â thua hanner yr athrawon. Roedd tua hanner yr uwch arweinwyr o'r farn bod y Cwricwlwm i Gymru llawer yn well na'r cwricwlwm blaenorol o'i gymharu â lleiafrif o athrawon.

Cwblhaodd tua hanner yr uwch arweinwyr a lleiafrif o athrawon y cwestiwn testun agored dewisol. Nododd ymatebwyr eu bod yn hoffi'r hyblygrwydd a'r rhyddid i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain yn ogystal â chysyniad y Cwricwlwm i Gymru, ond roeddent yn teimlo fod angen rhagor o, neu gwell, arweiniad, naill ai yn gyffredinol, neu yn benodol rhagor o enghreifftiau o sut y dylai'r cwricwlwm edrych. Nododd lleiafrif o'r ymatebwyr y byddent yn dymuno gweld arweiniad a chyfarwyddyd cliriach ar asesu a chynnydd, gan nodi pryderon ynglŷn â diffyg safoni mewn arferion asesu. Nododd lleiafrif o'r ymatebwyr bryderon fod y Cwricwlwm i Gymru'n rhy amwys ac yn agored i ddehongliad, bod dulliau anghyson o wireddu'r cwricwlwm a bod baich gwaith cynyddol.

Roedd athrawon o ysgolion cynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o gytuno eu bod yn fodlon gwneud newidiadau i'w harfer proffesiynol i wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru a'u bod yn ystyried y cwricwlwm yn llawer gwell na'r cwricwlwm

blaenorol. Roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig ac UC'Dau yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd i gytuno eu bod yn ystyried y Cwricwlwm i Gymru yn llawer gwell na'r cwricwlwm blaenorol.

Gwybodaeth ynglŷn â newid cwricwlwm

Roedd uwch arweinwyr ac athrawon yn cytuno yn gyffredinol â datganiadau ynglŷn â'u gwybodaeth am newid cwricwlwm, yn benodol eu bod nhw:

- yn gallu egluro prif elfennau'r Cwricwlwm i Gymru i eraill
- yn deall eu rôl wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru
- yn glir beth oedd wedi newid yn y Cwricwlwm i Gymru o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol
- yn glir beth oedd y rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm

Roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol nag athrawon o gytuno eu bod yn deall eu rôl wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'u bod yn glir ar yr hyn oedd wedi newid. Roedd uwch arweinwyr hefyd yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn glir ar y rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm, gyda mwyafrif yn cytuno o'i gymharu â thua hanner yr athrawon.

Roedd uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu yn fwy tebygol na'r uwch arweinwyr oedd yn addysgu i gytuno eu bod yn glir ar yr hyn oedd wedi newid a bod y rhesymau dros y diwygiad yn glir iddynt. Roedd uwch arweinwyr UC'Dau ac ysgolion arbennig yn llai tebygol nag uwch arweinwyr o ysgolion uwchradd i gytuno bod y rhesymau dros ddiwygio yn glir

Roedd athrawon o ysgolion cynradd ac arbennig ac UC'Dau yn fwy tebygol o nodi eu gwybodaeth ynglŷn â newid cwricwlwm o'i gymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd.

Dealltwriaeth o newid cwricwlwm

Roedd uwch arweinwyr ac athrawon yn gyffredinol yn cytuno eu bod yn deall newid cwricwlwm o ran:

- sut y dylent newid eu harfer mewn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru

- yr hyn yr oedd yn ofynnol i'w hysgol ei wneud i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru

Nododd tua hanner yr uwch arweinwyr eu bod yn deall beth oedd yn ofynnol i'w hysgol ei wneud i gynllunio eu trefniadau asesu eu hunain yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.

Roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol nag ymarferwyr nad oedd yn uwch arweinwyr i gytuno eu bod yn deall sut y dylent newid eu harfer a'r hyn oedd ei angen i gynllunio eu cwricwlwm. Roedd uwch arweinwyr hefyd yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn deall beth oedd yn ofynnol i'w hysgol ei wneud i gynllunio eu trefniadau asesu eu hunain yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, gyda mwyafrif yn cytuno o'i gymharu â thua hanner yr athrawon.

Roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac arbennig ac UC'Dau yn fwy tebygol na'r rhai o ysgolion uwchradd i gytuno eu bod yn deall sut y dylent newid eu harfer.

Gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm

Roedd uwch arweinwyr ac athrawon yn gyffredinol yn hyderus yn eu gallu eu hunain, neu allu athrawon yn eu hysgol, i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm. Yn benodol, roedd hyn yn cynnwys eu hyder fod ganddynt, neu bod gan athrawon yn eu hysgol:

- y sgiliau oedd eu hangen arnynt
- y wybodaeth pwnc oedd ei hangen arnynt
- y wybodaeth addysgegol oedd ei hangen arnynt
- y gallu i ddarparu profiadau dilys a phwrrpasol i ddysgwyr
- y gallu i gefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng pynciau a meysydd dysgu a phrofiad
- y gallu i addasu eu harfer proffesiynol

Roedd uwch arweinwyr ac athrawon yn llai tebygol, fodd bynnag, o fynegi hyder yn eu harbenigedd cwricwlwm ac asesu eu hunain, neu arbenigedd athrawon yn eu hysgol.

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr oedd yn addysgu a thua hanner yr athrawon yn cytuno eu bod yn hyderus yn eu harbenigedd cynllunio cwricwlwm a chynllunio asesu eu hunain, gyda lleiafrif yn anghytuno. Ymhlith uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu, mynegodd tua

hanner hyder bod gan athrawon yr arbenigedd cynllunio cwricwlwm yr oedd ei angen arnynt a lleiafrif bod ganddynt yr arbenigedd cynllunio asesu oedd ei angen arnynt.

Roedd athrawon o ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o fod yn hyderus ynghylch sgiliau ymarferwyr a'r gallu i addasu arfer proffesiynol. Roedd ymatebwyr ysgolion cynradd yn llai tebygol nag ymatebwyr ysgol uwchradd i fod yn hyderus ynghylch gwybodaeth pwnc ymarferydd a gwybodaeth addysgeg. Roedd arweinwyr canol yn fwy hyderus nag athrawon ynglŷn â'u sgiliau a'u gwybodaeth pwnc.

Ymhlith y lleiafrif o uwch arweinwyr ac athrawon a gwblhaodd y cwestiwn testun agored dewisol, mynegodd rhai ymatebwyr hyder yn eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u gallu eu hunain i addasu i'r Cwricwlwm i Gymru, gan gyfeirio at enghreifftiau o ddysgu proffesiynol, cydweithio ac ymchwil yr oeddent wedi cymryd rhan ynddo. Roedd lleiafrif o uwch arweinwyr yn teimlo bod angen mwy o gefnogaeth, eglurder a chyfeiriad ynghylch asesu a/neu angen mwy o arweiniad neu gefnogaeth yn gyffredinol. Cyfeiriodd lleiafrif at ddiffyg amser ac adnoddau ariannol i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru neu godi pryderon mwy cyffredinol ynglŷn â'r Cwricwlwm i Gymru neu addysg yn ehangach, er enghraifft baich gwaith oedd yn cynyddu.

Lles

Yn gyffredinol, roedd gan uwch arweinwyr ac athrawon agwedd gadarnhaol mewn perthynas â'u lles a'u hamgylchedd gwaith, gan nodi:

- roedd eu hysgol yn lle da i weithio
- roedden nhw'n fodlon â'u swydd
- Roedd eu gwaith fel addysgwr yn ystyrlon
- roedd eu perthynas â dysgwyr yn werth chweil iddynt
- roedd eu perthynas â chydweithwyr yn gefnogol
- gallent fod yn nhw eu hunain gyda chydweithwyr yn y gwaith

Fodd bynnag, roedd tua hanner yr uwch arweinwyr a'r athrawon yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf eu bod yn fodlon â'u cydbwysedd bywyd gwaith.

Roedd gan uwch arweinwyr farn fwy cadarnhaol nag ymarferwyr nad oeddent yn uwch arweinwyr ar eu lles a'u hamgylchedd gwaith, ac eithrio "Rwy'n teimlo y gallaf fod yn fy hun yn y gwaith". Roedd uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu yn fwy tebygol nag uwch arweinwyr oedd â chyfrifoldebau addysgu i gytuno bod eu hysgol yn lle da i weithio. Roedd

uwch arweinwyr ysgolion cynradd yn llai tebygol na'r rhai o ysgolion uwchradd i gytuno bod eu hysgol yn lle da i weithio ac yn llai tebygol o gytuno bod perthnasoedd cydweithwyr yn gefnogol.

Roedd athrawon o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno bod eu hysgol yn lle da i weithio na'r rhai o ysgolion uwchradd, ac roedd y rhai o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o gytuno na'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn fodlon â'u cydbwysedd bywyd gwaith na'r rhai o ysgolion uwchradd, ac roedd y rhai heb gyfrifoldebau cwricwlwm yn fwy tebygol o gytuno na'r rhai â chyfrifoldebau cwricwlwm.^[Troednodyn 9]

Effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm (uwch arweinwyr yn unig)

Gofynnwyd i uwch arweinwyr pa mor hyderus oeddent yn teimlo mewn perthynas â chyfres o agweddau ar effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "ddim yn hyderus o gwbl" i "hyderus ofnadwy". Yn gyffredinol, roedd uwch arweinwyr yn teimlo'n hyderus fel arweinydd yn eu gallu i:

- ddylanwadu ar ymrwymiad eraill i newid cwricwlwm
- ddatblygu dealltwriaeth eraill o sut i ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru
- gefnogi eraill i ddatblygu eu haddysgu a'u dysgu
- ddatrys heriau wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm
- arwain trafodaethau cwricwlwm oedd yn cefnogi gwella'r cwricwlwm
- sicrhau dull strategol fel bod dyheadau'r cwricwlwm yn cael eu cyflawni
- gwella arferion cwricwlwm yn seiliedig ar werthuso cadarn

Roedd uwch arweinwyr yn llai hyderus ynglŷn â'u gallu i gysylltu pobl i gydweithio ar gynllunio cwricwlwm ac asesu, gyda thua hanner yr uwch arweinwyr yn nodi eu hyder mewn perthynas â hyn.

[9] Diffiniwyd cyfrifoldebau'r cwricwlwm yn seiliedig ar y cwestiwn "Oes gennych gyfrifoldeb am arwain agweddau o'r cwricwlwm mewn unrhyw un o'r meysydd canlynol?" gyda'r opsiynau: Cyfrifoldeb cyffredinol am y cwricwlwm, Cyfrifoldeb cyffredinol am gynnydd ac asesu, pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad unigol, cymhwysedd digidol ac eraill.

Roedd uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu yn fwy tebygol nag uwch arweinwyr oedd yn addysgu i fod yn hyderus yn eu gallu i ddylanwadu ar ymrwymiad eraill i newid cwricwlwm a sicrhau dull strategol.

Cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau y bu cydweithio â gwahanol grwpiau wrth gynllunio'r cwricwlwm yn eu hysgol. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Dim cydweithio" i "Llawer iawn o gydweithio".

Nododd mwyafrif helaeth yr uwch arweinwyr fod rhywfaint neu lawer o gydweithio rhwng athrawon yn ogystal â gyda dysgwyr, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr. Nododd mwyafrif yr athrawon bod "rhywfaint" neu "lawer" o gydweithio rhwng athrawon yn ogystal â gyda dysgwyr a llywodraethwyr, gyda thua hanner yr athrawon yn nodi bod "rhywfaint" neu "lawer" o gydweithio â rhieni/gofalwyr.

O ran natur cydweithio, cytunodd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr, a'r mwyafrif o athrawon:

- bod athrawon wedi cymryd rhan weithredol mewn cynnal disgwyliadau uchel i gynyddu cyrhaeddiad dysgwyr
- bod arweinwyr yn eu hysgol yn ystyried cyngor gan athrawon wrth wneud penderfyniadau
- bod athrawon wedi cymryd rhan yn gyson mewn trafodaethau/penderfyniadau am addysgeg
- y darparwyd cyfleoedd i athrawon i ysgogi newidiadau
- bod arweinyddiaeth wedi ei feithrin a'i ddosbarthu ymhlith athrawon
- bod athrawon yn cymryd cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd am gynnydd dysgwyr

Roedd uwch arweinwyr ysgolion cynradd yn llai tebygol nag uwch arweinwyr ysgolion uwchradd i adrodd bod cydweithio rhwng athrawon, gyda sefydliadau/sefydliadau eraill a gyda rhieni/gofalwyr. Roedd uwch arweinwyr ysgolion cynradd hefyd yn llai tebygol nag arweinwyr ysgolion uwchradd i adrodd:

- bod athrawon yn cymryd rhan yn gyson mewn trafodaethau/penderfyniadau am addysgeg
- y darparwyd cyfleoedd i athrawon i ysgogi newidiadau
- bod arweinwyr yn ystyried cyngor athrawon wrth wneud penderfyniadau
- bod arweinyddiaeth wedi ei feithrin a'i ddosbarthu ymhlith athrawon

Roedd athrawon ysgol gynradd yn fwy tebygol nag athrawon ysgol uwchradd i adrodd bod cydweithio wedi digwydd rhwng athrawon, gyda rhieni/gofalwyr a gyda dysgwyr a llywodraethwyr. Roedden nhw hefyd yn fwy tebygol nag ymatebwyr ysgolion uwchradd o adrodd bod athrawon yn cymryd rhan mewn trafodaethau am addysgeg, bod cyfleoedd yn cael eu darparu i athrawon i ysgogi newidiadau, bod athrawon yn rhannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd am gynnydd dysgwyr, bod arweinwyr yn ystyried cyngor gan athrawon a bod arweinyddiaeth yn cael ei feithrin a'i ddosbarthu.

Dealltwriaeth gyffredin o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru

Cytunodd uwch arweinwyr ac athrawon yn gyffredinol fod dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr a'r hyn yr oedd yn ei olygu i gael cwricwlwm cynhwysol yn eu hysgol yn ogystal â sut roedd eu cwricwlwm yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben.

Roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol nag ymarferwyr nad oeddent yn uwch arweinwyr i gytuno bod dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae'n ei olygu i gael cwricwlwm cynhwysol ac o sut mae eu cwricwlwm yn cefnogi datblygiad dysgwyr yn unol â'r pedwar diben. Roedd uwch arweinwyr ysgolion cynradd yn llai tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd i gytuno bod dealltwriaeth gyffredin o sut yr oedd eu cwricwlwm yn cefnogi datblygiad dysgwyr yn unol â'r pedwar diben.

Roedd athrawon o ysgolion cynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd i gytuno eu bod yn deall cynnydd dysgwyr a'u bod yn deall sut roedd eu cwricwlwm yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben. Roedd athrawon o ysgolion oedd â chanran uchel o ddysgwyr oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llai tebygol na'r rhai o ysgolion gyda chanran ganolig o ddysgwyr oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gytuno eu bod yn deall cynnydd dysgwyr a'u bod yn deall beth mae'n ei olygu i gael cwricwlwm cynhwysol

Dysgu proffesiynol a chefnogaeth

Cytunodd mwyafrif y penaethiaid a'r uwch arweinwyr:

- fod ganddynt fynediad at gymorth priodol gan gorff llywodraethu eu hysgol neu bwyllgor rheoli eu UCD
- eu bod wedi bod yn rhan o ddigon o ddysgu proffesiynol i ddiwallu eu hanghenion
- fod ganddynt fynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel

Cytunodd tua hanner y penaethiaid a'r uwch arweinwyr bod:

- y canllawiau, cefnogaeth ac adnoddau ar lefel ysgol yr oeddent wedi'u defnyddio wedi diwallu eu hanghenion
- y gefnogaeth gan bartneriaid cymorth addysg wedi diwallu eu hanghenion
- y dysgu proffesiynol yr oeddent wedi bod yn rhan ohono i gyd wedi bod o ansawdd uchel, yn eu barn nhw
- y canllawiau ehangach (er enghraifft ar Hwb), cymorth ac adnoddau yr oeddent wedi'u defnyddio wedi diwallu eu hanghenion

Roedd penaethiaid nad oedd yn addysgu ac uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol na'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu i gytuno bod y dysgu proffesiynol yr oeddent wedi'i gael i gyd wedi bod o ansawdd uchel. Roedd penaethiaid ac uwch arweinwyr nad oeddent yn addysgu yn fwy tebygol na'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu i gytuno bod canllawiau ar lefel ysgol wedi diwallu eu hanghenion.

Roedd gan athrawon farn fwy cymysg na phenaethiaid ac uwch arweinwyr mewn perthynas â'u boddhad â dysgu a chefnogaeth broffesiynol. Cytunodd tua hanner yr ymatebwyr, gyda lleiafrif yn anghytuno:

- bod ganddynt fynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel
- bod y dysgu proffesiynol yr oeddent wedi bod yn rhan ohono i gyd wedi bod o ansawdd uchel, yn eu barn nhw
- bod y canllawiau, y gefnogaeth a'r adnoddau ar lefel ysgol yr oeddent wedi'u defnyddio wedi diwallu eu hanghenion

- yr roedden nhw wedi bod yn rhan o ddigon o ddysgu proffesiynol i ddiwallu eu hanghenion
- bod y canllawiau ehangach (er enghraifft ar Hwb), y cymorth a'r adnoddau yr oeddent wedi'u defnyddio wedi diwallu eu hanghenion

Cytunodd lleiafrif o athrawon fod cefnogaeth gan bartneriaid cymorth addysg wedi diwallu eu hanghenion.

Roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o gytuno bod ganddynt fynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel a digonol, bod cefnogaeth gan bartneriaid cymorth addysg wedi diwallu eu hanghenion a bod arweiniad, cymorth ac adnoddau ar lefel ysgol ac ehangach wedi diwallu eu hanghenion.

Cymorth yn y system

Roedd gan uwch arweinwyr ac athrawon farn gymysg ynglŷn â'r system addysg ehangach, a sut yr oedd yn cefnogi gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon yn anghytuno bod digon o arian wedi'i ddyrannu i gefnogi gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru. Roedd mwyafrif yr uwch arweinwyr a'r athrawon hefyd yn anghytuno bod digon o amser wedi'i neilltuo i gefnogi gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru.

Roedd barn gymysg ymhlith uwch arweinwyr ynghylch a oedd arweinyddiaeth o safon ar draws y system addysg i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, gydag ymatebwyr wedi'u rhannu'n weddol gyfartal o ran a oeddent yn cytuno, anghytuno neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Cytunodd tua hanner yr uwch arweinwyr:

- bod y system arolygu ysgolion yn addas i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
- bod y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu, Arweinyddiaeth a Chynorthwyo Addysgu yn gefnogol i'r Cwricwlwm i Gymru
- bod digon o wybodaeth ar gael iddynt i alluogi hunanwerthuso effeithiol i gefnogi'r gwaith o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru

Mynegodd mwyafrif yr uwch arweinwyr farn niwtral (ddim yn siŵr, neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno) bod y dull o ddatblygu cymwysterau newydd ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru.

Roedd athrawon yn llai tebygol o fynegi barn gadarnhaol mewn perthynas â chymorth ar lefel y system, gyda lleiafrif o athrawon yn cytuno:

- bod arweinyddiaeth o safon ar draws y system addysg i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
- bod y system arolygu ysgolion yn addas i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
- bod y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu, Arweinyddiaeth a Chynorthwyo Addysgu yn gefnogol i'r Cwricwlwm i Gymru
- bod digon o wybodaeth ar gael iddynt i alluogi hunanwerthuso effeithiol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru

Roedd uwch arweinwyr ac athrawon ysgolion cynradd yn llai tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd i gytuno bod arweinyddiaeth o safon ar draws y system addysg. Roedd athrawon ysgol gynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd i gytuno bod y system arolygu ysgolion yn addas i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Dulliau ysgolion o gynllunio cwricwlwm

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau roedd y dull o gynllunio'r cwricwlwm yn eu hysgol wedi cynnwys cyfres o gamau gweithredu. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Ddim o gwbl" i "Llawer iawn". Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr, a thua hanner yr athrawon, fod cynllunio cwricwlwm yn eu hysgol wedi cynnwys "llawer iawn", neu "cryn dipyn" o:

- rannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws clwstwr neu rwydweithiau lleol eraill
- defnyddio ymchwil addysgol
- dysgu o ymholi proffesiynol

Nododd lleiafrif o uwch arweinwyr ac athrawon fod cynllunio cwricwlwm yn eu hysgol wedi cynnwys rhannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws rhwydweithiau rhanbarthol neu genedlaethol. Nododd lleiafrif bach o uwch arweinwyr ac athrawon fod cynllunio cwricwlwm yn eu hysgol wedi cynnwys partneriaeth â sefydliadau addysg bellach ac uwch.

Roedd uwch arweinwyr ac athrawon ysgolion cynradd yn llai tebygol na'r rhai o ysgolion uwchradd i adrodd bod cynllunio'r cwricwlwm wedi cynnwys dysgu o ymholiadau

proffesiynol a rhannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws clwstwr neu rwydweithiau lleol eraill.

Roedd uwch arweinwyr â chyfrifoldebau cwricwlwm yn llai tebygol o adrodd eu bod yn defnyddio ymchwil addysgol o'i gymharu â'r rhai heb gyfrifoldebau cwricwlwm.^[Troednodyn 10]

Newidiadau i arferion

Roedd uwch arweinwyr ac athrawon yn gyffredinol yn cytuno eu bod nhw, neu athrawon yn eu hysgol (yn achos uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu), wedi gwneud newidiadau sylweddol, lle'n briodol, i wahanol agweddau o'u harfer, yn benodol:

- eu cynllunio (neu ddogfennaeth gynllunio)
- y dulliau addysgu/dysgu a ddefnyddir
- y gweithgareddau addysgu/dysgu a ddefnyddir
- y cynnwys/pynciau/themâu a addysgir
- sut yr oeddent yn diwallu anghenion pob dysgwr unigol er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd ar gyflymder priodol

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr, a thua hanner yr athrawon yn cytuno eu bod wedi gwneud newidiadau sylweddol, lle'n briodol, i'r adnoddau a ddefnyddir mewn addysgu, ffocws asesu dysgwyr a'r dull o asesu dysgwyr, gyda lleiafrif yn anghytuno. Roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol nag ymarferwyr nad oeddent yn uwch arweinwyr o adrodd bod newidiadau sylweddol wedi bod i'r cynnwys, y pynciau neu'r themâu a addysgwyd. Roedd uwch arweinwyr ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i adrodd bod newidiadau sylweddol wedi bod mewn dulliau o asesu dysgwyr.

Roedd athrawon ysgol gynradd yn fwy tebygol nag ymatebwyr ysgolion uwchradd o adrodd eu bod wedi gwneud newidiadau sylweddol i ddulliau a gweithgareddau addysgu neu ddysgu ac i sut roedd anghenion dysgwyr unigol yn cael eu diwallu.

[10] Diffiniwyd cyfrifoldebau'r cwricwlwm yn seiliedig ar y cwestiwn "Oes gennych gyfrifoldeb am arwain agweddau o'r cwricwlwm yn unrhyw un o'r meysydd canlynol?" gyda'r opsiynau: Cyfrifoldeb cyffredinol am y cwricwlwm, cyfrifoldeb cyffredinol am gynnydd ac asesu, pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad unigol, cymhwysedd digidol ac eraill.

Agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith

Yn gyffredinol, roedd uwch arweinwyr ac athrawon yn cytuno bod yr agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru a archwiliwyd yn yr arolwg yn cael eu hadlewyrchu yn eu harfer (neu arferion athrawon yn eu hysgol) a bod arferion yn cefnogi'r sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben.

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon yn cytuno bod eu harferion addysgu (neu arferion addysgu yn eu hysgol ar gyfer uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu), yn adlewyrchu'r pedwar diben, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, yr egwyddorion cynnydd a'r disgrifiadau o ddysgu. Roedd mwyafrif yr uwch arweinwyr a thua hanner yr athrawon yn cytuno bod eu harferion addysgu yn adlewyrchu'r 12 egwyddor addysgegol.

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon yn hyderus bod eu harferion addysgu, neu arfer athrawon yn eu hysgol, yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu pob un o'r sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben.

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd ym mhob un o'r meysydd dysgu a phrofiad yn ogystal ag ystod o sgiliau trawsgwricwlaidd ac agweddau eraill o'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd tua hanner yr uwch arweinwyr a lleiafrif o athrawon yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith.

Roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno bod arferion addysgu yn adlewyrchu'r pedwar diben a bod y cwricwlwm yn cael ei wireddu mewn ffordd oedd yn cefnogi cynnydd mewn ystod o sgiliau trawsgwricwlaidd ac agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru.

Roedd uwch arweinwyr ysgolion cynradd yn llai tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o gytuno bod y cwricwlwm yn cael ei wireddu mewn ffordd oedd yn cefnogi cynnydd mewn ystod o sgiliau trawsgwricwlaidd ac agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru.

Roedd athrawon ysgol gynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd i gytuno bod arferion addysgu yn adlewyrchu'r pedwar diben, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, yr egwyddorion cynnydd a'r disgrifiadau o ddysgu. Roedd athrawon ysgol gynradd hefyd yn fwy tebygol o gytuno bod y cwricwlwm yn cael ei wireddu mewn ffordd oedd yn cefnogi datblygiad dysgwyr mewn nifer o sgiliau trawsgwricwlaidd a meysydd dysgu a phrofiad.

Arferion addysgegol

Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr ac athrawon eu bod yn hyderus bod eu harferion addysgu, neu arfer athrawon yn eu hysgol:

- yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr
- yn defnyddio cymysgedd o ddulliau
- yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol
- yn ennyn diddordeb dysgwyr
- yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
- yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu
- yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
- yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol
- yn annog cydweithio
- yn cynnwys pob dysgwr

Cytunodd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr a'r mwyafrif o athrawon eu bod yn hyderus bod eu harfer addysgu yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu a phrofiad.

Roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol nag ymarferwyr nad oeddent yn uwch arweinwyr gytuno bod arferion yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr ac yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol.

Ac eithrio defnyddio cymysgedd o ddulliau ac adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol, roedd athrawon mewn ysgolion cynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd i adrodd eu bod yn hyderus ym mhob agwedd arall o'u harfer addysgeg.

Cynnydd ac asesu

Roedd uwch arweinwyr ac athrawon yn hyderus yn gyffredinol bod eu harferion asesu, neu arferion asesu athrawon yn eu hysgol, yn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru. Yn benodol, roeddent yn hyderus bod arferion asesu:

- yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol
- yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu
- yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr
- wedi'i ymgorffori o fewn dysgu ac addysgu
- yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd
- yn adeiladu darlun o ddatblygiad dysgwyr
- yn defnyddio ystod eang o ddulliau asesu
- yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn

Roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol nag ymarferwyr nad oeddent yn uwch arweinwyr o fod yn hyderus bod arferion asesu yn helpu dealltwriaeth rhieni/gofalwyr o gynnydd eu plentyn.

Roedd uwch arweinwyr ysgolion cynradd yn llai tebygol nag uwch arweinwyr ysgolion uwchradd i fod yn hyderus bod arferion asesu yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol a'u bod yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn.

Roedd athrawon ysgol gynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o fod yn hyderus bod eu harferion asesu yn cefnogi cynnydd dysgwyr, yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol, yn helpu i adeiladu darlun o ddatblygiad dysgwyr, yn adlewyrchu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ac yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn.

Galluogi dysgu

Yn gyffredinol, mynegodd uwch arweinwyr ac athrawon hyder mewn arferion sy'n ymwneud â galluogi dysgu, gyda'r mwyafrif yn hyderus yn eu gallu, neu yng ngallu athrawon yn eu hysgol, i:

- ddefnyddio arferion sy'n briodol yn ddatblygiadol i gefnogi cynnydd dysgwyr
- ddarparu profiadau dysgu sy'n briodol yn ddatblygiadol i gefnogi cynnydd dysgwyr
- sylwi, dadansoddi ac ymateb i anghenion unigol dysgwyr i gefnogi eu cynnydd

- wneud y defnydd gorau o'r mannau dan do oedd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu

Nododd mwyafrif yr uwch arweinwyr a thua hanner yr athrawon eu bod yn hyderus yn defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel rhan o'u harfer addysgu a dysgu.

Roedd athrawon ysgolion cynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o fod yn hyderus yn eu gallu i ddefnyddio arferion oedd yn briodol yn datblygiadol a darparu profiadau dysgu oedd yn briodol yn ddatblygiadol.

Roedd uwch arweinwyr o UC'Dau ac ysgolion arbennig yn fwy tebygol na'r rhai o ysgolion uwchradd i fod yn hyderus yn eu gallu i ddarparu profiadau dysgu oedd yn ddatblygiadol briodol.

Ymholi proffesiynol

Dywedodd y mwyafrif o uwch arweinwyr a thua hanner yr athrawon eu bod wedi bod yn rhan o ymholiadau proffesiynol, a nododd mwyafrif yr uwch arweinwyr a'r ymarferwyr fod hyn yn cael ei annog "llawer" neu "llawer iawn" yn eu hysgol. Cytunodd uwch arweinwyr ac athrawon a oedd wedi bod yn ymwneud ag ymholi proffesiynol yn gyffredinol ei fod:

- wedi cynnwys cydweithio
- wedi defnyddio mewnwelediadau o ymchwil berthnasol
- wedi archwilio achosion problemau a wynebwyd ganddynt yn eu hymarfer
- wedi arwain at welliannau ystyrlon mewn ymarfer

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr a thua hanner yr athrawon yn cytuno bod ymholi proffesiynol yn cefnogi ymchwil i addasrwydd asesu ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol.

Roedd uwch arweinwyr nad oeddent yn addysgu yn fwy tebygol nag uwch arweinwyr oedd yn addysgu i adrodd bod ymholi proffesiynol yn cael ei annog yn eu hysgol. Roedd uwch arweinwyr ysgolion cynradd yn llai tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o gytuno bod ymholi proffesiynol yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd asesu ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol a bod ymholi proffesiynol yn arwain at welliannau ystyrlon mewn ymarfer

Roedd athrawon ysgol gynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd i gytuno bod ymholi proffesiynol yn arwain at welliannau ystyrion mewn ymarfer.

Roedd athrawon â chyfrifoldebau cwricwlwm yn fwy tebygol na'r rhai heb gyfrifoldebau cwricwlwm i adrodd bod ymholi proffesiynol yn cael ei annog yn eu hysgol.

Roedd arweinwyr canol yn fwy tebygol nag athrawon o gytuno bod ymholi proffesiynol yn cefnogi ymchwil i addasrwydd asesu ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol ac yn defnyddio mewnwelediadau o ymchwil berthnasol.

Cyfraniad i'r cwricwlwm

Cytunodd y mwyafrif o uwch arweinwyr ac athrawon fod eu cyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn eu hysgol:

- yn gwneud iddynt deimlo bod ganddynt ddylanwad
- yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- yn gwneud iddynt deimlo'n frwdfrydig yn eu gwaith
- wedi'i lywio gan eu profiadau eu hunain yn y gorffennol
- yn cael ei gefnogi gan berthnasoedd gwaith cadarnhaol

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr a thua hanner yr athrawon yn cytuno bod eu cyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn eu hysgol yn cael ei gefnogi gan ansawdd yr amgylchedd ffisegol y maent yn gweithio ynddo.

Roedd uwch arweinwyr ysgolion cynradd yn llai tebygol na'r rhai o ysgolion uwchradd i gytuno bod eu cyfraniad yn gwneud iddynt deimlo bod ganddynt ddylanwad, yn gwneud iddynt deimlo yn frwdfrydig yn eu gwaith ac yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi

Roedd athrawon ysgol gynradd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o gytuno bod eu cyfraniadau yn cael eu cefnogi gan berthnasoedd gwaith cadarnhaol ac ansawdd yr amgylchedd gwaith ffisegol

Hyder y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd

Mynegodd uwch arweinwyr ac athrawon hyder yn gyffredinol y byddai eu cwricwlwm ysgol yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd, gyda'r mwyafrif yn cytuno y byddai'n:

- cefnogi eu dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben
- cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u man cychwyn
- cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol
- galluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i wneud cynnydd mor llawn â'u cyfoedion

Roedd y mwyafrif o uwch arweinwyr a thua hanner yr athrawon yn hyderus yn y cwricwlwm newydd o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol, yn benodol eu bod yn hyderus y byddai cwricwlwm eu hysgol yn:

- diwallu anghenion pob dysgwr yn well
- arwain at well cynnydd dysgwyr
- helpu dysgwyr i gyrraedd eu llawn botensial
- gwella lefelau cyrhaeddiad cyffredinol dysgwyr

Roedd uwch arweinwyr o ysgolion oedd â chanran uchel o ddysgwyr oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol na'r rhai o ysgolion oedd â chanran ganolig o ddysgwyr oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gytuno eu bod yn hyderus y byddai'r cwricwlwm ysgol yn galluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i wneud cynnydd mor llawn â'u cyfoedion.

Roedd athrawon o ysgolion cynradd ac arbennig ac UC'Dau yn fwy tebygol na'r rhai o ysgolion uwchradd o fod yn hyderus y byddai'r cwricwlwm yn:

- cefnogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben
- cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd waeth beth fo'u mannau cychwyn neu amgylchiadau unigol
- galluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i wneud cynnydd
- diwallu anghenion pob dysgwr yn well

- arwain at well cynnydd dysgwyr
- helpu dysgwyr i gyrraedd eu llawn botensial
- gwella lefelau cyffredinol cyrhaeddiad dysgwyr

Heriau a chefnogaeth yn y dyfodol

Mewn ymateb i gwestiynau testun agored dewisol, adroddodd uwch arweinwyr ac athrawon mai'r agweddau yr oeddent yn eu gweld fwyaf heriol wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru oedd:

- diffyg amser, cyllid ac adnoddau i gydweithio a rhyddhau staff ar gyfer dysgu proffesiynol
- diffyg eglurder mewn perthynas ag asesu a chynnydd
- diffyg enghreifftiau ymarferol da o gynllunio a gwireddu'r cwricwlwm

Cododd uwch arweinwyr bryderon mwy cyffredinol hefyd ynglŷn â'r Cwricwlwm i Gymru (er enghraifft, ei fod yn rhy amwys) neu addysg yn ehangach (er enghraifft, yn ymwneud â baich gwaith).

Adroddodd uwch arweinwyr fod angen cymorth pellach arnynt i'w helpu gyda rhai agweddau ar wireddu'r cwricwlwm:

- canllawiau cliriach yn ymwneud ag asesu a/neu fonitro cynnydd dysgwyr
- amser ac adnoddau ariannol i'w galluogi i dreulio mwy o amser ar ddatblygu'r cwricwlwm a chymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ar y cyd neu ddysgu proffesiynol
- rhagor, neu well, canllawiau yn ymwneud â'r cwricwlwm, asesu a chynnydd

Adroddodd uwch arweinwyr ac athrawon, pe bai cydweithiwr yn gofyn iddynt beth oeddent yn ei hoffi fwyaf ynglŷn â'r Cwricwlwm i Gymru, y byddent yn dweud:

- eu bod yn hoffi'r hyblygrwydd a'r rhyddid i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain i weddu i anghenion eu dysgwyr
- eu bod yn teimlo bod y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei arwain yn fwy gan ddysgwyr a'i fod yn fwy perthnasol i fywyd go iawn, gan gefnogi ymgysylltiad dysgwyr

- eu bod yn hoffi agweddau allweddol y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft y pedwar diben, creu cysylltiadau rhwng ac ar draws meysydd dysgu a phrofiad
- eu bod yn teimlo bod y Cwricwlwm i Gymru o fudd i'w dysgwyr o ran eu cyfranogiad yn y cwricwlwm – gan gyfrannu atynt yn bod yn fwy creadigol ac annibynnol, gan ddarparu cyd-destunau ar gyfer dysgu, mwy o ffocws ar les a mwynhad dysgwyr o ddysgu

Tueddiadau cyffredinol yn ymatebion uwch arweinwyr ac athrawon

Mae crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn ôl nifer o newidynnau ar lefel unigolyn ac ysgol wedi'i nodi isod. Roedd mwy o wahaniaethau nodedig yn ôl rôl a rhwng ymatebion uwch arweinwyr ac athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd na gwahaniaethau oedd yn gysylltiedig â newidynnau eraill.

Rôl

Yn gyffredinol, roedd gan uwch arweinwyr farn fwy cadarnhaol nag ymarferwyr nad oedd yn uwch arweinwyr ar draws sawl thema yn yr arolwg. Yn benodol, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o nodi:

- eu bod yn wybodus am, a chanddynt ddealltwriaeth o rai agweddau ar newid cwricwlwm
- safbwyntiau cadarnhaol mewn perthynas â sawl agwedd ar eu lles a'u hamgylcheddau gwaith
- cytundeb bod dealltwriaeth gyffredin o rai agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgol
- eu bod wedi ymwneud â sawl agwedd ar gydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm
- bod llawer o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu hadlewyrchu yn eu harferion addysgu (neu arferion athrawon yn eu hysgol)
- bod y cwricwlwm yn cael ei wireddu mewn ffordd oedd yn cefnogi cynnydd mewn rhai agweddau penodol ar y cwricwlwm
- bod ymholi proffesiynol yn cael ei annog yn eu hysgol a bod hyn yn fuddiol mewn sawl ffordd

Roedd uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu yn fwy tebygol nag uwch arweinwyr oedd yn addysgu i nodi eu bod yn wybodus am rai agweddau ar newid cwricwlwm ac yn fwy tebygol o fynegi hyder mewn rhai agweddau ar eu gallu i arwain cwricwlwm.

Yn gyffredinol, roedd uwch arweinwyr â chyfrifoldebau cwricwlwm yn fwy tebygol na'r rhai heb gyfrifoldebau cwricwlwm i fynegi barn gadarnhaol ar draws sawl thema arolwg.^{[Troednodyn}

^{11]} Yn benodol, roeddent yn fwy tebygol o fynegi hyder mewn rhai agweddau ar eu gallu i arwain cwricwlwm ac roeddent yn fwy tebygol o fod wedi bod yn rhan o rai agweddau ar gydweithio wrth gynllunio cwricwlwm. Daeth darlun mwy cymysg i'r amlwg ymhlith athrawon; roedd y rhai â chyfrifoldebau cwricwlwm yn fwy tebygol o fynegi barn gadarnhaol mewn perthynas â rhai themâu arolwg a safbwyntiau llai cadarnhaol mewn perthynas ag eraill.

Daeth darlun cymysg i'r amlwg wrth gymharu ymatebion arweinwyr canol ac athrawon. Roedd arweinwyr canol a adroddodd eu bod yn aelodau o uwch dîm arweinyddiaeth eu hysgol yn tueddu i ymateb yn llai cadarnhaol nag athrawon a oedd yn aelodau o'u uwch dîm arweinyddiaeth. Fodd bynnag, ymhlith y rhai nad oeddent yn rhan o uwch dîm arweinyddiaeth eu hysgol, ymatebodd arweinwyr canol yn fwy cadarnhaol nag athrawon ar draws y rhan fwyaf o themâu arolwg.

Ysgolion cynradd ac uwchradd

Yn gyffredinol, roedd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion uwchradd safbwyntiau mwy cadarnhaol na'r rhai mewn ysgolion cynradd mewn perthynas â sawl thema. Yn benodol, roeddent yn fwy tebygol o nodi:

- safbwyntiau mwy cadarnhaol mewn perthynas â sawl agwedd ar eu lles a'u hamgylcheddau gwaith
- mwy o gyfranogiad mewn sawl math o gydweithio ar gynllunio cwricwlwm, gan gynnwys cydweithio ag athrawon a rhieni a gofalwyr
- bod llawer o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu hadlewyrchu yn eu harfer addysgu (neu athrawon yn eu hysgol)

¹¹ Diffiniwyd cyfrifoldebau'r cwricwlwm yn seiliedig ar y cwestiwn "Oes gennych gyfrifoldeb am arwain agweddau o'r cwricwlwm yn unrhyw un o'r meysydd canlynol?" gyda'r opsiynau: Cyfrifoldeb cyffredinol am y cwricwlwm, Cyfrifoldeb cyffredinol am y cwricwlwm, pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad unigol, cymhwysedd digidol ac eraill.

- bod y cwricwlwm yn cael ei wireddu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn rhai agweddau penodol ar y cwricwlwm
- eu bod yn teimlo bod eu cyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn eu hysgol yn gadarnhaol mewn rhai ffyrdd

I'r gwrthwyneb, ymatebodd athrawon mewn ysgolion cynradd yn fwy cadarnhaol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd mewn perthynas â'r rhan fwyaf o themâu'r arolwg. Yn benodol, roeddent yn fwy tebygol o nodi:

- eu hymrwymiad i sawl agwedd ar newid cwricwlwm
- eu gwybodaeth am sawl agwedd ar newid cwricwlwm
- safbwyntiau mwy cadarnhaol mewn perthynas â sawl agwedd ar eu lles a'u hamgylcheddau gwaith
- mwy o gyfranogiad mewn sawl math o gydweithio ar gynllunio cwricwlwm, gan gynnwys cydweithio ag athrawon a rhieni a gofalwyr
- cytundeb bod dealltwriaeth gyffredin o rai agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgol
- safbwyntiau cadarnhaol ar y dysgu proffesiynol a'r cymorth a oedd ar gael iddynt yn y system addysg
- eu bod wedi gwneud newidiadau sylweddol i sawl agwedd ar eu hymarfer
- bod llawer o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu hadlewyrchu yn eu harfer addysgu
- hyder bod llawer o arferion addysgu yn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru
- hyder bod llawer o arferion asesu yn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru
- hyder bod y cwricwlwm yn cael ei wireddu mewn ffordd a oedd yn cefnogi cynnydd mewn llawer o agweddau penodol ar y cwricwlwm
- hyder mewn arferion oedd ymwneud â sawl agwedd ar alluogi dysgu
- bod ymholi proffesiynol yn cael ei annog yn eu hysgol a bod hyn yn fuddiol mewn sawl ffordd
- eu bod yn teimlo bod eu cyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn eu hysgol yn gadarnhaol mewn rhai ffyrdd

Cyfrwng iaith yr ysgol

O'i gymharu â'r gwahaniaethau yn ôl sector, roedd llai o wahaniaethau yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol. Mynegodd uwch arweinwyr rhwng mewn ysgolion cyfrwng Saesneg farn fwy cadarnhaol na'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ymateb i un neu ddau o'r cwestiynau mewn perthynas â sawl thema. Yn benodol, roeddent yn fwy tebygol o nodi:

- eu gwybodaeth am rai agweddau ar newid cwricwlwm neu eu dealltwriaeth o rai agweddau
- eu hyder mewn rhai agweddau ar eu gwybodaeth addysgegol
- bod eu gwaith fel addysgwr yn ystyrlon
- bod dyluniad y cwricwlwm yn cynnwys dysgu o ymholiadau proffesiynol a phartneriaeth â Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch
- bod newidiadau sylweddol wedi bod i ddulliau asesu dysgwyr
- bod arferion addysgu yn cefnogi datblygiad dysgwyr o ran eu heffeithiolrwydd personol a'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol

I'r gwrthwyneb, ychydig o wahaniaethau nodedig oedd rhwng ymatebion athrawon o ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg. Roedd athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o gytuno bod eu hysgol yn lle da i weithio ac i nodi eu bod yn ymwneud â dysgwyr, yn ogystal â UC Dau neu ddarparwyr EOTAS eraill ar gynllunio cwricwlwm.

Blynyddoedd o brofiad mewn addysg ac mewn rolau arwain

Yn gyffredinol, roedd gan uwch arweinwyr â mwy o flynyddoedd o brofiad o weithio ym maes addysg farn fwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn llai profiadol. Roedd uwch arweinwyr gyda 31 mlynedd neu fwy o brofiad mewn addysg yn fwy tebygol na'r rhai oedd â 30 mlynedd neu lai o brofiad i fynegi barn gadarnhaol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o themâu'r arolwg. Yn benodol, roedd y rhai â 31 mlynedd neu fwy o brofiad yn fwy tebygol na'r rhai â llai o brofiad i:

- adrodd bod ganddynt ddealltwriaeth o rai agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru
- adrodd agwedd fwy cadarnhaol mewn perthynas â rhai agweddau ar eu lles a'u hamgylcheddau gwaith
- bod yn hyderus yn rhai o'u galluoedd arwain cwricwlwm eu hunain
- mynegi hyder bod llawer o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru wedi'u hymgorffori mewn arferion addysgu

- fod yn hyderus bod llawer o arferion addysgegol yn eu hysgol yn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru
- adrodd bod rhai mathau o gydweithio yn digwydd
- adrodd bod ymholi proffesiynol wedi'i annog a'i fod yn fuddiol mewn rhai ffyrdd

Roedd penaethiaid ac uwch arweinwyr oedd â 31 neu fwy o flynyddoedd o brofiad mewn addysg yn fwy tebygol na'r rhai oedd â 11 i 30 mlynedd o brofiad o gael barn gadarnhaol ar y rhan fwyaf o agweddau ar ddysgu proffesiynol. Roedd uwch arweinwyr â 11-30 mlynedd o brofiad hefyd yn gyffredinol yn fwy tebygol na'r rhai oedd â 3-10 mlynedd o brofiad i fynegi barn gadarnhaol mewn perthynas â sawl thema arolwg.

Yn wahanol i uwch arweinwyr, roedd gan athrawon â llai o flynyddoedd o brofiad o weithio ym maes addysg farn fwy cadarnhaol nag athrawon mwy profiadol. Roedd athrawon â 3-5 mlynedd o brofiad mewn addysg yn fwy tebygol na'r rhai â 6 mlynedd neu fwy o brofiad i:

- adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn gallu gweithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm
- mynegi hyder bod llawer o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru wedi'u hymgorffori mewn arferion addysgu (y rhai oedd â 31 mlynedd neu fwy o brofiad oedd lleiaf tebygol o fynegi hyder ynglŷn â hyn)
- mynegi hyder yn eu gwybodaeth addysgegol

Mynegodd athrawon â llai na 3 blynedd o brofiad mewn addysg ac, i raddau llai, y rhai oedd â 3-5 mlynedd o brofiad, farn fwy cadarnhaol na'r rhai oedd â 6 blynedd neu fwy o brofiad mewn perthynas â rhai o themâu'r arolwg, yn benodol:

- eu cyfranogiad mewn sawl math o gydweithio
- eu barn ar rai agweddau ar y cymorth ar lefel y system a oedd ar gael iddynt
- roedden nhw'n fwy tebygol o adrodd eu bod wedi gwneud newidiadau sylweddol i sawl agwedd ar eu hymarfer
- eu barn ar rai agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm yn eu hysgol, yn ogystal â'u cyfraniad eu hunain at hyn
- safbwyntiau mwy cadarnhaol mewn perthynas â sawl agwedd ar eu lles a'u hamgylcheddau gwaith

Roedd gan athrawon â 6-10 mlynedd o brofiad mewn addysg farn llai cadarnhaol nag eraill mewn ymateb i rai o themâu'r arolwg gan gynnwys cynnydd ac asesu a'u cyfraniad eu hunain at gynllunio'r cwricwlwm yn eu hysgol.

Nid oedd patrwm cyson yn yr ymatebion gan uwch arweinwyr yn ôl y nifer o flynyddoedd yr oeddent wedi bod yn eu rôl arweinyddiaeth. Yn gyffredinol, roedd y rhai â llai o flynyddoedd o brofiad arweinyddiaeth yn fwy tebygol na'r rhai â mwy o brofiad i fynegi hyder mewn rhai agweddau ar eu gwybodaeth addysgegol ac i fynegi barn gadarnhaol am rai agweddau ar ddysgu proffesiynol. Mynegodd y rhai oedd â mwy o brofiad arweinyddiaeth farn fwy cadarnhaol mewn perthynas â themâu eraill.

Rhanbarth

Nid oedd patrwm cyson yn yr ymatebion yn ôl y rhanbarth lle'r roedd uwch arweinwyr ac athrawon yn gweithio:

- Yn gyffredinol, roedd uwch arweinwyr yn rhanbarth y de-ddwyrain a chanol y de yn fwy tebygol na'r rhai yn rhanbarthau'r gogledd a'r canolbarth a'r gorllewin i fynegi hyder yn eu harweinyddiaeth cwricwlwm eu hunain, i fynegi barn gadarnhaol ar y cymorth oedd ar gael yn y system addysg, ac i nodi eu bod wedi bod yn rhan o gydweithio
- Roedd uwch arweinwyr yn y de-ddwyrain yn fwy tebygol na:
 - y rhai mewn rhanbarthau eraill i fynegi barn gadarnhaol mewn perthynas â dysgu a chymorth proffesiynol
 - y rhai yn rhanbarthau'r Gogledd a Chanolbarth a'r Gorllewin i fynegi barn gadarnhaol mewn perthynas â'u lles a'u hamgylchedd gwaith eu hunain, i fynegi hyder bod llawer o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu hadlewyrchu mewn arferion addysgu a bod arfer addysgegol yn adlewyrchu agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru
- Roedd uwch arweinwyr yn rhanbarth y de-ddwyrain yn fwy tebygol na'r rhai yn y gogledd o gytuno bod dealltwriaeth gyffredin o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgol
- Roedd athrawon yn rhanbarth y canolbarth a gorllewin yn fwy tebygol na'r rhai yn rhanbarthau'r gogledd a chanol y de o adrodd eu bod wedi ymgymryd â rhai mathau

o gydweithio, ac roeddent hefyd yn fwy tebygol na'r rhai yn y gogledd o adrodd eu bod yn ymwneud â rhai agweddau ar ymholi proffesiynol

- Roedd athrawon yn rhanbarth y de-ddwyrain yn llai tebygol na rhanbarthau eraill o adrodd bod llawer o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu hadlewyrchu mewn arferion addysgu
- Roedd athrawon yn rhanbarthau'r canolbarth a'r gorllewin a chanol y de yn fwy tebygol na'r rhai yn rhanbarthau'r gogledd a'r de-ddwyrain o adrodd bod arferion addysgegol yn adlewyrchu rhai agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru
- Mynegodd athrawon yn rhanbarth canol y de fwy o hyder mewn rhai agweddau ar eu gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm o'i gymharu ag athrawon yn rhanbarth canolbarth a'r gorllewin

Canran y dysgwyr ag ADY yn ysgolion yr ymatebwyr

Nid oedd patrwm cyson yn yr ymatebion yn ôl canran y dysgwyr ag ADY yn ysgolion yr ymatebwyr. Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion oedd â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY yn fwy tebygol na:

- y rhai mewn ysgolion oedd â chanran ganolog neu isel o ddysgwyr ag ADY i fynegi hyder bod y cwricwlwm yn cael ei wireddu mewn ffordd oedd yn cefnogi cynnydd mewn rhai agweddau penodol o'r Cwricwlwm i Gymru
- y rhai mewn ysgolion oedd â chanran isel o ddysgwyr ag ADY i adrodd bod rhai agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru wedi'u hymgorffori mewn arferion addysgu yn eu hysgol

Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion gyda chanran ganolog o ddysgwyr ag ADY yn fwy tebygol na:

- y rhai mewn ysgolion oedd â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY i adrodd bod rhai agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru wedi'u hymgorffori mewn arferion addysgu
- y rhai mewn ysgolion oedd â chanran isel o ddysgwyr ag ADY i fynegi hyder yn rhai o'u galluoedd arwain cwricwlwm
- y rhai mewn ysgolion oedd â chanran isel o ddysgwyr ag ADY i adrodd eu bod yn ymwneud â rhai mathau o gydweithio ar gynllunio cwricwlwm

Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion â chanran isel o ddysgwyr ag ADY yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion gyda chanran uchel o ddysgwyr ag ADY i adrodd bod arferion addysgegol yn eu hysgol yn adlewyrchu rhai agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru.

Roedd athrawon mewn ysgolion gyda chanran isel o ddysgwyr ag ADY yn fwy tebygol na:

- y rhai mewn ysgolion oedd â chanran ganolog o ddysgwyr ag ADY i adrodd eu bod yn ymwneud â rhai mathau o gydweithio ar gynllunio cwricwlwm
- y rhai mewn ysgolion oedd â chanran uchel o ddysgwyr ag ADY i fynegi barn gadarnhaol ar rai agweddau ar ddysgu proffesiynol ac arferion cynnydd ac asesu
- y rhai mewn ysgolion oedd â chanran ganolog neu uchel o ddysgwyr ag ADY i adrodd bod rhai agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru wedi'u hymgorffori mewn arferion addysgu yn eu hysgol

Canran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ysgolion yr ymatebwyr

Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion gyda chanran uchel o ddysgwyr oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion gyda chanran ganolog o ddysgwyr oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim i:

- adrodd bod sawl agwedd o'r Cwricwlwm i Gymru wedi'u hymgorffori mewn arferion addysgu yn eu hysgol
- bod yn hyderus bod y cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn rhai agweddau penodol ar y Cwricwlwm i Gymru
- adrodd bod dealltwriaeth gyffredin o rai agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ymhlith staff yn eu hysgol

Roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion oedd â chanran uchel o ddysgwyr oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim hefyd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion â chanran isel neu ganolog o ddysgwyr oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o fynegi hyder bod rhai o'u harferion addysgegol yn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru ac i fynegi safbwyntiau cadarnhaol ar eu cyfraniad eu hunain i'r cwricwlwm yn eu hysgol.

I'r gwrthwyneb, roedd cymharol ychydig o wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion athrawon yn ôl canran y dysgwyr oedd gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn eu hysgol

ac, lle roedd gwahaniaethau yn bresennol, nid oedd patrwm cyson yn yr ymatebion yn ôl canran y dysgwyr oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ysgolion athrawon.

Canran y dysgwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ysgolion yr ymatebwyr

Yn gyffredinol, ymatebodd uwch arweinwyr o ysgolion oedd â chanran uchel neu ganolig o ddysgwyr lleiafrifol ethnig yn fwy cadarnhaol i'r rhan fwyaf o gwestiynau'r arolwg na'r rhai mewn ysgolion oedd â chanran isel o ddysgwyr lleiafrifol ethnig. Yn benodol, roedd uwch arweinwyr o ysgolion gyda chanran ganolig neu uchel o ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol na'r rhai oedd â chanran isel o ddysgwyr lleiafrifol ethnig i:

- adrodd bod sawl agwedd o'r Cwricwlwm i Gymru wedi'u hymgorffori mewn arferion addysgu yn eu hysgol
- mynegi hyder bod y cwricwlwm yn cael ei wireddu mewn ffordd oedd yn cefnogi cynnydd mewn rhai agweddau penodol o'r Cwricwlwm i Gymru

Roedd uwch arweinwyr o ysgolion gyda chanran ganolig o ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig hefyd yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion gyda chanran isel o ddysgwyr lleiafrifol ethnig i fynegi hyder mewn rhai agweddau ar eu galluoedd arwain cwricwlwm eu hunain.

I'r gwrthwyneb, roedd athrawon o ysgolion â chanran isel o ddysgwyr lleiafrifol ethnig yn fwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion gyda chanran uchel o ddysgwyr lleiafrifol ethnig i adrodd bod rhai agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru wedi'u hymgorffori mewn arferion addysgu yn eu hysgol ac i fynegi hyder bod y cwricwlwm yn cael ei wireddu mewn ffordd oedd yn cefnogi cynnydd mewn rhai agweddau penodol o'r Cwricwlwm i Gymru.

Rhan A: Canfyddiadau'r arolwg uwch arweinwyr

6. Ymrwymiad i newid cwricwlwm (uwch arweinwyr)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u hymrwymiad i newid cwricwlwm. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "cytuno'n gryf" i "anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Rwy'n barod i wneud newidiadau i'm harferion proffesiynol i wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru"
- "Rwyf bob amser yn hyrwyddo'r Cwricwlwm i Gymru wrth siarad â chydweithwyr"
- "Rwy'n ystyried bod y Cwricwlwm i Gymru yn llawer gwell na'r cwricwlwm blaenorol"

Yna cynigiwyd cyfle i ymatebwyr ehangu ar eu hymateb mewn blwch testun agored.

Crynodeb o'r canfyddiadau: ymrwymiad i newid cwricwlwm (uwch arweinwyr)

Cytunodd uwch arweinwyr yn gyffredinol â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi eu hymrwymiad i newid cwricwlwm. Ar gyfer dau o'r tri datganiad, roedd y mwyafrif (dros 58%) o uwch arweinwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl ddatganiadau, roedd y lefel uchaf o anghytundeb (17%) mewn perthynas ag a oedd uwch arweinwyr yn ystyried bod y Cwricwlwm i Gymru yn llawer gwell na'r cwricwlwm blaenorol.

Canfyddiadau: ymrwymiad i newid cwricwlwm (uwch arweinwyr)

Pob uwch arweinydd

Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Rwy'n barod i wneud newidiadau i'm hymarfer proffesiynol i wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru" (94% yn cytuno, 2% yn anghytuno)

Nododd mwyafrif yr uwch arweinwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:


- "Rwyf bob amser yn hyrwyddo'r Cwricwlwm i Gymru wrth siarad â chydweithwyr" (77% yn cytuno, 9% yn anghytuno)

Nododd tua hanner yr uwch arweinwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Rwy'n ystyried bod y Cwricwlwm i Gymru yn llawer gwell na'r cwricwlwm blaenorol" (55% yn cytuno, 18% yn anghytuno)

Ffigur 1: Ymrwymiad i newid cwricwlwm

Ymatebion uwch arweinwyr i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?



Ymatebion testun agored: ymrwymiad i newid cwricwlwm (uwch arweinwyr)

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd yn...", ac yna rhestr o sgiliau trawsgwricwlaidd ac elfennau gorfodol. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn hyderus bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:

- "Saesneg"
- "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg"
- "Cymraeg"
- "Cymhwysedd Digidol"
- "Llythrennedd"
- "Rhifedd"

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd yn...", ac yna pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr

[21] Nododd nodyn gwybodaeth wrth ymyl yr opsiwn hwn "e.e. bod yn chwilfrydig; cynhyrchu syniadau; cysylltu profiadau, gwybodaeth a sgiliau gwahanol; nodi cyfleoedd"

[22] Nododd nodyn gwybodaeth wrth ymyl yr opsiwn hwn "e.e. gallu gofyn cwestiynau ystyrlon, gwerthuso gwybodaeth, tystiolaeth a sefyllfaoedd, dadansoddi a chyfiawnhau atebion posibl, cydnabod materion a phroblemau posibl. Dod yn wrthrychol yn eu penderfyniadau, adnabod a datblygu dadleuon."

[23] Nododd nodyn gwybodaeth wrth ymyl yr opsiwn hwn "e.e. deallusrwydd emosiynol, ymwybyddiaeth, annibyniaeth, cyfleoedd i arwain dadl a thrafodaethau, ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol, diwylliannol a moesegol a'r gallu i werthuso eu dysgu."

[24] Nododd nodyn gwybodaeth wrth ymyl yr opsiwn hwn "e.e. gallu gosod nodau, gwneud penderfyniadau a monitro canlyniadau interim; myfyrio ac addasu, yn ogystal â rheoli amser, pobl ac adnoddau; gwirio am gywirdeb a chreu gwahanol fathau o werth."

oeddent yn cytuno eu bod yn hyderus bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:

- "Celfyddydau Mynegiannol"
- "Iechyd a Lles"
- "Dyniaethau"
- "Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu"
- "Mathemateg a Rhifedd"
- "Gwyddoniaeth a Thechnoleg"

Yn olaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd yn...", ac yna pob un o'r themâu trawsbynciol Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn hyderus bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:

- "Gyrfaedd a Phrofiadau sy'n gysylltiedig â Gwaith"
- "Amrywiaeth"
- "Addysg Hawliau Dynol"
- "Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol"
- "Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb"

Crynodeb o'r canfyddiadau: agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith (uwch arweinwyr)

Cytunodd uwch arweinwyr yn gyffredinol â'r datganiadau ynghylch agweddau ar Cwricwlwm i Gymru yn cael eu hadlewyrchu yn eu harfer (neu athrawon yn eu hysgol) ac yn yr un modd ar gyfer y datganiadau ar arferion sy'n cefnogi sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben. Ar gyfer pob datganiad, roedd y mwyafrif (dros 58%) o uwch arweinwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf. Roedd uwch arweinwyr hefyd yn cytuno yn gyffredinol bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei wireddu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr mewn meysydd ac

agweddau unigol ar y cwricwlwm, gyda'r mwyafrif yn cytuno ar gyfer pob un ag eithrio un o'r datganiadau hyn.

O'r holl ddatganiadau ar adlewyrchu agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru yn harfer, roedd y lefelau uchaf o anghytundeb mewn perthynas ag egwyddorion cynnydd, gyda 7% o uwch arweinwyr oedd yn addysgu a 9% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu yn anghytuno. Ar gyfer y datganiadau ar arferion sy'n cefnogi datblygiad dysgwyr, y datganiad ar greadigrwydd ac arloesi oedd â'r lefelau uchaf o anghytundeb gan uwch arweinwyr oedd yn addysgu a'r datganiad ar feddwl yn feirniadol oedd â'r lefelau uchaf o anghytundeb ar gyfer uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu. Ar gyfer pob un o'r meysydd cwricwlwm yr ymdriniwyd â nhw, y datganiad ar yrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith oedd â'r lefel uchaf o anghytuno, gyda 20% o uwch arweinwyr yn anghytuno.

Canfyddiadau: agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith (uwch arweinwyr)

Uwch arweinwyr oedd yn addysgu

Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr oedd yn addysgu eu bod yn cytuno bod eu harfer addysgu yn adlewyrchu'r agweddau canlynol ar y cwricwlwm:


- "Y pedwar diben" (88% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig" (86% yn cytuno, 3% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr oedd yn addysgu eu bod yn cytuno bod eu harfer addysgu yn adlewyrchu'r agweddau canlynol ar y cwricwlwm:

- "Y disgrifiadau dysgu" (82% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "Y 12 egwyddor addysgeg" (81% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "Yr egwyddorion cynnydd" (74% yn cytuno, 8% yn anghytuno)

Ffigur 16. Agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith

Ymatebion uwch arweinwyr oedd yn addysgu i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod fy ymarfer addysgu yn adlewyrchu'r elfennau canlynol o'r cwricwlwm:"



Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr oedd yn addysgu eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus bod eu harfer addysgu yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau canlynol:


- "Meddwl yn feirniadol a datrys problemau" (85% yn cytuno, 4% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr oedd yn addysgu eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus bod eu harfer addysgu yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau canlynol:

- "Creadigrwydd ac arloesedd" (84% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "Effeithiolrwydd personol" (81% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "Cynllunio a threfnu" (78% yn cytuno, 4% yn anghytuno)

Ffigur 17. Cefnogi sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben

Ymatebion i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod fy ymarfer addysgu yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau canlynol:"



Uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu

Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu eu bod yn cytuno bod arferion addysgu yn eu hysgol yn adlewyrchu'r agweddau canlynol ar y cwricwlwm:


- "Y pedwar diben" (89% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig" (cytunodd 89%, anghytunodd 3%)
- "Y disgrifiadau dysgu" (85% yn cytuno, 3% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu eu bod yn cytuno bod arferion addysgu yn eu hysgol yn adlewyrchu'r agweddau canlynol ar y cwricwlwm:

- "Y 12 egwyddor addysgeg" (79% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "Yr egwyddorion cynnydd" (71% yn cytuno, 8% yn anghytuno)

Ffigur 18. Agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith

Ymatebion uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu i'r cwestiwn: "Mae ymarfer addysgu yn fy ysgol yn adlewyrchu elfennau canlynol y cwricwlwm:"



Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu eu bod yn gytuno eu bod yn hyderus bod arferion addysgu yn eu hysgol yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau canlynol:


- "Meddwl yn feirniadol a datrys problemau" (89% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "Creadigrwydd ac arloesedd" (85% yn cytuno, 5% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu eu bod yn gyntuno eu bod yn hyderus bod arferion addysgu yn eu hysgol yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau canlynol:

- "Effeithiolrwydd personol" (80% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "Cynllunio a threfnu" (75% yn cytuno, 4% yn anghytuno)

Ffigur 19. Cefnogi sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben

Ymatebion i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau canlynol..."



Pob uwch arweinydd

Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr eu bod yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd yn:


- "Saesneg" (91% yn cytuno, 2% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr eu bod yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:

- "Cymraeg" (85% yn cytuno, 4% yn anghytuno, o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg roedd 91% yn cytuno a 2% yn anghytuno ac o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg 84% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg" (69% yn cytuno, 9% yn anghytuno)

Ffigur 20. Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru A

Ymatebion i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd yn..."




Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr eu bod yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:

- "Llythrennedd" (94% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "Rhifedd" (92% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "Cymhwysedd Digidol" (85% yn cytuno, 3% yn anghytuno)

Ffigur 21. Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru B

Ymatebion i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd yn..."



Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr eu bod yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:


- "Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu" (94% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "Mathemateg a Rhifedd" (94% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "Iechyd a Lles" (88% yn cytuno, 3% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr eu bod yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:

- "Dyniaethau" (83% yn cytuno, 6% yn anghytuno)
- "Gwyddoniaeth a Thechnoleg" (80% yn cytuno, 6% yn anghytuno)
- "Celfyddydau Mynegiannol" (75% yn cytuno, 8% yn anghytuno)

Ffigur 22. Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru C

Ymatebion i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd yn..."




Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr eu bod yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:

- "Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol" (79% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb" (79% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "Amrywiaeth" (77% yn cytuno, 6% yn anghytuno)
- "Addysg Hawliau Dynol" (74% yn cytuno, 6% yn anghytuno)

Nododd tua hanner yr uwch arweinwyr eu bod yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn perthynas â "Gyrfaedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith" (43% yn cytuno, 20% yn anghytuno)

Ffigur 23. Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru D

Ymatebion i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd yn..."



19. Arferion addysgegol (uwch arweinwyr)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â datganiadau sy'n ymwneud â'u harfer addysgegol, neu arferion addysgegol athrawon yn eu hysgol (gweler pennod 3 am wybodaeth am yr amrywiadau cwestiynau a gyflwynwyd i uwch arweinwyr oedd yn addysgu a'r rhai nad oedd yn addysgu). Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i uwch arweinwyr oedd yn addysgu i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad " Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer..."

- "yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr"
- "yn defnyddio cyfuniad o ddulliau"
- "yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol"
- "yn ennyn diddordeb dysgwr"
- "yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu"
- "yn annog dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu"
- "yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu"
- "yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol"
- "yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol"
- "yn annog cydweithio"
- "yn cynnwys pob dysgwr"

Gofynnwyd i uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu (uwch arweinwyr a ddywedodd nad oedd ganddynt gyfrifoldebau addysgu na chefnogaeth gydag addysgu hefyd) i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol..."

- "yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr"
- "yn defnyddio cymysgedd o ddulliau"
- "yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol"
- "yn ennyn diddordeb dysgwr"
- "yn defnyddio asesu ar gyfer egwyddorion dysgu"
- "yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu"

- "yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu"
- "yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol"
- "yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol"
- "yn annog cydweithio"
- "yn cynnwys pob dysgwr"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Arfer addysgegol (uwch arweinwyr)

Yn gyffredinol, cytunodd uwch arweinwyr â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi eu barn bod eu harfer addysgegol (neu athrawon yn eu hysgol) yn gynhwysol, yn galonogol, yn gefnogol ac yn defnyddio cymysgedd o ddulliau wrth adeiladu ar wybodaeth flaenorol. Ar gyfer pob datganiad, roedd y mwyafrif helaeth (dros 85%) o uwch arweinwyr oedd yn addysgu a di-addysgu naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

Mewn perthynas â pob datganiad, roedd cyfraddau anghytuno yn isel, gyda'r ganran uchaf o ymatebion anghytuno yn digwydd ar gyfer y datganiad ynghylch defnyddio asesu ar gyfer egwyddorion dysgu, gyda 4% neu uwch arweinwyr oedd yn addysgu a di-addysgu yn dewis anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol nag ymarferwyr nad oeddent yn uwch arweinwyr i gytuno bod arferion yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr ac yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol. Roedd uwch arweinwyr nad oeddent yn addysgu yn fwy tebygol nag uwch arweinwyr oedd yn addysgu i gytuno bod arferion addysgu yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol.

Canfyddiadau: Arfer addysgegol (uwch arweinwyr)

Uwch arweinwyr oedd yn addysgu


Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr oedd yn addysgu eu bod yn hyderus bod eu harferion addysgu:

- "yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol" (98% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol" (97% yn cytuno, 1% yn anghytuno)

- "yn defnyddio cyfuniad o ddulliau" (96% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "yn cynnwys pob dysgwr" (96% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "yn ennyn diddordeb dysgwr" (96% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol" (96% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr" (95% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "yn annog cydweithio" (95% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "yn annog dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu" (92% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu" (92% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu" (89% yn cytuno, 3% yn anghytuno)

Ffigur 24. Ymarfer addysgegol (uwch arweinwyr oedd yn addysgu)

Ymatebion uwch arweinwyr oedd yn addysgu i'r cwestiwn: "Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer..."



Uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu


Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu eu bod yn cytuno bod arferion addysgu yn eu hysgol:

- "yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol" (99% yn cytuno, 0% yn anghytuno)
- "yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr" (98% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol" (98% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "yn cynnwys pob dysgwr" (97% yn cytuno, 0% yn anghytuno)
- "ennyn diddordeb dysgwr" (97% yn cytuno, 2% yn anghytuno)

- "yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol" (96% yn cytuno, 0% yn anghytuno)
- "yn annog cydweithio" (95% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "yn defnyddio cyfuniad o ddulliau" (93% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "yn annog dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu" (92% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "yn defnyddio asesu ar gyfer egwyddorion dysgu" (91% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu" (86% yn cytuno, 3% yn anghytuno)

Ffigur 25. Ymarfer addysgegol (uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu)

Ymatebion uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol..."



20. Cynnydd ac asesu (uwch arweinwyr)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u harferion asesu, neu athrawon yn eu hysgol (gweler pennod 3 am wybodaeth am yr amrywiadau cwestiynau a gyflwynwyd i uwch arweinwyr oedd yn addysgu a rhai nad oedd yn addysgu). Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf".

Yn benodol, gofynnwyd i uwch arweinwyr oedd yn addysgu i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod fy ymarfer asesu...":

- "yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol"
- "yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu"
- "yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr"
- "yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu"
- "yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd"^[25]
- "yn llunio darlun o ddatblygiad y dysgwr"
- "yn defnyddio ystod eang o ddulliau o asesu"
- "yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn"

Gofynnwyd i uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol ..."

- "yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol"
- "yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu"
- "yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr"
- "yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu"
- "yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd"
- "adeiladu darlun o ddatblygiad y dysgwr"
- "yn defnyddio ystod eang o ddulliau o asesu"

[25] Nododd nodyn gwybodaeth wrth ymyl yr opsiwn hwn "Mae dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr wedi ei gyrraedd drwy gyd-weithio â chydweithwyr yn eich ysgol neu glwstwr".

- "yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Cynnydd ac asesu (uwch arweinwyr)

Yn gyffredinol, cytunodd uwch arweinwyr â'r datganiadau ynglŷn â'u hyder yn eu harferion asesu eu hunain, neu athrawon yn eu hysgol. Ar gyfer pob datganiad, roedd y mwyafrif (dros 58%) o uwch arweinwyr oedd yn addysgu a'r rhai nad oedd yn addysgu naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

Mewn perthynas â phob datganiad, roedd cyfraddau anghytundeb yn isel. Ymhlith uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu, roedd y lefel uchaf o anghytundeb mewn perthynas â'r datganiad ynghylch y ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd, gyda 7% o uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu yn dewis anghytuno neu anghytuno'n gryf. Ar gyfer uwch arweinwyr oedd yn addysgu, roedd y lefel uchaf o anghytundeb mewn perthynas â'r datganiad ynglŷn â helpu rhieni neu ofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn, gyda 7% o'r ymatebwyr yn dewis anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol nag ymarferwyr nad oeddent yn uwch arweinwyr o gytuno bod eu harfer asesu yn helpu dealltwriaeth rhieni/gofalwyr o gynnydd eu plentyn.

Canfyddiadau: Cynnydd ac asesu (uwch arweinwyr)

Uwch arweinwyr oedd yn addysgu

Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr oedd yn addysgu eu bod yn cytuno bod eu harfer asesu:

- "yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr" (86% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu" (86% yn cytuno, 4% yn anghytuno)


Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr oedd yn addysgu eu bod yn cytuno bod eu harfer asesu:

- "yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol" (83% yn cytuno, 6% yn anghytuno)

- "yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu" (83% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "yn defnyddio ystod eang o ddulliau o asesu" (80% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "yn adeiladu darlun o ddatblygiad y dysgwr" (80% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "yn adlewyrchu'r dealltwriaeth gyffredin o gynnydd" (78% yn cytuno, 8% yn anghytuno)
- "yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn" (74% yn cytuno, 7% yn anghytuno)

Ffigur 26. Cynnydd ac asesu (uwch arweinwyr oedd yn addysgu)

Ymatebion uwch arweinwyr oedd yn addysgu i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod fy ymarfer asesu..."



Uwch arweinwyr nad oeddent yn addysgu

Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr nad oeddent yn addysgu eu cytundeb bod arferion asesu yn eu hysgol:


- "yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol" (85% yn cytuno, 3% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr nad oeddent yn addysgu eu bod yn cytuno bod arferion asesu yn eu hysgol:

- "yn adeiladu darlun o ddatblygiad y dysgwr" (84% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu" (84% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu" (82% yn cytuno, 6% yn anghytuno)
- "yn defnyddio ystod eang o ddulliau o asesu" (79% yn cytuno, 6% yn anghytuno)
- "yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn" (78% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr" (76% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "yn adlewyrchu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd" (75% yn cytuno, 6% yn anghytuno)

Ffigur 27. Cynnydd ac asesu (uwch arweinwyr nad oeddent yn addysgu)

Ymatebion uwch arweinwyr nad oeddent yn addysgu i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol..."



21. Galluogi dysgu (uwch arweinwyr)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg, gan gynnwys rheini oedd yn addysgu a'r rhai nad oedd yn addysgu, i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u dull o alluogi dysgu. Roedd yr ymatebion yn amrywio o "cytuno'n gryf" i "anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i uwch arweinwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn hyderus yn y canlynol:

- "fy ngallu i ddefnyddio arfer sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr"
- "fy ngallu i ddarparu profiadau dysgu sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr"
- "fy nghapasiti i sylwi, dadansoddi ac ymateb i anghenion dysgwyr unigol i gefnogi cynnydd"
- "yn defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel rhan o'm harferion addysgu a dysgu"
- "yn gwneud y defnydd gorau o'r mannau dan do sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu."

Crynodeb o'r canfyddiadau: Galluogi Dysgu (uwch arweinwyr)

Yn gyffredinol, cytunodd uwch arweinwyr â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi eu hyder bod eu dull (neu dull athrawon yn eu hysgol) o alluogi dysgu yn defnyddio eu hamgylchedd ac yn cefnogi cynnydd y dysgwyr. Ar gyfer pob datganiad, roedd y mwyafrif (dros 58%) o uwch arweinwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl ddatganiadau, roedd y lefel uchaf o anghytundeb mewn perthynas â defnyddio'r amgylchedd awyr agored, gyda 14% o uwch arweinwyr yn dewis anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Canfyddiadau: Galluogi dysgu (uwch arweinwyr)

Pob uwch arweinydd

Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr eu bod yn hyderus yn y canlynol:


- "capasiti i sylwi, dadansoddi ac ymateb i anghenion dysgwyr unigol i gefnogi cynnydd" (89% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "gallu i ddarparu profiadau dysgu sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr" (88% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "gallu i ddefnyddio arferion sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr" (88% yn cytuno, 2% yn anghytuno)

Nododd mwyafrif yr uwch arweinwyr eu bod yn hyderus yn:

- "gwneud y defnydd gorau o'r mannau dan do sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu" (83% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel rhan o'm harferion addysgu a dysgu" (67% yn cytuno, 14% yn anghytuno)

Ffigur 28. Galluogi dysgu

Ymatebion uwch arweinwyr i'r cwestiwn: "I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus yn..."



22. Ymholi proffesiynol (uwch arweinwyr)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u dull o ymholi proffesiynol.

- "Ydych chi wedi bod yn rhan o ymholi proffesiynol yn eich ysgol?"
- "I ba raddau y mae ymholi proffesiynol yn cael ei annog yn eich ysgol?"

Gofynnwyd wedyn i ymatebwyr a nododd eu bod wedi bod yn ymwneud ag ymholi proffesiynol i ba raddau y cytunwyd â'r datganiadau canlynol: Yn fy ysgol, mae ymholi proffesiynol:

- "yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd addysgeg ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol"
- "yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd asesu ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol"
- "yn cynnwys cydweithio"
- "yn defnyddio canfyddiadau o ymchwil perthnasol"
- "yn archwilio achosion problemau sy'n ein hwynebu yn ein hymarfer"
- "yn arwain at gwir welliannau mewn ymarfer"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Ymholi proffesiynol (uwch arweinwyr)

Dywedodd y mwyafrif o uwch arweinwyr eu bod wedi bod yn rhan o ymholi proffesiynol. Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr fod ymholi proffesiynol yn cael ei annog llawer neu lawer iawn yn eu hysgol. Cytunodd uwch arweinwyr a oedd wedi bod yn ymwneud ag ymholi proffesiynol yn gyffredinol â datganiadau amdano gan ddefnyddio mewnwelediadau o ymchwil berthnasol, gan arwain at welliannau mewn arferion a chefnogi ymchwil ar addysgeg, asesu a phroblemau a wynebir yn ymarferol. Ar gyfer pob datganiad, roedd mwyafrif (dros 58%) o uwch arweinwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl gwestiynau ar ymholi proffesiynol, y datganiad ynghylch ymchwiliad i addasrwydd asesu ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol oedd â'r gyfran uchaf o ymatebion

anghytuno ar gyfer uwch arweinwyr, gydag 11% o uwch arweinwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.


Canfyddiadau: Ymholi proffesiynol (uwch arweinwyr)

Pob uwch arweinydd

Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr eu bod wedi bod yn rhan o ymholiadau proffesiynol (75% yn cytuno, 25% yn anghytuno)

Ffigur 29. Cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol


Ymatebion uwch arweinwyr i'r cwestiwn: "Ydych chi wedi bod yn rhan o ymholi proffesiynol yn eich ysgol?"



Nododd mwyafrif yr uwch arweinwyr fod ymholi proffesiynol yn cael ei annog llawer iawn neu lawer yn eu hysgol (nododd 71% "Llawer iawn" neu "Llawer", nododd 27% eu bod yn cael ei annog "Ychydig" a nododd 1% "Dim o gwbl").

Ffigur 30. Annog ymholi proffesiynol

Ymatebion uwch arweinwyr i'r cwestiwn: "I ba raddau y mae ymholi proffesiynol yn cael ei annog yn eich ysgol?"



Ymhlith ymatebwyr a nododd eu bod wedi bod yn ymwneud ag ymholi proffesiynol, nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol ar ymholi proffesiynol yn eu hysgol:


- "yn cynnwys cydweithio" (88% yn cytuno, 3% yn anghytuno)

Ymhlith ymatebwyr a nododd eu bod wedi bod yn ymwneud ag ymholi proffesiynol, nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol ar ymholi proffesiynol yn eu hysgol:

- "yn defnyddio canfyddiadau o ymchwil berthnasol" (85% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "yn arwain at gwir welliannau mewn ymarfer" (83% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd addysgeg ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol" (81% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "yn archwilio achosion problemau sy'n ein hwyneba yn ein ymarfer" (74% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- "yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd asesu ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol" (63% yn cytuno, 11% yn anghytuno)

Ffigur 31. Ymholi proffesiynol

Ymatebion uwch arweinwyr i'r cwestiwn: "I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol? Yn fy ysgol, mae ymholi proffesiynol..."



23. Cyfraniad i'r cwricwlwm (uwch arweinwyr)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u cyfraniad i'r cwricwlwm yn eu hysgol.

Mae fy nghyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn fy ysgol...

- "yn gwneud i mi deimlo bod gen i ddylanwad"
- "yn gwneud i mi deimlo'n werthfawr"
- "yn gwneud i mi deimlo'n frwdfrydig yn fy ngwaith"
- "wedi ei lywio gan fy mhrofiadau fy hun yn y gorffennol"
- "yn cael ei gefnogi gan berthnasoedd gwaith cadarnhaol"
- "wedi ei gefnogi gan ansawdd yr amgylchedd ffisegol rwy'n gweithio ynddo"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Cyfraniad i'r cwricwlwm (uwch arweinwyr)

Cytunodd uwch arweinwyr yn gyffredinol â'r datganiadau yn y cwestiwn. Ar gyfer pob datganiad, roedd y mwyafrif (dros 58%) o uwch arweinwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl gwestiynau sy'n ymwneud â chyfraniad i'r cwricwlwm, y datganiad ynghylch ansawdd yr amgylchedd ffisegol oedd â'r gyfran uchaf o ymatebion anghytuno ar gyfer uwch arweinwyr, gyda 12% o uwch arweinwyr yn dewis anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Canfyddiadau: Cyfraniad i'r cwricwlwm (uwch arweinwyr)

Pob uwch arweinydd

Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr fod eu cyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn eu hysgol:

- "wedi ei gefnogi gan berthnasoedd gwaith cadarnhaol" (89% yn cytuno, 2% yn anghytuno)


- "yn gwneud i mi deimlo bod gen i ddylanwad" (87% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "wedi ei lywio gan fy mhrofiadau fy hun yn y gorffennol" (86% yn cytuno, 3% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr fod eu cyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn eu hysgol:

- "yn gwneud i mi deimlo'n frwdfrydig yn fy ngwaith" (79% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "yn gwneud i mi deimlo'n werthfawr" (78% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "wedi ei gefnogi gan ansawdd yr amgylchedd ffisegol rwy'n gweithio ynddo" (67% yn cytuno, 12% yn anghytuno)

Ffigur 32. Cyfraniad i'r cwricwlwm

Ymatebion uwch arweinwyr i'r cwestiwn: "Mae fy nghyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn fy ysgol..."



24. Hyder y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd (uwch arweinwyr)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u canfyddiad o gynnydd dysgwyr.

Gofynnwyd i uwch arweinwyr i ba raddau yr oeddent yn hyderus y byddai cwricwlwm eu hysgol yn:

- "cefnogi ein dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben"
- "cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u man cychwyn"
- "cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol"
- "galluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i wneud cynnydd mor llawn â'u cyfoedion"

Gofynnwyd i uwch arweinwyr hefyd i ba raddau yr oeddent yn cytuno, wrth gymharu â'r cwricwlwm blaenorol, eu bod yn hyderus y byddai cwricwlwm eu hysgol yn...

- "diwallu anghenion pob dysgwr yn well"
- "arwain at wella cynnydd dysgwr"
- "helpu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn"
- "gwella lefelau cyrhaeddiad cyffredinol dysgwyr"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Hyder y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd (uwch arweinwyr)

Cytunodd uwch arweinwyr yn gyffredinol â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi eu hyder bod y cwricwlwm ysgol yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd a'u hyder yn y cwricwlwm newydd o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol. Ar gyfer pob datganiad, roedd y mwyafrif (dros 58%) o uwch arweinwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

Ar gyfer yr holl ddatganiadau ar gynnydd dysgwyr, roedd cyfraddau anghytundeb yn isel. Y datganiad ar alluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i wneud cynnydd mor llawn â'u

cyfoedion oedd â'r gyfran uchaf o ymatebion anghytuno ar gyfer uwch arweinwyr, gyda 4% o uwch arweinwyr yn dewis anghytuno neu anghytuno'n gryf.

O'r holl ddatganiadau ar ddiwallu anghenion dysgwyr, roedd y lefelau uchaf o anghytundeb mewn perthynas â'u hyder y byddai cwricwlwm eu hysgol yn gwella lefelau cyffredinol cyflawniad dysgwyr a cynnydd dysgwyr, gydag 11% o uwch arweinwyr yn dewis anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Canfyddiadau: Hyder y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd (uwch arweinwyr)

Pob uwch arweinydd

Nododd y mwyafrif helaeth o uwch arweinwyr eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus y byddai cwricwlwm eu hysgol yn:


- "cefnogi ein dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben" (92% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol" (90% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u man cychwyn" (89% yn cytuno, 3% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus y byddai cwricwlwm eu hysgol yn:

- "galluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i wneud cynnydd mor llawn â'u cyfoedion" (cytunodd 84%, anghytunodd 4%)

Ffigur 33. Cynnydd dysgwyr

Ymatebion uwch arweinwyr i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm yr ysgol ..."




Nododd y mwyafrif o uwch arweinwyr eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus y byddai cwricwlwm eu hysgol yn:

- "diwallu anghenion pob dysgwr yn well" (71% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- "helpu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn" (68% yn cytuno, 9% yn anghytuno)
- "arwain at wella cynnydd dysgwyr" (66% yn cytuno, 11% yn anghytuno)
- "gwella lefelau cyrhaeddiad cyffredinol dysgwyr" (63% yn cytuno, 11% yn anghytuno)

Ffigur 34. Diwallu anghenion dysgwyr

Ymatebion uwch arweinwyr i'r cwestiwn: "Wrth gymharu â'r cwricwlwm blaenorol, rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm ein hysgol yn..."



25. Heriau a chymorth yn y dyfodol (uwch arweinwyr)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â thri chwestiwn testun agored. Y rhain oedd:

- "Y peth fwyaf heriol sy'n fy wynebu wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru yw..."
- "Mae angen cymorth pellach arnaf i'm helpu...."
- "Pe byddai cydweithiwr yn gofyn beth oeddwn i'n ei hoffi fwyaf am y Cwricwlwm i Gymru, byddwn i'n dweud..."

Crynodeb o'r canfyddiadau: Heriau a chefnogaeth yn y dyfodol (uwch arweinwyr)

Mewn ymateb i gwestiynau testun agored dewisol, adroddodd uwch arweinwyr mai'r agweddau y maent yn eu gweld fwyaf heriol wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru oedd:

- diffyg amser, cyllid ac adnoddau i weithio ar y cyd a rhyddhau staff ar gyfer dysgu proffesiynol
- diffyg eglurder mewn perthynas ag asesu a chynnydd
- diffyg enghreifftiau ymarferol da o gynllunio a gwireddu'r cwricwlwm
- pryderon mwy cyffredinol am y Cwricwlwm i Gymru neu addysg yn ehangach

Adroddodd uwch arweinwyr fod angen cymorth pellach arnynt i'w helpu gyda rhai agweddau ar wireddu'r cwricwlwm:

- canllawiau cliriach ynglŷn ag asesu
- diffyg adnoddau ariannol ar gyfer rhyddhau staff ar gyfer dysgu proffesiynol
- mwy o amser i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol a gweithgareddau cydweithio
- mwy neu well canllawiau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, asesu a chynnydd

Adroddodd uwch arweinwyr, pe bai cydweithiwr yn gofyn iddynt beth oeddent yn ei hoffi fwyaf am y Cwricwlwm i Gymru, byddent yn dweud:

- roedden nhw'n hoffi'r hyblygrwydd a'r rhyddid i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain i weddu i anghenion eu dysgwyr
- roedden nhw'n teimlo bod y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei arwain yn fwy gan ddysgwyr a'i fod yn fwy perthnasol i fywyd go iawn
- roedden nhw'n hoffi agweddau allweddol o'r Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft y pedwar diben, creu cysylltiadau rhwng ac ar draws pynciau a meysydd dysgu
- eu bod yn teimlo bod y Cwricwlwm i Gymru o fudd i'w dysgwyr o ran eu cyfranogiad yn y cwricwlwm, dysgu cyd-destunol a'r ffocws ar les

Ymatebion testun agored: Heriau a chefnogaeth yn y dyfodol (uwch arweinwyr)

Canfyddiadau: "Y peth fwyaf heriol sy'n fy wynebu wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru yw..."

Ymhlith yr uwch arweinwyr a wnaeth gynnig ymatebion i'r cwestiwn testun agored dewisol (314 allan o 451 o ymatebwyr) y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- nad oedd gan uwch arweinwyr amser, cyllid ac adnoddau i weithio ar y cyd â staff, ysgolion a chlystyrau eraill i ddatblygu'r cwricwlwm ac i ryddhau staff ar gyfer datblygiad proffesiynol a fyddai'n helpu i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru
- galwad am arweiniad a chyfarwyddyd mwy a chliriach ar asesu a chynnydd yn ogystal â phryderon am ddiffyg safoni mewn arferion asesu a pheidio â gwybod sut i fynd i'r afael ag asesu neu gynnydd
- galwad am ragor o, neu well, canllawiau naill ai yn gyffredinol ynglŷn â'r Cwricwlwm i Gymru neu, yn benodol, mwy o enghreifftiau o sut y dylai'r cwricwlwm edrych, gan gynnwys sut i wneud penderfyniadau mewn perthynas â chynllunio a gwireddu cwricwlwm, enghreifftiau o arfer gorau o ysgolion eraill yn ei wneud yn dda a mwy o ganllawiau ar y meysydd dysgu a phrofiad (er enghraifft, faint o bwyslais i'w roi ar bob maes mewn ysgolion cynradd yn ogystal â sut i sicrhau bod agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru wedi'u hymgorffori ar draws y cwricwlwm) pryderon ynglŷn â'r Cwricwlwm i Gymru neu addysg yn ehangach. Roedd y pryderon a godwyd yn amrywiol ac yn cynnwys bod y Cwricwlwm i Gymru yn rhy amwys ac yn agored i ddehongliad, baich gwaith oedd yn cynyddu, sylwadau am ddulliau anghyson o

wireddu'r cwricwlwm a diffyg safoni ar draws ysgolion a safonau addysgol yn ehangach.

Canfyddiadau: "Mae angen cymorth pellach arnaf i'm helpu...."

Ymhlith yr uwch arweinwyr wnaeth gynnig ymatebion i'r cwestiwn testun agored dewisol (215 allan o 451) y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- galwad am arweiniad a chyfarwyddyd cliriach ar asesu, gan nodi bod meini prawf asesu a chynnydd yn aneglur iddynt. Roedd uwch arweinwyr eisiau arweiniad mwy penodol ynghylch strategaethau a threfniadau asesu, modelau a gweithdrefnau cynnydd, sut i olrhain cynnydd ac enghreifftiau arfer gorau mewn perthynas ag ystod o gyd-destunau.
- diffyg adnoddau ariannol ar gyfer rhyddhau staff ar gyfer dysgu proffesiynol i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru yn iawn, staff cymorth a allai eu galluogi i dreulio amser ar ddatblygu'r cwricwlwm yn dda a chyllid i helpu i gynnal amgylchedd gwaith cadarnhaol i staff a disgyblion.
- eu bod yn teimlo bod angen mwy o amser arnynt i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys yr amser sydd ei angen ar gyfer datblygiad proffesiynol i gefnogi gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru, i gynllunio a chreu adnoddau, i fyfyrion a chydweithio â staff ac ysgolion eraill ac amser i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'u cwricwlwm.
- Roedd uwch arweinwyr yn teimlo bod angen mwy o arweiniad a/neu well naill ai yn gyffredinol neu'n benodol mwy o enghreifftiau o sut y dylai'r cwricwlwm edrych, asesu a chynnydd, cynllunio cwricwlwm ac enghreifftiau o ysgolion eraill yn ei wneud yn dda

Canfyddiadau: "Pe byddai cydweithiwr yn gofyn beth oeddwn i'n ei hoffi fwyaf am y Cwricwlwm i Gymru, byddwn i'n dweud..."

Ymhlith yr uwch arweinwyr wnaeth gynnig ymatebion i'r cwestiwn testun agored dewisol (288 allan o 451), y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- eu bod yn hoffi'r hyblygrwydd a'r rhyddid i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Roedd y sylwadau yn cynnwys hoffi'r ymreolaeth i weddu i anghenion eu dysgwyr i wella ymgysylltu a gwneud dysgu yn fwy perthnasol, y cyfle i bersonoli cwricwlwm lleol yn

ogystal â darparu mwy o greadigrwydd i staff ddysgu gwersi mwy arloesol a chyffrous.

- eu bod yn teimlo bod y Cwricwlwm i Gymru yn fwy perthnasol i ddysgwyr gan ei fod yn fwy dan arweiniad dysgwyr. Roedd y sylwadau'n cynnwys bod yn fwy cynhwysol, dilys, hoffi'r ffocws ar ddysgu bywyd go iawn a darparu cyd-destun ar gyfer dysgu, y ffocws ar anghenion lleol ac iechyd a lles
- eu bod yn hoffi agweddau allweddol y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys y pedwar diben, cysylltu dysgu â phynciau eraill trwy feysydd dysgu a phrofiad, y ffocws ar sgiliau cynnydd a datblygu yn ogystal â gwybodaeth.
- bod y Cwricwlwm i Gymru o fudd i ddysgwyr mewn rhyw ffordd. Roedd y sylwadau yn cynnwys hoffi ffocws y plentyn wrth wraidd y broses, gan arwain at well ymgysylltiad disgyblion, y gallu i ddarparu profiadau cyd-destunol, diwallu anghenion unigol, y ffocws ar les a sut roedd y Cwricwlwm i Gymru yn helpu i ddatblygu dysgwyr yn fwy holistaidd.

Rhan B: Canfyddiadau'r arolwg i athrawon

Yn Rhan B, defnyddir y term "athro", yn gwyno, i ddisgrifio pawb a ddywedodd nad oeddent yn aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn eu hysgol, gan gynnwys arweinwyr canol, athrawon, g a staff eraill.

26. Ymrwymiad i newid cwricwlwm (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u hymrwymiad i newid cwricwlwm. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "cytuno'n gryf" i "anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Rwy'n barod i wneud newidiadau i'm harfer proffesiynol i wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru"
- "Rwyf bob amser yn hyrwyddo'r Cwricwlwm i Gymru wrth siarad â chydweithwyr"
- "Rwy'n ystyried bod y Cwricwlwm i Gymru yn llawer gwell na'r cwricwlwm blaenorol"

Yna cynigiwyd cyfle i ymatebwyr ehangu ar eu hymateb mewn blwch testun agored.

Crynodeb o'r canfyddiadau: Ymrwymiad i newid cwricwlwm (athrawon)

Roedd gan athrawon farn gymysg mewn perthynas â datganiadau ynglŷn â'u hymrwymiad i newid cwricwlwm. Roedd y mwyafrif helaeth o athrawon yn cytuno eu bod yn fodlon gwneud newidiadau i'w harfer proffesiynol i wireddu dyheadau y Cwricwlwm i Gymru, tra bod tua hanner yn cytuno eu bod bob amser yn hyrwyddo'r Cwricwlwm i Gymru wrth siarad â chydweithwyr. Roedd canrannau cyfartal o athrawon yn cytuno (32%) ac yn anghytuno (30%) eu bod yn ystyried y Cwricwlwm i Gymru yn llawer gwell na'r cwricwlwm blaenorol.

Canfyddiadau: Ymrwymiad i newid cwricwlwm (athrawon)

Athrawon

Nododd y mwyafrif helaeth o athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Rwy'n barod i wneud newidiadau i'm harfer proffesiynol i wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru" (87% yn cytuno, 2% yn anghytuno)

Nododd tua hanner yr athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:


- "Rwyf bob amser yn hyrwyddo'r Cwricwlwm i Gymru wrth siarad â chydweithwyr" (45% yn cytuno, 20% yn anghytuno)

Nododd lleiafrif o athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Rwy'n ystyried bod y Cwricwlwm i Gymru yn llawer gwell na'r cwricwlwm blaenorol" (32% yn cytuno, 29% yn anghytuno)

Ffigur 35. Ymrwymiad i newid cwricwlwm

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?



Ymatebion testun agored: Ymrwymiad i newid cwricwlwm (athrawon)

Ymhlith yr athrawon wnaeth gynnig ymatebion i'r cwestiwn testun agored dewisol (173 allan o 444 o athrawon) y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- bod angen mwy neu well arweiniad naill ai yn gyffredinol neu'n benodol mwy o enghreifftiau o sut y dylai'r cwricwlwm edrych. Roedd sylwadau yn cynnwys angen arweiniad cliriach a chael hi'n anodd gwybod beth i'w wneud neu sut ddylai'r Cwricwlwm i Gymru edrych.

- galwad am arweiniad a chyfarwyddyd cliriach ar asesu a chynnydd. Roedd hyn yn cynnwys pryderon am ddiffyg safoni mewn arferion asesu a chanfyddiadau bod amwysedd ynghylch asesu a chynnydd wedi arwain at fwy o faich gwaith.
- eu bod yn hoffi'r hyblygrwydd a'r rhyddid i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Roedd y sylwadau yn cynnwys hoffi'r ymreolaeth i weddu i anghenion eu dysgwyr, y cyfle i bersonoli cwricwlwm lleol yn ogystal â darparu mwy o greadigrwydd i staff ddysgu gwersi mwy arloesol a chyffrous.
- eu bod yn hoffi cysyniad y Cwricwlwm i Gymru ac yn teimlo bod ganddo botensial da, ond roedd rhwystrau i'w wireddu. Roedd sylwadau cadarnhaol ar weledigaeth a dyheadau y Cwricwlwm i Gymru ond teimlad bod diffyg arweiniad a chefnogaeth o ran ei wireddu. Roedd y sylwadau hefyd yn cynnwys diffyg cyfeiriad o ran asesu a chynnydd a chefnogaeth i athrawon wireddu'r Cwricwlwm i Gymru.
- pryderon ynglŷn â'r Cwricwlwm i Gymru neu addysg yn ehangach. Roedd y pryderon a godwyd yn amrywiol ac yn cynnwys bod yn rhy amwys ac yn agored i ddehongli, baich gwaith oedd yn cynyddu, dulliau anghyson o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys gormod o hyblygrwydd a diffyg safoni ar draws ysgolion a safonau addysgol yn ehangach.

27. Gwybodaeth am newid cwricwlwm (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u gwybodaeth am newid cwricwlwm. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "cytuno'n gryf" i "anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae'r rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm yn glir i mi"
- "Rwy'n deall fy rôl wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru"
- "Mae'r hyn sydd wedi newid yn y Cwricwlwm i Gymru o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol"
- "Gallaf egluro prif elfennau'r Cwricwlwm i Gymru i eraill"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Gwybodaeth am newid cwricwlwm (athrawon)

Yn gyffredinol, cytunodd athrawon â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi eu gwybodaeth am newid cwricwlwm. Ar gyfer tri o'r pedwar datganiad, roedd mwyafrif (dros 58%) o athrawon naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf. Ar gyfer un o'r datganiadau, roedd tua hanner (49%) yr athrawon naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl ddatganiadau, roedd y gyfran uchaf o ymatebion anghytuno neu anghytuno'n gryf, gyda 20% yn anghytuno bod y rhesymau yn glir.

Canfyddiadau: Gwybodaeth am newid cwricwlwm (athrawon)

Athrawon

Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:


- "Rwy'n deall fy rôl wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru" (76% yn cytuno, 8% yn anghytuno)
- "Mae'r hyn sydd wedi newid yn y Cwricwlwm i Gymru o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol yn glir i mi" (70% yn cytuno, 9% yn anghytuno)
- "Gallaf egluro prif elfennau'r Cwricwlwm i Gymru i eraill" (68% yn cytuno, 11% yn anghytuno)

Nododd tua hanner yr athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae'r rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm yn glir i mi" (47% yn cytuno, 20% yn anghytuno)

Ffigur 36: Gwybodaeth am newid cwricwlwm

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?



28. Dealltwriaeth o newid cwricwlwm (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u dealltwriaeth o newid cwricwlwm. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "cytuno'n gryf" i "anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Rwy'n deall sut y dylwn newid fy ymarfer mewn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru"
- "Rwy'n deall beth syn ofynnol i'm hysgol wneud i gynllunio cwricwlwm ein hunain yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru"
- "Rwy'n deall beth sy'n ofynnol i'm hysgol wneud i gynllunio ein trefniadau asesu ein hunain yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Dealltwriaeth o newid cwricwlwm (athrawon)

Roedd athrawon yn gyffredinol yn cytuno â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi eu dealltwriaeth o newid cwricwlwm. Ar gyfer dau o'r tri datganiad, roedd y mwyafrif (dros 58%) o athrawon naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl ddatganiadau, roedd y lefel uchaf o anghytundeb mewn perthynas â dealltwriaeth athrawon o'r gofynion ar gyfer trefniadau asesu cynllunio, gyda 27% yn anghytuno eu bod yn deall beth mae'n ofynnol i'w hysgol ei wneud.

Canfyddiadau: Dealltwriaeth o newid cwricwlwm (athrawon)

Athrawon

Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:


- "Rwy'n deall sut y dylwn newid fy arfer mewn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru" (69% yn cytuno, 10% yn anghytuno)
- "Rwy'n deall beth sy'n ofynnol i'm hysgol wneud i gynllunio cwricwlwm ein hunain yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru" (64% yn cytuno, 13% yn anghytuno)

Nododd tua hanner yr athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Rwy'n deall beth sy'n ofynnol i'm hysgol ei wneud i gynllunio ein trefniadau asesu ein hunain yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru" (49% yn cytuno, 27% yn anghytuno)

Ffigur 37: Dealltwriaeth o newid cwricwlwm

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?



29. Y gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u gallu, neu athrawon yn eu hysgol (gweler pennod 3 am wybodaeth am yr amrywiadau cwestiynau a gyflwynwyd i athrawon a staff eraill), i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid yn y cwricwlwm. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "cytuno'n gryf" i "anghytuno'n gryf".

Yn benodol, gofynnwyd i athrawon (h.y. y rhai a oedd â chyfrifoldebau addysgu neu a gynorthwyodd gydag addysgu) i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Rwy'n hyderus bod gen i'r sgiliau sydd eu hangen arnaf"
- "Rwy'n hyderus o'm gwybodaeth pwnc"
- "Rwy'n hyderus o'm gwybodaeth addysgeg"
- "Rwy'n hyderus y gallaf darparu profiadau dilys a phwrrpasol i ddysgwyr"
- "Rwy'n hyderus yn cefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng pynciau a meysydd dysgu a phrofiad"
- "Rwy'n hyderus o'm harbenigedd cynllunio cwricwlwm fy hun"
- "Rwy'n hyderus o'm harbenigedd cynllunio asesu fy hun"
- "Rwy'n hyderus o'm gallu i addasu fy arfer proffesiynol"

Gofynnwyd i staff eraill (h.y. y rhai nad oedd ganddynt gyfrifoldebau addysgu nac yn cynorthwyo gydag addysgu) i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau canlynol: "Yn fy ysgol, rwy'n hyderus fod gan athrawon":

- "y sgiliau sydd eu hangen arnynt"
- "y wybodaeth sydd ei hangen arnynt"
- "y wybodaeth addysgol sydd ei hangen arnynt"
- "yn gallu i ddarparu profiadau dilys a phwrrpasol i ddysgwyr"

- "y gallu i gefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng pynciau a meysydd dysgu a phrofiad"
- "yr arbenigedd cynllunio cwricwlwm sydd ei angen arnynt"
- "yr arbenigedd cynllunio asesu sydd ei angen arnynt"
- "y gallu i addasu eu harferion proffesiynol"

Crynodeb o'r canfyddiadau: gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm (athrawon)

Roedd athrawon yn gyffredinol yn cytuno â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi hyder yn eu gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm. Ar gyfer pump o'r saith datganiad, roedd y mwyafrif (dros 58%) o athrawon naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl ddatganiadau, roedd y lefel uchaf o anghytuno mewn perthynas ag arbenigedd cynllunio asesu a dderbyniwyd, gyda 22% o athrawon yn anghytuno eu bod yn hyderus o'u harbenigedd cynllunio asesu.

Canfyddiadau: gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm (athrawon)

Athrawon

Nododd y mwyafrif o ymarferwyr addysgu eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Rwy'n hyderus o'm gwybodaeth addysgeg" (83% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "Rwy'n hyderus o'm gwybodaeth pwnc" (83% yn cytuno, 6% yn anghytuno)
- "Rwy'n hyderus y gallaf ddarparu profiadau dilys a phwrrpasol i ddysgwyr" (82% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "Rwy'n hyderus o'm gallu i addasu fy ymarfer proffesiynol" (82% yn cytuno, 4% yn anghytuno)


- "Rwy'n hyderus yn cefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng pynciau a meysydd dysgu a phrofiad" (78% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "Rwy'n hyderus bod gen i'r sgiliau sydd eu hangen arnaf" (65% yn cytuno, 11% yn anghytuno)

Nododd tua hanner yr athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Rwy'n hyderus o'm harbenigedd cynllunio cwricwlwm fy hun" (54% yn cytuno, 16% yn anghytuno)
- "Rwy'n hyderus o'm harbenigedd cynllunio asesu fy hun" (45% yn cytuno, 22% yn anghytuno)

Ffigur 38: Y gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid yn y cwricwlwm

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: Wrth feddwl am eich rôl wrth gynllunio a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, i ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Rwy'n hyderus...



Staff eraill

Nododd mwyafrif y staff eraill²⁶ eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Yn fy ysgol, rwy'n hyderus bod gan athrawon y sgiliau sydd eu hangen arnynt" (62% yn cytuno, 23% yn anghytuno)
- "Yn fy ysgol, rwy'n hyderus bod gan athrawon y wybodaeth pwnc sydd ei hangen arnynt" (62% yn cytuno, 22% yn anghytuno)
- "Yn fy ysgol, rwy'n hyderus bod athrawon yn gallu darparu profiadau dilys a phwrpasol i ddysgwyr" (68% yn cytuno, 6% yn anghytuno)
- "Yn fy ysgol, rwy'n hyderus bod gan athrawon y wybodaeth addysgegol sydd ei hangen arnynt" (70% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "Yn fy ysgol, rwy'n hyderus y gall athrawon gefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng pynciau a meysydd dysgu a phrofiad" (75% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- "Yn fy ysgol, rwy'n hyderus bod gan athrawon y gallu i addasu eu harfer proffesiynol" (72% yn cytuno, 6% yn anghytuno)

Nododd tua hanner y staff eraill eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Yn fy ysgol, rwy'n hyderus bod gan athrawon yr arbenigedd cynllunio cwricwlwm sydd ei angen arnynt" (50% yn cytuno, 16% yn anghytuno)

Nododd lleiafrif o staff eraill eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Yn fy ysgol, rwy'n hyderus bod gan athrawon yr arbenigedd cynllunio asesu sydd ei angen arnynt" (35% yn cytuno, 16% yn anghytuno)

[26] Roedd y rhain yn cynnwys y rhai a ddywedodd eu bod yn athro myfyriwr, arweinydd bugeiliol, gweithiwr ieuenctid, cydlynnydd ADY cynorthwyol, gweinyddwr neu lywodraethwr ysgol.

Ymatebion testun agored: y gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm (athrawon)

Ymhlith yr athrawon wnaeth gynnig ymatebion i'r cwestiwn testun agored dewisol (67 allan o 438 o athrawon – lle nad oedd 6 o'r 444 o athrawon wedi ymateb i'r cwestiwn meintiol blaenorol) y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- eu bod yn teimlo'n hyderus yn eu sgiliau a'u gwybodaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys teimlad y gallent addasu i ofynion y Cwricwlwm i Gymru oherwydd eu profiad eu hunain (ond roeddent yn poeni am yr amser a'r adnoddau yr oedd ei angen i wneud hynny) neu bwysleisio eu bod yn teimlo bod ganddynt amser i ymgysylltu'n barhaus â chydweithwyr neu ysgolion eraill mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru neu wneud eu hymchwil eu hunain.
- galwad am arweiniad a chyfarwyddyd cliriach ar asesu a theimlad bod yr amwysedd canfyddedig ynghylch asesu wedi arwain at fwy o faich gwaith ac wedi ei gwneud hi'n anodd esbonio dulliau o asesu a chynnydd i rieni/gofalwyr.
- nad oedd ganddynt yr amser a'r adnoddau i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru yn llawn. Roedd y sylwadau yn cynnwys diffyg amser i siarad â chydweithwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion eraill, i adolygu dogfennaeth y Cwricwlwm i Gymru a chynhyrchu deunyddiau a oedd yn adlewyrchu gofynion y Cwricwlwm i Gymru.
- diffyg adnoddau ariannol ar gyfer rhyddhau staff ar gyfer dysgu proffesiynol ac i ddarparu profiadau dilys i ddysgwyr.
- angen mwy neu well arweiniad, naill ai yn gyffredinol gan ei fod yn teimlo bod y canllawiau yn rhy amwys neu'n benodol mwy o enghreifftiau o sut y dylai'r cwricwlwm edrych.
- pryderon ynglŷn â'r Cwricwlwm i Gymru neu addysg yn ehangach. Roedd y pryderon a godwyd yn amrywiol ac yn cynnwys baich gwaith oedd yn cynyddu, dulliau anghyson o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru a diffyg safoni ar draws ysgolion a safonau addysgol yn ehangach.

30. Lles (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am les ymarferwyr.^[Troednodyn 27] Roedd opsiynau ymateb yn amrywio o "cytuno'n gryf" i "anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae fy ysgol yn le da i weithio"
- "Rwy'n fodlon gyda fy swydd"
- "Rwy'n fodlon â'm cydbwysedd bywyd a gwaith"
- "Mae fy ngwaith fel addysgwr yn ystyrlon"
- "Mae fy mherthynas â dysgwyr yn rhoi boddhad i mi"
- "Mae fy mherthynas gyda chydweithwyr yn gefnogol"
- "Rwy'n teimlo gallaf fod yn fi fy hun gyda chydweithwyr yn y gwaith"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Lles (athrawon)

Cytunodd athrawon yn gyffredinol â 6 o'r 7 datganiad yn y cwestiwn, gan nodi eu safbwynt cadarnhaol mewn perthynas â'u lles a'u hamgylcheddau gwaith. Ar gyfer 6 o'r 7 datganiad, roedd y mwyafrif (dros 58%) o athrawon naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf. Ar gyfer 1 o'r datganiadau roedd bron i hanner (42%) yn anghytuno.

O'r holl ddatganiadau, roedd y lefel uchaf o anghytundeb mewn perthynas â chydbwysedd bywyd a gwaith athrawon, gyda 42% yn anghytuno eu bod yn fodlon â'u cydbwysedd bywyd gwaith.

[27] Disgrifiwyd y thema hon fel "Amgylchedd gwaith" yn yr holiadur.

Canfyddiadau: Lles (athrawon)

Athrawon

Nododd y mwyafrif helaeth o athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae fy mherthynas gyda dysgwyr yn rhoi boddhad i mi" (94% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "Mae fy mherthynas gyda chydweithwyr yn gefnogol" (86% yn cytuno, 4% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:


- "Mae fy ngwaith fel addysgwr yn ystyrlon" (82% yn cytuno, 6% yn anghytuno)
- "Mae fy ysgol yn le da i weithio" (78% yn cytuno, 9% yn anghytuno)
- "Rwy'n teimlo gallaf fod yn fi fy hun chydweithwyr yn y gwaith" (77% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- "Rwy'n fodlon gyda fy swydd" (70% yn cytuno, 16% yn anghytuno)

Nododd lleiafrif o athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Rwy'n fodlon â'm cydbwysedd bywyd gwaith" (38% yn cytuno, 42% yn anghytuno)

Ffigur 39: Lles

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: Wrth feddwl am eich gwaith yn eich ysgol, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?



31. Cydweithio ar gynllunio cwricwlwm (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau y bu cydweithio â gwahanol grwpiau ar gynllunio cwricwlwm yn eu hysgol. Roedd opsiynau ymateb yn amrywio o "Dim cydweithio" i "Llawer iawn o gydweithio". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau y bu cydweithio:

- "rhwng athrawon"
- "gydag ysgolion cynradd"
- "gydag ysgolion uwchradd"
- "gydag ysgolion arbennig"
- "gyda UC Dau neu ddarparwyr EOTAS eraill"
- "gyda lleoliadau meithrin"
- "gyda llywodraethwyr"
- "gyda dysgwyr"
- "gyda rhieni/gofalwyr"
- "gyda sefydliadau Addysg Uwch"
- "gyda busnesau neu gyflogwyr"
- "gyda sefydliadau eraill"

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau canlynol yn ymwneud â sut roedd cydweithio wedi digwydd yn eu hysgol (roedd opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf"):

- "Mae athrawon yn cymryd rhan yn gyson mewn trafodaethau/penderfyniadau am addysgeg"
- "Mae cyfleoedd ar gael i athrawon i ysgogi newidiadau"
- "Mae athrawon yn cymryd cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd am gynnydd y dysgwyr"
- "Mae athrawon yn cymryd rhan weithredol mewn cynnal disgwyliadau uchel i gynyddu cyflawniad dysgwyr"

- "Mae arweinwyr yn yr ysgol hon yn ystyried cyngor gan athrawon wrth wneud penderfyniadau"
- "Mae arweinyddiaeth yn cael ei meithrin a'i dosbarthu ymhlith athrawon"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Cydweithio ar gynllunio cwricwlwm (athrawon)

Dywedodd athrawon fod cydweithio wedi bod gyda thua hanner y partneriaid a awgrymwyd. Ar gyfer 6 o'r 12 datganiad, nododd dros 50% o athrawon rywfaint neu lawer o gydweithio.

Roedd gan athrawon farn gadarnhaol yn gyffredinol ar sut roedd cydweithio wedi digwydd. Ar gyfer pob un o'r datganiadau, cytunodd y mwyafrif (dros 58%) o athrawon neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl bartneriaid cydweithio a gynhwyswyd yn yr arolwg, ysgolion arbennig oedd y partneriaid y dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd cydweithio wedi digwydd.

O'r holl ddatganiadau ar sut yr oedd cydweithio yn digwydd, roedd y lefelau uchaf o anghytundeb mewn perthynas â'r rhai ynghylch cyfleoedd i ysgogi newidiadau ac arweinyddiaeth yn ystyried cyngor athrawon, gyda 15% o'r ymatebwyr yn anghytuno ar gyfer y ddau ddatganiad.

Canfyddiadau: Cydweithio ar gynllunio cwricwlwm (athrawon)

Athrawon

Nododd mwyafrif helaeth yr athrawon fod cydweithio wedi bod â'r grwpiau canlynol:

- "rhwng athrawon" (nododd 92% gydweithio, nododd 2% ddim cydweithio)

Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "gyda dysgwyr" (nododd 80% gydweithio, nododd 7% ddim cydweithio)
- "gydag ysgolion cynradd" (nododd 72% gydweithio, nododd 13% nad oedd cydweithio)
- "gyda llywodraethwyr" (nododd 64% gydweithio, nododd 15% ddim cydweithio)

Nododd tua hanner yr athrawon fod cydweithio wedi bod â'r grwpiau canlynol:

- "gyda rhieni/gofalwyr" (nododd 58% gydweithio, nododd 19% nad oedd cydweithio)
- "gydag ysgolion uwchradd" (nododd 57% gydweithio, nododd 16% ddim cydweithio)

Nododd lleiafrif o athrawon fod cydweithio wedi bod gyda'r grwpiau canlynol:


- "gyda sefydliadau eraill" (nododd 25% gydweithio, 29% yn nodi dim cydweithio)
- "gyda busnesau neu gyflogwyr" (nododd 22% gydweithio, nododd 32% ddim cydweithio)
- "gyda lleoliadau meithrin" (nododd 21% gydweithio, nododd 40% ddim cydweithio)
- "gyda sefydliadau Addysg Uwch" (nododd 17% gydweithio, nododd 39% ddim cydweithio)
- "gydag ysgolion arbennig" (nododd 15% gydweithio, nododd 48% ddim cydweithio)

Nododd lleiafrif bach o athrawon fod cydweithio wedi bod gyda'r grwpiau canlynol:

- "gyda UC'Dau neu ddarparwyr EOTAS eraill" (nododd 13% gydweithio, nododd 41% ddim cydweithio)

Ffigur 40: Cydweithio ar gynllunio cwricwlwm

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: Wrth gynllunio'r cwricwlwm yn eich ysgol, i ba raddau y mae cydweithio wedi bod...?



Nododd mwyafrif helaeth yr athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae athrawon yn cymryd rhan weithredol mewn cynnal disgwyliadau uchel i gynyddu cyflawniad dysgwyr" (86% yn cytuno, 4% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae athrawon yn cymryd cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd am gynydd dysgwyr" (76% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "Mae athrawon yn cymryd rhan yn gyson mewn trafodaethau/penderfyniadau am addysgeg" (66% yn cytuno, 10% yn anghytuno)
- "Mae cyfleoedd ar gael i athrawon i ysgogi newidiadau" (65% yn cytuno, 14% yn anghytuno)
- "Mae arweinwyr yn yr ysgol hon yn ystyried cyngor gan athrawon wrth wneud penderfyniadau" (65% yn cytuno, 15% yn anghytuno)
- "Mae arweinyddiaeth yn cael ei meithrin a'i dosbarthu ymhlith athrawon" (62% yn cytuno, 14% yn anghytuno)

Ffigur 41: Cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: Mewn perthynas ag athrawon ac uwch arweinwyr yn eich ysgol, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?



32. Dealltwriaeth gyffredin o agweddau o'r

Cwricwlwm i Gymru (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynghylch a oedd dealltwriaeth gyffredin o wahanol agweddau o'r cwricwlwm ymhlith staff yn eu hysgol. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno bod dealltwriaeth gyffredin o:

- "gynnydd dysgwr"
- "beth mae'n ei olygu i gael cwricwlwm cynhwysol"
- "sut mae ein cwricwlwm yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir gan y pedwar diben"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Dealltwriaeth gyffredin o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru (athrawon)

Roedd athrawon yn gyffredinol yn cytuno â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi eu barn bod dealltwriaeth gyffredin o'r agweddau hyn o'r Cwricwlwm i Gymru ymhlith staff yn eu hysgol. Ar gyfer pob un o'r datganiadau, roedd y mwyafrif (dros 58%) o athrawon naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl ddatganiadau, yr un ynglŷn â dealltwriaeth athrawon o gynnydd dysgwyr wnaeth dderbyn y gyfran uchaf o ymatebion anghytuno neu anghytuno'n gryf, gyda 12% yn anghytuno bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gynnydd dysgwr.

Canfyddiadau: Dealltwriaeth gyffredin o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru (athrawon)

Athrawon


Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno bod dealltwriaeth gyffredin o:

- "beth mae'n ei olygu i gael cwricwlwm cynhwysol" (80% yn cytuno, 8% yn anghytuno)

- "gynnydd dysgwyr" (76% yn cytuno, 12% yn anghytuno)
- "sut mae ein cwricwlwm yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir gan y pedwar diben" (73% yn cytuno, 8% yn anghytuno)

Ffigur 42: Dealltwriaeth gyffredin o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: Mewn perthynas ag athrawon, uwch arweinwyr a'r rhai sy'n cynorthwyo gydag addysgu yn eich ysgol, ymhlith staff yn fy ysgol mae dealltwriaeth gyffredin o...?



33. Dysgu a chymorth proffesiynol (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg oedd â phrif rôl fel arweinydd canol, athro, cynorthwyydd dysgu neu arall (nododd 16% o'r rhain eu bod yn aelodau o uwch dîm arweinyddiaeth eu hysgol) i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am y dysgu proffesiynol neu'r gefnogaeth oedd ar gael iddynt wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys dysgu neu gymorth proffesiynol a ddarparwyd yn yr ysgol, yn allanol neu ar-lein gan athrawon ac eraill (er enghraifft awdurdod lleol, consortiwm rhanbarthol neu bartneriaeth). Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae gen i fynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel"
- "Rwyf wedi bod yn rhan o ddigon o ddysgu proffesiynol i ddiwallu fy anghenion"
- "Mae'r holl ddysgu proffesiynol rwyf wedi bod yn rhan ohono wedi bod o ansawdd uchel, yn fy marn i"
- "Mae'r canllawiau lefel-ysgol, y gefnogaeth a'r adnoddau rwyf wedi'u defnyddio wedi diwallu fy anghenion"
- "Mae cefnogaeth gan bartneriaid cymorth addysg wedi diwallu fy anghenion"
- "Mae'r canllawiau ehangach (e.e. ar Hwb), y cymorth a'r adnoddau rwyf wedi'u defnyddio wedi diwallu fy anghenion"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Dysgu a chymorth proffesiynol (athrawon)

Roedd gan athrawon farn gymysg mewn perthynas â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi lefelau amrywiol o foddhad â dysgu a chymorth proffesiynol. Ar gyfer pump o'r datganiadau, roedd tua hanner (rhwng 45% a 56%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Ar gyfer un datganiad, cytunodd 40% neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl ddatganiadau, roedd y lefel uchaf o anghytundeb mewn perthynas â chyfranogiad athrawon â digon o ddysgu proffesiynol i ddiwallu eu hanghenion, gyda 28% yn anghytuno eu bod wedi bod yn rhan o ddigon o ddysgu proffesiynol.

Canfyddiadau: Dysgu a chymorth proffesiynol (athrawon)

Arweinwyr canol, athrawon, gweithiwr cymorth dysgu ac eraill

Roedd mwyafrif yr athrawon yn cytuno â'r datganiad "Mae gen i fynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel" (60% yn cytuno, 18% yn anghytuno).

Nododd tua hanner yr athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:


- "Mae'r holl ddysgu proffesiynol rwyf wedi bod yn rhan ohono wedi bod o ansawdd uchel, yn fy marn i" (57% yn cytuno, 19% yn anghytuno)
- "Mae'r canllawiau lefel-ysgol, y gefnogaeth a'r adnoddau rydw i wedi'u defnyddio wedi diwallu fy anghenion" (55% yn cytuno, 18% yn anghytuno)
- "Rwyf wedi cymryd rhan mewn digon o ddysgu proffesiynol i ddiwallu fy anghenion" (51% yn cytuno, 28% yn anghytuno)
- "Mae'r canllawiau ehangach (e.e. ar Hwb), y gefnogaeth a'r adnoddau rydw i wedi'u defnyddio wedi diwallu fy anghenion" (44% yn cytuno, 22% yn anghytuno)

Nododd lleiafrif o athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae cefnogaeth gan bartneriaid cymorth addysg wedi diwallu fy anghenion" (39% yn cytuno, 18% yn anghytuno)

Ffigur 43: Dysgu a chymorth proffesiynol

Ymatebion arweinwyr canol, athrawon ac ymatebwyr eraill i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol mewn perthynas â'r dysgu proffesiynol neu'r cymorth sydd ar gael i chi wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru?



34. Cymorth system (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynghylch sut yr oedd y system addysg yn eu cefnogi i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae'r system arolygu ysgolion yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru"
- "Mae'r ffordd o ddatblygu cymwysterau newydd ar gyfer dysgwyr 14–16 oed yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru"
- "Mae digon o gyllid wedi'i glustnodi i gefnogi'r gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru"
- "Mae digon o amser wedi'i neilltuo i gefnogi gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru"
- "Mae arweinyddiaeth o safon ar draws y system addysg i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru "[28]
- "Mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu, Arweinyddiaeth a Chynorthwyo Addysgu yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru "
- "Mae digon o wybodaeth ar gael i mi i alluogi hunan-arfarnu effeithiol i gefnogi gweithredu Cwricwlwm i Gymru"[29]

Crynodeb o'r canfyddiadau: Cymorth system (athrawon)

Cytunodd lleiafrif o athrawon â phedwar o'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi eu lefel o foddhad o ran y system addysg a sut mae'n cefnogi gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Cytunodd lleiafrif bach o athrawon â thri o'r datganiadau yn y cwestiwn hwn.

[28] Darparwyd nodyn gwybodaeth ar gyfer yr opsiwn hwn yn nodi "mae'r 'system addysg' yn cyfeirio at rôl Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, consortia / partneriaethau rhanbarthol, Estyn a rhanddeiliaid eraill wrth gefnogi ysgolion".

[29] Darparwyd nodyn gwybodaeth ar gyfer yr opsiwn hwn yn nodi "Gallai gwybodaeth o'r fath gynnwys canllawiau fel yr 'Adnodd cenedlaethol: gwerthuso a gwella', a/neu ddata am eich ysgol (wedi'i goladu gan eich ysgol neu bartneriaid eraill)".

Gwelwyd y gyfran uchaf o ymatebion oedd yn anghytuno neu anghytuno'n gryf ar gyfer y datganiad ynghylch cyllid i gefnogi gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru, gyda 72% o'r ymatebwyr yn anghytuno bod cyllid yn ddigonol.

Canfyddiadau: Cymorth system (athrawon)

Athrawon

Nododd lleiafrif o athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu, Arweinyddiaeth a Chynorthwyo Addysgu yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru" (36% yn cytuno, 15% yn anghytuno)
- "Mae digon o wybodaeth ar gael i mi alluogi hunan-arfarnu effeithiol i gefnogi gweithredu Cwricwlwm i Gymru" (31% yn cytuno, 27% yn anghytuno)
- "Mae'r system arolygu ysgolion yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru" (24% yn cytuno, 18% yn anghytuno)
- "Mae arweinyddiaeth o safon ar draws y system addysg i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru" (22% yn cytuno, 40% yn anghytuno)

Nododd lleiafrif bach o athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "Mae'r ffordd o ddatblygu cymwysterau newydd ar gyfer dysgwyr 14–16 oed yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru" (15% yn cytuno, 16% yn anghytuno)
- "Mae digon o amser wedi'i neilltuo i gefnogi gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru" (10% yn cytuno, 68% yn anghytuno)
- "Mae digon o gyllid wedi'i glustnodi i gefnogi gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru" (4% yn cytuno, 72% yn anghytuno)

Ffigur 44: Cefnogaeth system

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol mewn perthynas â sut mae'r system addysg ehangach yn cefnogi'r gwaith o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru?



35. Dulliau ysgolion a UC Dau o gynllunio cwricwlwm (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau roedd y ffordd o gynllunio'r cwricwlwm yn eu hysgol wedi cynnwys cyfres o gamau gweithredu. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Ddim o gwbl" i "Llawer iawn". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau y mae'r dull o gynllunio cwricwlwm yn eu hysgol wedi cynnwys:

- "dysgu o ymholi proffesiynol"^[30]
- "defnyddio ymchwil addysgol"
- "rhannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws rhwydweithiau lleol neu glwstwr"
- "rhannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws rhwydweithiau rhanbarthol neu genedlaethol"
- "cyd-weithio â sefydliadau addysg bellach ac uwch"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Dulliau ysgolion ac UC Dau o gynllunio cwricwlwm (athrawon)

Adroddodd tua hanner yr athrawon bod "llawer iawn" neu "gryn dipyn" o gyfranogiad wedi bod ar gyfer tri o'r pum datganiad yn y cwestiwn. Adroddodd lleiafrif (20%) bod "llawer iawn" neu "gryn dipyn" o gyfranogiad wedi bod mewn perthynas ag un datganiad allan o'r pump a lleiafrif bach bod cyfranogiad wedi bod ar gyfer yr un datganiad oedd yn weddill yn y cwestiwn hwn.

O'r holl ddatganiadau, yr un ynglŷn â phartneriaeth â sefydliadau addysg bellach ac uwch dderbyniodd y gyfran uchaf o ymatebion "ddim o gwbl", gyda 31% yn nodi nad oedd cynllunio cwricwlwm yn eu hysgol wedi ymwneud â gweithio gyda phartneriaid addysg bellach ac uwch.

[30] Nododd nodyn gwybodaeth wrth ymyl yr opsiwn hwn "Mae ymholi proffesiynol yn ymchwil gydweithredol gan athrawon neu arweinwyr ysgolion i ymchwilio i syniadau addysgol newydd, rhoi cynnig ar arferion newydd i ddarganfod beth sy'n gweithio yn eu sefyllfaoedd eu hunain, a rhannu'r canfyddiadau gyda chydweithwyr"

Canfyddiadau: Dulliau ysgolion ac UC Dau o gynllunio cwricwlwm (athrawon)

Athrawon

Nododd tua hanner yr athrawon fod ffordd eu hysgol o gynllunio'r cwricwlwm yn cynnwys:

- "rhannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws rhwydweithiau lleol neu glystyrau" (nododd 49% gryn dipyn i lawer o gyfranogiad, nododd 7% dim cyfranogiad)
- "dysgu o ymholi proffesiynol" (nododd 44% gryn dipyn neu lawer o gyfranogiad, nododd 6% dim cyfranogiad)
- "defnyddio ymchwil addysgol" (nododd 41% gryn dipyn neu lawer o gyfranogiad, nododd 8% dim cyfranogiad)

Nododd lleiafrif o athrawon fod ffordd eu hysgol o gynllunio cwricwlwm yn cynnwys:


- "rhannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws rhwydweithiau rhanbarthol neu genedlaethol" (nododd 19% gryn dipyn neu lawer iawn o gyfranogiad, 18% dim cyfranogiad)

Nododd lleiafrif bach o athrawon fod ffordd eu hysgol o gynllunio'r cwricwlwm yn cynnwys:

- "cyd-weithio â sefydliadau addysg bellach ac uwch" (nododd 10% gryn dipyn neu lawer iawn o gyfranogiad, nododd 31% dim cyfranogiad)

Ffigur 45: Dulliau ysgolion o gynllunio cwricwlwm

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: I ba raddau y mae'r ffordd o gynllunio cwricwlwm yn eich ysgol wedi cynnwys...



36. Newidiadau i arfer (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am newidiadau sylweddol i'w harfer nhw neu i athrawon yn eu hysgol (gweler pennod 3 am wybodaeth am yr amrywiadau cwestiynau a gyflwynwyd i ymatebwyr oedd yn addysgu a rhai nad oeddent yn addysgu). Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i athrawon i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod wedi gwneud newidiadau sylweddol, lle'n briodol, i:

- "fy nghynllunio"
- "y dulliau addysgu/dysgu rwy'n eu defnyddio"
- "y gweithgareddau addysgu/dysgu rwy'n eu defnyddio"
- "yr adnoddau rwy'n eu defnyddio yn fy addysgu"
- "cynnwys/pynciau/themâu fy addysgu"
- "ffocws asesu dysgwyr"
- "fy nulliau o asesu dysgwyr"
- "sut rydw i'n diwallu anghenion pob dysgwr unigol i'w galluogi i wneud cynnydd ar gyflymder priodol"

Gofynnwyd i staff nad oeddent yn addysgu (ymatebwyr a ddywedodd nad oedd ganddynt gyfrifoldebau addysgu na chefnogaeth gydag addysgu hefyd) i ba raddau yr oeddent yn cytuno bod athrawon yn eu hysgol wedi gwneud newidiadau sylweddol i:

- "ddogfennaeth gynllunio"
- "y dulliau dysgu a ddefnyddir"
- "y gweithgareddau dysgu a ddefnyddir"
- "yr adnoddau a ddefnyddir wrth addysgu"
- "y cynnwys/pynciau/themâu a addysgir"
- "ffocws asesu dysgwyr"
- "yr ymagwedd tuag at asesu dysgwyr"

- "sut maent yn diwallu anghenion pob dysgwr unigol i'w galluogi i wneud cynnydd ar gyflymder priodol"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Newidiadau i arfer (athrawon)

Roedd athrawon yn gyffredinol yn cytuno â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi eu bod wedi gwneud newidiadau sylweddol, lle'n briodol, i'w harfer. Ar gyfer pob datganiad, roedd dros 54% o athrawon naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl ddatganiadau, yr un ynglŷn â'r adnoddau a ddefnyddiwyd mewn addysgu oedd â'r gyfran uchaf o ymatebion anghytuno/anghytuno'n gryf, gyda 16% yn nodi nad oeddent wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r adnoddau a ddefnyddiwyd.

Canfyddiadau: Newidiadau i arfer (athrawon)

Athrawon

Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno eu bod wedi gwneud newidiadau sylweddol, lle'n briodol, i'r canlynol:


- "cynnwys/pynciau/themâu fy addysgu" (69% yn cytuno, 12% yn anghytuno)
- "y gweithgareddau addysgu/dysgu rwy'n eu defnyddio" (64% yn cytuno, 12% yn anghytuno)
- "y dulliau addysgu/dysgu rwy'n eu defnyddio" (60% yn cytuno, 15% yn anghytuno)
- "sut rydw i'n diwallu anghenion pob dysgwr unigol i'w galluogi i wneud cynnydd ar gyflymder priodol" (60% yn cytuno, 15% yn anghytuno)
- "fy nghynllunio" (59% yn cytuno, 9% yn anghytuno)

Nododd tua hanner yr athrawon eu bod yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

- "ffocws asesu dysgwyr" (58% yn cytuno, 13% yn anghytuno)
- "fy nulliau o asesu dysgwyr" (57% yn cytuno, 13% yn anghytuno)
- "yr adnoddau rydw i'n defnyddio yn fy addysgu" (54% yn cytuno, 16% yn anghytuno)

Ffigur 46: Newidiadau i arfer

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Lle bo'n briodol rwyf wedi gwneud newidiadau sylweddol i...



Staff eraill

Nododd y mwyafrif o staff eraill eu bod yn cytuno bod athrawon yn eu hysgol wedi gwneud newidiadau sylweddol, lle'n briodol, i'r canlynol:

- "y dulliau dysgu a ddefnyddir" (68% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "ddogfennaeth gynllunio" (60% yn cytuno, 1% yn anghytuno)

Nododd tua hanner y staff eraill eu bod yn cytuno bod athrawon yn eu hysgol wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r canlynol:

- "y cynnwys/pynciau/themâu a addysgir" (58% yn cytuno, 14% yn anghytuno)
- "y gweithgareddau dysgu a ddefnyddir" (56% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "ffocws asesu dysgwyr" (49% yn cytuno, 12% yn anghytuno)
- "yr ymagwedd tuag at asesu dysgwyr" (45% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- "sut maent yn diwallu anghenion pob dysgwr unigol i'w galluogi i wneud cynnydd ar gyflymder priodol" (41% yn cytuno, 10% yn anghytuno)

Nododd lleiafrif o staff eraill eu bod yn cytuno bod athrawon yn eu hysgol wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r canlynol:

- "yr adnoddau a ddefnyddir wrth addysgu" (36% yn cytuno, 6% yn anghytuno)

Ymatebion testun agored: Newidiadau i arfer (athrawon)

Ymhlith yr athrawon wnaeth gynnig ymatebion i'r cwestiwn testun agored dewisol (52 allan o 438 o athrawon (lle nad oedd 6 o'r 444 o athrawon yn ateb y cwestiwn meintiol blaenorol) y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- galwad am arweiniad a chyfarwyddyd cliriach ar asesu a chynnydd, gan gynnwys sut i olrhain a monitro asesu a chynnydd a sylwadau yn nodi bod amwysedd canfyddedig ynghylch asesu a chynnydd wedi ei gwneud hi'n anodd esbonio dulliau i rieni/gofalwyr
- nad oeddent wedi newid eu harfer ers cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd y sylwadau yn cynnwys sut roedd y Cwricwlwm i Gymru yn debyg i'r hyn yr oeddent eisoes yn ei wneud, gan gynnwys diwallu anghenion dysgwyr unigol, oedd yn golygu nad oedd angen iddynt wneud llawer o newidiadau

- diffyg adnoddau ariannol ar gyfer: staff cymorth a allai eu galluogi i dreulio amser ar ddatblygu'r cwricwlwm yn dda ac i ddarparu profiadau dilys i ddysgwyr
- pryderon ynglŷn â'r Cwricwlwm i Gymru neu addysg yn ehangach. Roedd y pryderon a godwyd yn amrywiol ac yn cynnwys mwy o faich gwaith a diffyg amser i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, diffyg safoni ar draws ysgolion a safonau addysgol yn ehangach a phryderon ynglŷn ag ansicrwydd os oedd yr hyn yr oeddent yn ei wneud yn gywir ai peidio

37. Agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau yn ymwneud â gwireddu elfennau gorfodol y cwricwlwm, sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben, sgiliau trawsgwricwlaidd a themâu trawsgwricwlaidd. Yn gyntaf, gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod fy arfer addysgu yn adlewyrchu'r elfennau canlynol o'r cwricwlwm", gyda sawl agwedd o'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i restru o dan y datganiad.^[31] Roedd opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn hyderus bod eu harfer addysgu yn adlewyrchu:

- "Y pedwar diben"
- "Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig"
- "Y 12 egwyddor addysgegol"
- "Yr egwyddorion cynnydd"
- "Y disgrifiadau dysgu"

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod fy arfer addysgu yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau canlynol...", gyda'r sgiliau yn hanfodol i'r pedwar diben a restrir o dan y datganiad.^[Troednodyn32] Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn hyderus bod eu harfer addysgu yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu eu hunain:

- "Creadigrwydd ac arloesi"^[33]

[31] Gofynnwyd i'r rhai nad oedd ganddynt gyfrifoldebau addysgu nac yn cynorthwyo gydag addysgu i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Mae arferion addysgu yn fy ysgol yn adlewyrchu'r elfennau canlynol o'r cwricwlwm:", ac yna'r un elfennau cwricwlwm.

[32] Gofynnwyd i'r rhai nad oedd ganddynt gyfrifoldebau addysgu nac yn cynorthwyo gydag addysgu i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod arferion addysgu yn fy ysgol yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau canlynol...", ac yna pob un o'r sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben.

[33] Nododd nodyn gwybodaeth wrth ymyl yr opsiwn hwn "e.e. bod yn chwilfrydig ac yn chwilfrydig; cynhyrchu syniadau; cysylltu profiadau, gwybodaeth a sgiliau gwahanol; nodi cyfleoedd".

- "Meddwl yn feirniadol a datrys problemau"^[34]
- "Effeithiolrwydd personol"^[35]
- "Cynllunio a threfnu"^[36]

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn...", ac yna rhestr o sgiliau trawsgwricwlaidd ac elfennau gorfodol. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn hyderus bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:

- "Cymhwysedd Digidol"
- "Saesneg"
- "Llythrennedd"
- "Rhifedd"
- "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg"
- "Cymraeg"

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd yn...", ac yna pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn hyderus bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:

- "Celfyddydau Mynegiannol"
- "Iechyd a Lles"
- "Dyniaethau"

[34] Nododd nodyn gwybodaeth wrth ymyl yr opsiwn hwn "e.e. gallu gofyn cwestiynau ystyrlon, gwerthuso gwybodaeth, tystiolaeth a sefyllfaoedd, dadansoddi a chyfiawnhau atebion posibl, cydnabod materion a phroblemau posibl. Dod yn wrthrychol yn eu penderfyniadau, adnabod a datblygu dadleuon".

[33] Nododd nodyn gwybodaeth wrth ymyl yr opsiwn hwn "e.e. deallusrwydd emosiynol, ymwybyddiaeth, annibyniaeth, cyfleoedd i arwain dadl a thrafodaethau, ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol, diwylliannol a moesegol a'r gallu i werthuso eu dysgu."

[34] Nododd nodyn gwybodaeth wrth ymyl yr opsiwn hwn "e.e. gallu gosod nodau, gwneud penderfyniadau a monitro canlyniadau interim; myfyrio ac addasu, yn ogystal â rheoli amser, pobl ac adnoddau; gwirio am gywirdeb a chreu gwahanol fathau o werth."

- "leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu"
- "Mathemateg a Rhifedd"
- "Gwyddoniaeth a Thechnoleg"

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd yn...", ac yna pob un o'r themâu trawsbynciol Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn hyderus bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:

- "Gyrfaedd a Phrofiadau sy'n gysylltiedig â Gwaith"
- "Amrywiaeth"
- "Addysg Hawliau Dynol"
- "Cydd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol"
- "Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb"

Crynodeb o'r canfyddiadau: agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith (athrawon)

Roedd athrawon yn gyffredinol yn cytuno â'r datganiadau ynghylch agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu hadlewyrchu yn eu harfer ac yn yr un modd ar gyfer y datganiadau ar arferion oedd yn cefnogi sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben. Ar gyfer pob datganiad, roedd y mwyafrif (dros 58%) o athrawon naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf. Roedd athrawon hefyd yn cytuno yn gyffredinol bod y cwricwlwm eu hysgol yn cael ei wireddu mewn ffordd oedd yn cefnogi cynnydd dysgwyr mewn meysydd unigol o'r cwricwlwm, gyda mwyafrif yn cytuno ar gyfer yr holl feysydd hyn heblaw am un.

Ar gyfer y datganiadau ar arferion sy'n cefnogi datblygiad dysgwyr, y datganiad ar greadigrwydd ac arloesi oedd â'r gyfran uchaf o ymatebion wnaeth anghytuno neu anghytuno'n gryf. Ar gyfer pob un o'r meysydd cwricwlwm yr ymdriniwyd â nhw, y datganiad ar yrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith oedd â'r gyfran uchaf o ymatebion wnaeth anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, gyda 20% o uwch arweinwyr yn anghytuno.

Canfyddiadau: agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith (athrawon)

Athrawon


Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus bod eu harfer addysgu yn adlewyrchu:

- "Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig" (72% yn cytuno, 6% yn anghytuno)
- "Y pedwar diben" (72% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "Y disgrifiadau dysgu" (72% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "Yr egwyddorion cynnydd" (63% yn cytuno, 6% yn anghytuno)

Dywedodd tua hanner yr athrawon eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus bod eu harfer addysgu yn adlewyrchu'r "12 egwyddor addysgeg" (58% yn cytuno, 6% yn anghytuno).

Ffigur 47. Agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod fy ymarfer addysgu yn adlewyrchu'r elfennau canlynol o'r cwricwlwm:"




Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:

- "Meddwl yn feirniadol a datrys problemau" (76% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "Creadigrwydd ac arloesi" (75% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "Effeithiolrwydd personol" (74% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "Cynllunio a threfnu" (71% yn cytuno, 3% yn anghytuno)

Ffigur 48. Cefnogi sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod fy ymarfer addysgu yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau canlynol:"




Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:

- "Saesneg" (76% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "Cymraeg" (70% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg" (60% yn cytuno, 12% yn anghytuno)

Ffigur 49. Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru A

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:"




Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:

- "Llythrennedd" (84% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "Rhifedd" (80% yn cytuno, 6% yn anghytuno)
- "Cymhwysedd Digidol" (72% yn cytuno, 10% yn anghytuno)

Ffigur 50. Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru B

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:"




Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno bod y cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn:

- "Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu" (81% yn cytuno, 4% yn anghytuno)
- "Mathemateg a Rhifedd" (80% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "Iechyd a Lles" (78% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- "Gwyddoniaeth a Thechnoleg" (70% yn cytuno, 8% yn anghytuno)
- "Dyniaethau" (69% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- "Celfyddydau Mynegiannol" (68% yn cytuno, 11% yn anghytuno)

Ffigur 51. Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru C

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:"



Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno bod y cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn:


- "Amrywiaeth" (68% yn cytuno, 9% yn anghytuno)
- "Addysg Hawliau Dynol" (66% yn cytuno, 9% yn anghytuno)
- "Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb" (60% yn cytuno, 8% yn anghytuno)
- "Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol" (60% yn cytuno, 8% yn anghytuno)

Nododd lleiafrif o athrawon eu bod yn cytuno bod y cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn:

- "Gyrfaedd a Phrofiadau sy'n gysylltiedig â Gwaith" (36% yn cytuno, 20% yn anghytuno)

Ffigur 52. Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru D

Ymatebion i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn:"



Staff eraill

Nododd y mwyafrif o staff eraill ³⁷ eu bod yn cytuno bod yr agweddau canlynol o'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu hadlewyrchu yn ymarferol yn eu hysgol:

- "y 12 egwyddor addysgeg" (76% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "yr egwyddorion cynnydd" (68% yn cytuno, 10% yn anghytuno)
- "y disgrifiadau dysgu" (66% yn cytuno, 10% yn anghytuno)

[37] Roedd y rhain yn cynnwys y rhai a ddywedodd eu bod yn athro myfyriwr, arweinydd bugaillol, gweithiwr ieuencid, cydlynnydd ADY cynorthwyol, gweinyddwr neu lywodraethwr ysgol.

- "y pedwar diben" (65% yn cytuno, 11% yn anghytuno)
- "y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig " (63% yn cytuno, 10% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o staff eraill eu bod yn cytuno bod cwricwlwm eu hysgol yn cefnogi datblygu:

- "creadigrwydd ac arloesedd" (64% yn cytuno, 17% yn anghytuno)
- "cynllunio a threfnu" (54% yn cytuno, 10% yn anghytuno)
- "effeithiolrwydd personol" (53% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- "meddwl yn feirniadol a datrys problemau" (51% yn cytuno, 11% yn anghytuno)

38. Arferion addysgegol (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â datganiadau sy'n ymwneud â'u harfer addysgeg, neu athrawon yn eu hysgol. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer...":

- "yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr"
- "yn defnyddio cyfuniad o ddulliau"
- "adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol"
- "yn ennyn diddordeb dysgwr"
- "yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu"
- "yn annog dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu"
- "yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu"
- "yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol"
- "yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol"
- "yn annog cydweithio"
- "yn cynnwys pob dysgwr"

Gofynnwyd i staff nad oedd yn addysgu (y rhai a ddywedodd nad oedd ganddynt gyfrifoldebau addysgu na chefnogaeth gydag addysgu hefyd) i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod arferion addysgu yn fy ysgol..."

- "yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr"
- "yn defnyddio cyfuniad o ddulliau"
- "yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol"
- "yn ennyn diddordeb dysgwr"
- "yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu"
- "yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu"
- "yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu"

- "yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol"
- "yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol"
- "yn annog cydweithio"
- "yn cynnwys pob dysgwr"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Arferion addysgegol (athrawon)

Roedd athrawon yn gyffredinol yn cytuno â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi eu hyder yn eu harferion addysgeg. Ar gyfer pob datganiad, roedd y mwyafrif (dros 58%) o athrawon naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

Ar draws pob datganiad, roedd cyfraddau anghytundeb yn isel. Y datganiad gyda'r gyfran uchaf o ymatebion oedd yn anghytuno oedd bod 5% o athrawon yn dewis anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod eu harferion addysgu yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu.

Canfyddiadau: Arferion addysgegol (athrawon)

Athrawon

Nododd y mwyafrif helaeth o athrawon eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus eu harfer addysgu:


- "yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol" (94% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "yn defnyddio cyfuniad o ddulliau" (92% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "yn ennyn diddordeb dysgwyr" (90% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "yn annog cydweithio" (89% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol" (89% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr" (89% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "yn cynnwys pob dysgwr" (88% yn cytuno, 2% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus bod eu harferion addysgu:

- "yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu" (84% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol" (84% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu" (81% yn cytuno, 3% yn anghytuno)
- "yn annog dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu" (80% yn cytuno, 5% yn anghytuno)

Ffigur 53. Arferion addysgegol

Athrawon yn ymateb i'r cwestiwn: "Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy arfer..."



Staff eraill

Roedd y mwyafrif o staff eraill yn cytuno eu bod yn hyderus bod arferion addysgu yn eu hysgol:

- "yn annog cydweithio" (80% yn cytuno, 2% yn anghytuno)

- "yn cynnwys pob dysgwr" (80% yn cytuno, 0% yn anghytuno)
- "yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol" (78% yn cytuno, 0% yn anghytuno)
- "yn ennyn diddordeb dysgwr" (78% yn cytuno, 0% yn anghytuno)
- "yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol" (76% yn cytuno, 0% yn anghytuno)
- "yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr" (75% yn cytuno, 1% yn anghytuno)
- "yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu" (75% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "yn defnyddio cyfuniad o ddulliau" (71% yn cytuno, 0% yn anghytuno)
- "yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol" (70% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu" (67% yn cytuno, 5% yn anghytuno)

Roedd tua hanner y staff eraill yn cytuno eu bod yn hyderus bod arferion addysgu yn eu hysgol:

- "yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu" (57% yn cytuno, 0% yn anghytuno)

39. Cynnydd ac asesu (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau am gynnydd ac asesu. Roedd yr opsiynau ymateb yn amrywio o "Cytuno'n gryf" i "Anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod fy ymarfer asesu..."

- "yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol"
- "yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu"
- "yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr"
- "yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu"
- "yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd" ^[38]
- "yn adeiladu darlun o ddatblygiad y dysgwr"
- "yn defnyddio ystod eang o ddulliau asesu"
- "yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn"

Gofynnwyd i staff nad oedd yn addysgu i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus bod arferion asesu yn fy ysgol ..."

- "yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol"
- "yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu"
- "yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr"
- "yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu"
- "yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd"
- "yn adeiladu darlun o ddatblygiad y dysgwr"
- "yn defnyddio ystod eang o ddulliau o asesu"
- "yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn"

[38] Nododd nodyn gwybodaeth wrth ymyl yr opsiwn hwn "Dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr wedi ei gyrraedd drwy gydweithio â chydweithwyr yn eich ysgol neu glwstwr".

Crynodeb o'r canfyddiadau: Cynnydd ac asesu (athrawon)

Roedd athrawon yn gyffredinol yn cytuno â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi eu bod yn teimlo bod eu harferion asesu yn cyd-fynd â'r egwyddorion yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Ar gyfer pob datganiad roedd mwyafrif (dros 58%) o athrawon yn cytuno neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl ddatganiadau, y datganiad ynghylch helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn oedd â'r gyfran uchaf o ymatebion wnaeth anghytuno ymhlith athrawon, gyda 15% o athrawon yn dewis anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Canfyddiadau: Cynnydd ac asesu (athrawon)

Athrawon

Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno bod eu harfer asesu:

- "yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr" (81% yn cytuno, 6% yn anghytuno)
- "yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu" (76% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- "yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol" (73% yn cytuno, 10% yn anghytuno)
- "yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu" (69% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- "yn adeiladu darlun o ddatblygiad y dysgwr" (69% yn cytuno, 8% yn anghytuno)
- "yn adlewyrchu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd" (67% yn cytuno, 8% yn anghytuno)
- "yn defnyddio ystod eang o ddulliau o asesu" (67% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- "yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn" (60% yn cytuno, 15% yn anghytuno)

Ffigur 54. Cynnydd ac asesu

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus bod fy arferion asesu..."



Staff eraill

Nododd y mwyafrif o staff eraill eu bod yn cytuno bod eu harfer asesu:

- "yn adeiladu darlun o ddatblygiad dysgwyr" (68% yn cytuno, 10% yn anghytuno)
- "yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu" (68% yn cytuno, 8% yn anghytuno)
- "yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn" (66% yn cytuno, 12% yn anghytuno)
- "yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol" (63% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr" (62% yn cytuno, 10% yn anghytuno)
- "yn adlewyrchu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd" (60% yn cytuno, 10% yn anghytuno)
- "yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu" (58% yn cytuno, 10% yn anghytuno)
- "yn defnyddio ystod eang o ddulliau o asesu" (57% yn cytuno, 10% yn anghytuno)

40. Galluogi Dysgu (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u dull o alluogi dysgu. Roedd yr ymatebion yn amrywio o "cytuno'n gryf" i "anghytuno'n gryf". Yn benodol, gofynnwyd i athrawon i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn hyderus yn y canlynol:

- "fy ngallu i ddefnyddio arfer sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr"
- "fy ngallu i ddarparu profiadau dysgu sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr"
- "fy nghapasiti i sylwi, dadansoddi ac ymateb i anghenion dysgwyr unigol i gefnogi cynnydd"
- "yn defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel rhan o'm harferion addysgu a dysgu"
- "yn gwneud y defnydd gorau o'r manau dan do sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Galluogi Dysgu (athrawon)

Roedd athrawon yn gyffredinol yn cytuno â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi eu hyder ar eu dull o alluogi dysgu. Ar gyfer 4 o'r 5 datganiad, roedd y mwyafrif (dros 58%) o athrawon naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

Allan o'r holl ddatganiadau, yr un ynglŷn â defnyddio'r amgylchedd awyr agored oedd â'r gyfran uchaf o ymatebion wnaeth anghytuno ymhlith athrawon, gyda 23% o athrawon yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Canfyddiadau: Galluogi Dysgu (athrawon)

Athrawon

Nododd y mwyafrif helaeth o athrawon eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus yn:

- "fy ngallu i ddefnyddio arfer sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr" (88% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "fy ngallu i ddarparu profiadau dysgu sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr" (87% yn cytuno, 2% yn anghytuno)
- "fy nghapasiti i sylwi, dadansoddi ac ymateb i ddysgwyr unigol i gefnogi cynnydd" (86% yn cytuno, 3% yn anghytuno)

Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus yn:


- "gwneud y defnydd gorau o'r manau dan do sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu" (72% yn cytuno, 9% yn anghytuno)

Dywedodd tua hanner yr athrawon eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus yn:

- "defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel rhan o'm harferion addysgu a dysgu" (56% yn cytuno, 23% yn anghytuno)

Ffigur 55. Galluogi dysgu

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: "I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus yn..."



41. Ymholi proffesiynol (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u dull o ymholi proffesiynol.

- "Ydych chi wedi bod yn rhan o ymholi proffesiynol yn eich ysgol?"
- "I ba raddau y mae ymholi proffesiynol yn cael ei annog yn eich ysgol?"

Gofynnwyd wedyn i ymatebwyr a nododd eu bod wedi bod yn ymwneud ag ymholi proffesiynol i ba raddau y cytunwyd ar yr ymholi proffesiynol hwnnw yn eu hysgol:

- "yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd addysgeg ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol"
- "yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd asesu ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol"
- "yn cynnwys cydweithio"
- "yn defnyddio canfyddiadau o ymchwil perthnasol"
- "yn archwilio achosion problemau sy'n ein hwynebu yn ein hymarfer"
- "yn arwain at gwir welliannau mewn ymarfer"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Ymholi proffesiynol (athrawon)

Dywedodd tua hanner yr athrawon eu bod wedi bod yn ymwneud ag ymholi proffesiynol. Nododd y mwyafrif o athrawon fod ymholi proffesiynol yn cael ei annog llawer neu lawer yn eu hysgol. Roedd athrawon a oedd wedi bod yn ymwneud ag ymholi proffesiynol yn gyffredinol yn cytuno â'r datganiadau ar ymholi proffesiynol, gan nodi eu barn ar yr ymholi proffesiynol y maent wedi bod yn ymwneud ag ef. Ar gyfer pob un ond un o'r datganiadau, roedd y mwyafrif (dros 58%) o athrawon naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl ddatganiadau, hynny o ran archwilio achosion problemau sy'n cael eu hwynebu yn ymarferol oedd â'r gyfran uchaf o ymatebion anghytuno ar gyfer athrawon, gyda 12% o athrawon yn dewis anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.


Canfyddiadau: Ymholi proffesiynol (athrawon)

Athrawon

Dywedodd tua hanner yr athrawon eu bod wedi bod yn rhan o ymholiadau proffesiynol yn eu hysgol (47% yn cytuno, 53% yn anghytuno)

Ffigur 56. Cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol


Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: "Ydych chi wedi bod yn rhan o ymholi proffesiynol yn eich ysgol?"



Nododd y mwyafrif o athrawon fod ymholi proffesiynol yn cael ei annog "llawer" neu "llawer iawn" (71% llawer iawn neu lawer, 29% ychydig)

Ffigur 57. Annog ymholi proffesiynol

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: "I ba raddau y mae ymholi proffesiynol yn cael ei annog yn eich ysgol?"



Ymhlith ymatebwyr a nododd eu bod wedi bod yn ymwneud ag ymholi proffesiynol, nododd mwyafrif yr athrawon eu bod yn cytuno bod ymholi proffesiynol yn eu hysgol:

- "yn cynnwys cydweithio" (82% yn cytuno, 6% yn anghytuno)
- "yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd addysgeg ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol" (cytunodd 73%, anghytunodd 6%)
- "yn defnyddio canfyddiadau o ymchwil perthnasol" (69% yn cytuno, 8% yn anghytuno)
- "yn archwilio achosion problemau sy'n ein hwynebu yn ein hymarfer" (66% yn cytuno, 12% yn anghytuno)
- "yn arwain at gwir welliannau mewn ymarfer" (63% yn cytuno, 10% yn anghytuno)

Ymhlith ymatebwyr a nododd eu bod wedi bod yn ymwneud ag ymholi proffesiynol, nododd tua hanner yr athrawon eu bod yn cytuno bod ymholi proffesiynol yn eu hysgol:

- "yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd asesu ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol" (56% yn cytuno, 12% yn anghytuno)

Ffigur 58. Ymholi proffesiynol

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: "I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol? Yn fy ysgol, mae ymholi proffesiynol..."



42. Cyfraniad i'r cwricwlwm (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u cyfraniad i'r cwricwlwm yn eu hysgol.

Mae nghyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn fy ysgol...

- "yn gwneud i mi deimlo bod gen i ddylanwad"
- "yn gwneud i mi deimlo'n werthfawr"
- "yn gwneud i mi deimlo'n frwdfrydig yn fy ngwaith"
- "wedi ei lywio gan fy mhrofiadau yn y gorffennol"
- "wedi ei gefnogi gan berthnasoddd gwaith cadarnhaol"
- "wedi ei gefnogi gan ansawdd yr amgylchedd ffisegol rwy'n gweithio ynddo"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Cyfraniad i'r cwricwlwm (athrawon)

Roedd athrawon yn gyffredinol yn cytuno â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan ddangos bod ganddynt ganfyddiadau cadarnhaol mewn perthynas â'u cyfraniadau at gynllunio a datblygu'r cwricwlwm. Ar gyfer pob datganiad ar gyfraniadau'r cwricwlwm, roedd dros 55% o athrawon naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf.

O'r holl ddatganiadau, yr un mewn perthynas â'u cyfraniadau yn cael eu cefnogi gan ansawdd yr amgylchedd ffisegol oedd y datganiad â'r gyfran uchaf o ymatebion oedd yn anghytuno, gyda 18% o athrawon yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Canfyddiadau: Cyfraniad i'r cwricwlwm (athrawon)

Athrawon

Nododd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno bod eu cyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn eu hysgol:

- "wedi ei lywio gan fy mhrofiadau yn y gorffennol" (71% yn cytuno, 8% yn anghytuno)
- "wedi ei gefnogi gan berthnasoedd gwaith cadarnhaol" (71% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- "yn gwneud i mi deimlo bod gen i ddylanwad" (62% yn cytuno, 13% yn anghytuno)

Nododd tua hanner yr athrawon eu bod yn cytuno bod eu cyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn eu hysgol:

- "yn gwneud i mi deimlo'n frwdfrydig yn fy ngwaith" (57% yn cytuno, 17% yn anghytuno)
- "yn gwneud i mi deimlo'n werthfawr" (57% yn cytuno, 15% yn anghytuno)
- "wedi ei gefnogi gan ansawdd yr amgylchedd ffisegol rwy'n gweithio ynddo" (55% yn cytuno, 18% yn anghytuno)

Ffigur 59. Cyfraniad i'r cwricwlwm

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: "Mae fy nghyfraniad at gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn fy ysgol..."



43. Hyder y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â'u canfyddiad o gynnydd dysgwyr. Roedd yr ymatebion yn amrywio o anghytuno'n gryf i gytuno'n gryf. Yn benodol, gofynnwyd i athrawon i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau "Rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm ein hysgol yn ..."

- "cefnogi ein dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben"
- "cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u man cychwyn"
- "cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol"
- "galluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i wneud cynnydd mor llawn â'u cyfoedion"

Gofynnwyd i athrawon wedyn i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r datganiadau " Wrth gymharu â'r cwricwlwm blaenorol, rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm ein hysgol yn..."

- "diwallu anghenion pob dysgwr yn well"
- "arwain at wella cynnydd dysgwyr"
- "helpu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn"
- "gwella lefelau cyrhaeddiad cyffredinol dysgwyr"

Crynodeb o'r canfyddiadau: Hyder y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd (athrawon)

Roedd athrawon yn gyffredinol yn cytuno â'r datganiadau yn y cwestiwn, gan nodi eu hyder y byddai'r cwricwlwm ysgol yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd, a'u hyder yn y cwricwlwm newydd o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol. Ar gyfer pob datganiad ar gynnydd dysgwyr, roedd mwyafrif (dros 58%) o athrawon naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf. Ar gyfer y datganiadau ar anghenion dysgwyr cytunodd tua hanner â phob datganiad.

O'r holl ddatganiadau ar gynnydd dysgwyr, yr un mewn perthynas â galluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i wneud cynnydd cystal a'u cyfoedion oedd a'r ganran uchaf o uwch

arweinwyr yn anghytuno ag ef, gyda 11% o athrawon hefyd yn dewis anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

O'r holl ddatganiadau ar ddiwallu anghenion dysgwyr, yr un ynglŷn â gwell cynnydd dysgwyr oedd â'r gyfran uchaf o ymatebion anghytuno ar gyfer uwch arweinwyr, gyda 18% o uwch arweinwyr yn dewis anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Canfyddiadau: Hyder y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd (athrawon)


Athrawon

Dywedodd y mwyafrif o athrawon eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus y byddai cwricwlwm eu hysgol yn ...:

- "cefnogi ein dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben" (75% yn cytuno, 5% yn anghytuno)
- "cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u man cychwyn" (75% yn cytuno, 8% yn anghytuno)
- "cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol" (73% yn cytuno, 7% yn anghytuno)
- "galluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i wneud cynnydd mor llawn â'u cyfoedion" (66% yn cytuno, 11% yn anghytuno)

Ffigur 60. Cynnydd dysgwyr

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: "Rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm yr ysgol yn..."




Nododd tua hanner yr athrawon eu bod yn cytuno eu bod yn hyderus y byddai'r cwricwlwm ysgol, o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol, yn:

- "helpu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn" (53% yn cytuno, 14% yn anghytuno)
- "arwain at wella cynnydd dysgwyr" (52% yn cytuno, 18% yn anghytuno)
- "diwallu anghenion pob dysgwr yn well" (51% yn cytuno, 17% yn anghytuno)
- "gwella lefelau cyrhaeddiad cyffredinol dysgwyr" (49% yn cytuno, 16% yn anghytuno)

Ffigur 61. Diwallu anghenion dysgwyr

Ymatebion athrawon i'r cwestiwn: "Wrth gymharu â'r cwricwlwm blaenorol, rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm yr ysgol yn:"



44. Heriau a chymorth yn y dyfodol (athrawon)

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno â thri chwestiwn testun agored. Y rhain oedd:

- "Y peth fwyaf heriol sy'n fy wynebu wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru yw..."
- "Mae angen cymorth pellach arnaf i'm helpu...."
- "Pe byddai cydweithiwr yn gofyn beth oeddwn i'n ei hoffi fwyaf am y Cwricwlwm i Gymru, byddwn i'n dweud..."

Crynodeb o'r canfyddiadau: Heriau a chymorth yn y dyfodol (athrawon)

Mewn ymateb i gwestiynau testun agored dewisol, dywedodd athrawon mai'r agweddau a oedd fwyaf heriol wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru oedd:

- diffyg amser ar gyfer gweithgarwch cydweithio a dysgu proffesiynol
- diffyg eglurder mewn perthynas ag asesu a chynnydd
- diffyg enghreifftiau da o gynllunio a gwireddu cwricwlwm yn ymarferol

Dywedodd athrawon fod angen cymorth pellach arnynt i'w helpu gyda rhai agweddau ar wireddu'r cwricwlwm:

- datblygu eu dulliau o asesu a monitro cynnydd dysgwyr
- amser ac adnoddau ariannol ar gyfer staff cymorth i'w galluogi i dreulio mwy o amser ar ddatblygu'r cwricwlwm ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cydweithio
- mwy o neu well canllawiau oedd yn ymwneud â'r cwricwlwm, asesu a chynnydd

Adroddodd athrawon, pe bai cydweithiwr yn gofyn iddynt beth oeddent yn ei hoffi fwyaf ynglŷn â'r Cwricwlwm i Gymru, y byddent yn dweud:

- eu bod yn hoffi'r hyblygrwydd a'r rhyddid i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain i weddu i anghenion eu dysgwyr

- eu bod yn teimlo bod mwy o bwyslais yn y Cwricwlwm i Gymru ar arweiniad gan ddysgwyr a bod y cwricwlwm yn fwy perthnasol i fywyd go iawn
- eu bod yn hoffi agweddau allweddol y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft y pedwar diben, creu cysylltiadau rhwng ac ar draws pynciau a meysydd dysgu
- roedden nhw'n teimlo bod y Cwricwlwm i Gymru yn fuddiol i ddysgwyr o ran eu cyfranogiad i'w dysgu eu hunain, gan ddarparu cyd-destunau ar gyfer dysgu, a'u mwynhad o ddysgu
- eu bod nhw'n hoffi ychydig iawn neu ddim byd mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol ei fod yn rhy amwys ac yn agored i'w ddehongli

Ymatebion testun agored: Heriau a chymorth yn y dyfodol (athrawon)

Canfyddiadau: "Y peth fwyaf heriol sy'n fy wynebu wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru yw..." (athrawon)

Ymhlith athrawon a ddarparodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn testun agored dewisol hwn (234 allan o 444), y prif bwyntiau a nodwyd oedd:

- nid oedd ganddynt amser i weithio ar y cyd â staff, ysgolion a chlystyrau eraill i ddatblygu'r cwricwlwm ac amlygodd y diffyg amser ar gyfer datblygiad proffesiynol a fyddai'n helpu i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru
- galwad am arweiniad a chyfarwyddyd cliriach ar asesu a chynnydd yn ogystal â phryderon am ddiffyg safoni mewn arferion asesu a pheidio â gwybod sut i fynd i'r afael ag asesu neu gynnydd
- angen mwy neu well arweiniad naill ai yn gyffredinol neu'n benodol mwy o enghreifftiau o sut y dylai'r cwricwlwm edrych, gan gynnwys sut i wneud penderfyniadau mewn perthynas â chynllunio a gwireddu'r cwricwlwm, enghreifftiau o arfer gorau gan ysgolion eraill oedd yn ei wneud yn dda a mwy o arweiniad ar feysydd dysgu a phrofiad
- pryderon ynglŷn â'r Cwricwlwm i Gymru neu addysg yn ehangach. Roedd y pryderon a godwyd yn amrywiol ac yn cynnwys bod y Cwricwlwm i Gymru yn rhy amwys ac yn agored i'w ddehongli, baich gwaith oedd yn cynyddu,

anghysondeb wrth wireddu'r cwricwlwm a diffyg safoni ar draws ysgolion a safonau addysgol yn ehangach

Canfyddiadau: "Mae angen cymorth pellach arnaf i'm helpu...." (athrawon)

Ymhlith yr athrawon a gwblhaodd y cwestiwn testun agored dewisol hwn (147 allan o 444), y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- gofyn am arweiniad a chyfarwyddyd cliriach ar asesu a chynnydd gan gynnwys canllawiau penodol ynghylch strategaethau a threfniadau asesu, modelau a gweithdrefnau cynnydd, sut i olrhain cynnydd ac enghreifftiau o arfer gorau ar draws ystod o gyd-destunau
- diffyg adnoddau ariannol ar gyfer staff cymorth a allai eu galluogi i dreulio amser ar ddatblygu'r cwricwlwm a chefnogi anghenion unigol dysgwyr
- angen mwy o amser ar gyfer datblygiad proffesiynol i gefnogi gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru, i gynllunio a chreu adnoddau, i fyfrio a chydweithio â staff ac ysgolion eraill ac amser i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'u cwricwlwm newydd
- angen mwy neu well arweiniad naill ai yn gyffredinol neu'n benodol mwy o enghreifftiau o sut y dylai'r cwricwlwm edrych, cynllunio cwricwlwm asesu a chynnydd, profiadau dysgu awyr agored ac enghreifftiau o ysgolion eraill oedd yn ei wneud yn dda

Canfyddiadau: "Pe byddai cydweithiwr yn gofyn beth oeddwn i'n ei hoffi fwyaf am y Cwricwlwm i Gymru, byddwn i'n dweud..." (athrawon)

Ymhlith yr athrawon a gwblhaodd y cwestiwn testun agored dewisol hwn (202 allan o 444), y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- eu bod yn hoffi'r hyblygrwydd a'r rhyddid i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Roedd y sylwadau yn cynnwys hoffi'r ymreolaeth i weddu i anghenion eu dysgwyr i wella ymgysylltu a gwneud dysgu yn fwy perthnasol, y cyfle i bersonoli cwricwlwm lleol yn ogystal â darparu mwy o greadigrwydd i staff ddysgu gwersi mwy arloesol a chyffrous

- eu bod yn teimlo bod y Cwricwlwm i Gymru yn fwy perthnasol ac yn cael ei arwain gan ddysgwyr. Nodwyd safbwyntiau cadarnhaol bod y Cwricwlwm i Gymru yn fwy cynhwysol, dilys, yn canolbwyntio ar ddysgu am fywyd go iawn a'i fod yn fwy perthnasol i'r byd go iawn. Mynegodd athrawon farn gadarnhaol hefyd ar y ffocws ar gyd-destunau ar gyfer dysgu, gallu canolbwyntio ar anghenion lleol ac iechyd a lles
- eu bod yn hoffi agweddau allweddol y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys y pedwar diben, cysylltu dysgu â phynciau eraill trwy feysydd dysgu a phrofiad, y ffocws ar gynnydd a sgiliau
- eu bod yn teimlo bod y Cwricwlwm i Gymru o fudd i ddysgwyr mewn rhyw ffordd. Mynegwyd barn gadarnhaol am y ffocws ar roi'r dysgwr wrth wraidd y broses, mwy o gyfranogiad y dysgwr, y gallu i ddarparu profiadau cyd-destunol, diwallu anghenion unigol, a'r teimlad bod athrawon yn gallu gwneud y profiad dysgu yn fwy pleserus i ddysgwyr
- nad oedd unrhyw beth yr oeddent yn ei hoffi ynglŷn â'r Cwricwlwm i Gymru neu eu bod yn nodi nad oeddent yn gallu meddwl am unrhyw beth i'w ddweud pan ofynnwyd iddynt am agweddau ffafriol. Gwnaeth athrawon sylwadau cyffredinol am beidio â hoffi'r Cwricwlwm i Gymru, nodi nad oedd y cwricwlwm yn addas i'r diben a'u bod yn ei weld yn rhy amwys ac yn agored i'w ddehongli

Rhan C: Archwilio perthnasoedd rhwng newidynnau arolwg

46. Dadansoddi Ffactorau (FA) a Modelu Hafaliadau Strwythurol (SEM)

Mae'r bennod hon yn archwilio'r gydberthynas rhwng setiau o gwestiynau'r arolwg wedi eu grwpio (ffactorau) i archwilio cryfder y berthynas rhwng y rhain. Roedd y fethodoleg ar gyfer gwneud hyn yn cynnwys technegau ystadegol cymhleth, sef Dadansoddi Ffactorau (FA) a Modelu Hafaliadau Strwythurol (SEM). Mae manylion y fethodoleg wedi'u nodi ym Mhennod 3 ac mae rhagor o fanylion ar ba gwestiynau a grwpwyd ar gyfer pob ffactor wedi'u cynnwys yn Atodiad D.

Dadansoddi ffactorau

Cynhaliwyd dadansoddi ffactorau i wirio a oedd y cwestiynau o dan bob ffactor yn cydberthyn â'i gilydd yn ddigon da i alluogi archwilio'r gydberthynas rhwng y ffactorau eu hunain. Dangosodd y dadansoddiad fod ymatebwyr wedi ateb y cwestiynau o dan bob ffactor mewn ffordd lled-gyson, gan ddangos bod y cwestiynau yn gysylltiedig â'r ffactorau sylfaenol fel y disgwyliwyd. Daeth y dadansoddiad i'r casgliad bod y cwestiynau o dan bob ffactor yn cydberthyn â'i gilydd yn ddigon da i archwilio'r gydberthynas rhwng y ffactorau.

Mewn achosion lle gyflwynwyd cwestiynau gyda geiriad ychydig yn wahanol i ymatebwyr â rolau a chyfrifoldebau addysgu gwahanol, cafodd ymatebion i'r ddau amrywiad o'r cwestiwn eu cynnwys yn y dadansoddi ffactorau. Y ffactorau â ddeilliodd o'r dadansoddiad oedd:

- Cyfalaf y cwricwlwm – mae'r ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar ymrwymiad i newid cwricwlwm, gwybodaeth a dealltwriaeth o newid cwricwlwm a'r gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm.
- Lles – mae'r ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar farn ymatebwyr ar eu hamgylchedd gwaith, perthnasoedd a chydbwysedd bywyd-gwaith
- Effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm – roedd y ffactor hwn yn deillio o gwestiynau a oedd yn mynd i'r afael â gwahanol elfennau o arferion arweinyddiaeth gydweithredol i adeiladu gallu, datrys heriau, a gwella arferion cynllunio, addysgu a dysgu i fodloni dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru

- Cwmpas cydweithio – mae'r ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar faint o gydweithio oedd yn digwydd â rhanddeiliaid amrywiol
- Cyfranogiad cydweithio – mae'r ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar rôl staff addysgu ac arweinyddiaeth wrth gynllunio'r cwricwlwm
- Dealltwriaeth gyffredin o'r cwricwlwm – mae'r ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar i ba raddau y mae dealltwriaeth gyffredin o fewn ysgolion o gynnydd dysgwyr a chwricwlwm cynhwysol
- Dysgu proffesiynol – mae'r ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar y dysgu proffesiynol neu'r cymorth sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys dysgu proffesiynol neu gymorth a ddarparwyd yn yr ysgol, yn allanol neu ar-lein gan athrawon ac eraill
- Amodau'r system – roedd y ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar safbwyntiau ymatebwyr ar sut y gwnaeth y system addysg helpu i'w cefnogi wrth wireddu'r Cwricwlwm i Gymru.
- Cadernid cynllunio cwricwlwm – roedd y ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar i ba raddau y mae dulliau o gynllunio'r cwricwlwm yn cynnwys defnyddio arbenigedd, profiad a gwybodaeth gyffredin oedd yn bodoli eisoes
- Newidiadau i arferion – roedd y ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar y meysydd lle roedd ymarferwyr addysgu wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w harferion
- Agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith – roedd y ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ynghylch i ba raddau y mae agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu hadlewyrchu mewn arferion addysgu ac i ba raddau y cefnogir cynnydd dysgwyr mewn sgiliau allweddol sy'n sail i ddibenion Cwricwlwm i Gymru
- Gweithredu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru – roedd y ffactor hwn yn deillio o gwestiynau oedd yn ymwneud â gwireddu elfennau gorfodol y cwricwlwm a sgiliau trawsgwricwlaidd
- Ansawdd addysgeg ac asesu^[Troednodyn 39] – roedd y ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar i ba raddau y mae arferion addysgegol yn ymgysylltu, yn cynnwys ac yn grymuso dysgwyr ac mae arferion asesu wedi'u hymgorffori, yn gynhwysol ac yn adeiladol i gefnogi cynnydd dysgwyr

[49] Ffurfiwyd y ffactor hwn o gyfuno dau ffactor: "Ansawdd addysgeg" ac "Ansawdd asesu," gan fod matricesau amrywiad-cydamrywiad a chydberthynas a gynhyrchwyd yn nodi bod y ffactorau hyn yn gysylltiedig yn agos ac felly byddai'n cael eu cyfuno'n well i mewn i un ffactor "Ansawdd addysgeg ac asesu"

- Hyder mewn galluogi dysgu – roedd y ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar hyder ymarferwyr wrth greu profiadau dysgu sy'n briodol yn ddatblygiadol a sy'n gwneud y defnydd gorau o bob amgylchedd i gefnogi cynnydd dysgwyr
- Presenoldeb ymholi proffesiynol – roedd y ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol
- Cadernid ymholi proffesiynol^[Troednodyn 40] – roedd y ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar i ba raddau y teimlai ymatebwyr bod ymholi proffesiynol yn cynnwys cydweithio, yn seiliedig ar ymchwil, yn mynd i'r afael â heriau gwirioneddol ac yn arwain at welliannau ystyrlon i ddysgwyr.
- Galluedd athrawon – roedd y ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar i ba raddau y mae ymarferwyr yn cyfrannu at gynllunio cwricwlwm, yn teimlo eu bod wedi eu grymuso ac yn cael eu hysgogi, yn tynnu ar eu profiadau ac yn cael eu cefnogi gan berthnasoedd ac amgylcheddau gwaith
- Hyder yn llwyddiant tebygol cwricwlwm yr ysgol – roedd y ffactor hwn yn deillio o gwestiynau ar sut yr oedd y cwricwlwm yn cefnogi cynnydd dysgwyr a sut mae'r cwricwlwm newydd yn cymharu â'r un blaenorol

Modelu hafaliadau strwythurol (SEM)

Fel y nodwyd ym Mhennod 3, yn ogystal â'r gydberthynas a ragdybiwyd rhwng cydrannau yn y theori newid, sydd wedi'u hadlewyrchu yn y ffactorau a grëwyd, roedd y theori newid hefyd yn cynnwys sawl rhagdybiaeth bod cydberthynas rhwng ffactorau. Mae SEM yn estyniad o FA sy'n caniatáu i gydberthynas rhwng ffactorau gael eu hymchwilio. Mae pob cyd-berthynas unigol rhwng ffactorau o ddiddordeb yn cael ei ymchwilio gan ddefnyddio atchweliad, sy'n cynhyrchu 'cyfernod llwybr' fel allbwn, y gellir ei ddehongli mewn modd tebyg i gydberthynas. Fel y nodwyd ym Mhennod 3, mae cyfernodau llwybr SEM o +/- 0-0.5 yn nodi cydberthynas wan i gymedrol tra bod cyfernodau o +/- 0.5-1 yn nodi cydberthynas cymedrol i gryf.

Ar ôl sefydlu gyda FA y gellid modelu rhai o'r ffactorau sy'n sail i'r theori newid ar gyfer y diwygiadau cwricwlwm ac asesu o ddata'r arolwg, profwyd tair rhagdybiaeth SEM i asesu a allai'r theori newid hefyd ddisgrifio'r gyd-berthynas rhwng ffactorau. Galwyd y rhagdybiaethau hyn yn "Rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith", "Ansawdd addysgeg ac

[50] Roedd y llwybr drwy'r arolwg yn golygu mai dim ond ymatebwyr a nododd eu bod wedi cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol a welodd cwestiynau ar gadernid ymholi proffesiynol

asesu" a "Datblygu amodau ar gyfer cynnal cynnydd", a phrofwyd pob un trwy set o fodelau SEM gyda mân amrywiadau. Disgrifir pob un o'r rhain isod.

Mae'r modelau "Rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith" yn rhagdybio y bydd lefel dysgu proffesiynol (mewnbwn yn y theori newid) ac ymholi proffesiynol (gweithgaredd ymarferwyr yn y theori newid) y mae ymarferydd yn ymwneud ag ef yn effeithio ar eu lles, teimlad o alluedd, a'u "cyfalaf cwricwlwm" yn ogystal â'u harweinyddiaeth wrth wireddu'r cwricwlwm newydd (pob un o'r rhain yn ddeiliant tymor byr yn y theori newid). Yn dilyn hynny, disgwyliwyd i'r cymedrolwyr hyn arwain at newidiadau mewn addysgeg sy'n adlewyrchu'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn well (gweithgaredd ymarferwyr yn y theori newid), agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith a gwireddu agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru (y ddau yn ddeilliannau tymor canolig yn y theori newid).

Mae'r modelau "Ansawdd addysgeg ac asesu" yn seiliedig ar y rhagdybiaethau bod lefel dysgu proffesiynol ymarferwyr (mewnbwn yn y theori newid), "cyfalaf cwricwlwm" ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth (y ddau yn ddeilliannau tymor byr) a chyfranogiad mewn ymholi proffesiynol (gweithgaredd ymarferwyr) yn effeithio ar ansawdd addysgeg ac asesu (deiliant tymor canolig yn y theori newid). Rhagwelwyd y byddai'r berthynas hon weithiau'n cael ei chymedroli gan amodau'r system (gweithgareddau ar lefel system yn y theori newid) a'r lefel o gydweithio yr oedd yr ymarferydd yn rhan ohono (mewnbwn yn y theori newid).

Mae'r modelau "Datblygu amodau ar gyfer cynnal cynnydd" yn adlewyrchu'r rhagdybiaeth bod dysgu proffesiynol ymarferwyr (mewnbwn yn y theori newid), lles ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth (deilliannau tymor byr yn y theori newid) yn gysylltiedig â chyfalaf y cwricwlwm (deiliant tymor byr yn y theori newid) a bod hyn, yn ei dro, yn gysylltiedig â sawl deiliant:


- galluedd athrawon (deiliant tymor byr yn y theori newid)
- darparu ymholi proffesiynol (gweithgaredd ymarferwyr)
- sut mae agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru yn cael eu rhoi ar waith
- cefnogaeth fel bod dysgwyr yn gwneud cynnydd mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru
- ansawdd addysgeg ac asesu

- faint o newid sydd wedi'i wneud i wireddu'r Cwricwlwm newydd i Gymru (pob un yn ddeilliant tymor canolig yn y theori newid).

Mae'r perthnasoedd a ddisgrifir gan bob un o'r modelau uchod yn cael eu dangos mewn fersiwn wedi'i haddasu o'r darlun theori newid a gyhoeddwyd yn yr [Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r cwricwlwm a diwygiadau asesu yng Nghymru](#). Canfu'r dadansoddiad fod y perthnasoedd a archwiliwyd yn y modelau "Datblygu amodau ar gyfer cynnal cynnydd" yn gryfach nag yn y ddau fodel arall, lle nad oedd data yr arolwg yn ffitio'n dda i'r model. Dangosir y perthnasoedd a ymchwiliwyd fel rhan o'r model "Datblygu amodau ar gyfer cynnal cynnydd" isod, ac yna'r prif ganfyddiadau sy'n ymwneud â'r model hwn. Cyflwynir diagramau a chanfyddiadau ar gyfer y ddau fodel arall yn Atodiad D. Yn Ffigur 62 isod, mae eitemau ar y chwith yn ffactorau (neu newidynnau sy'n darogan) y rhagdybir eu bod yn gysylltiedig â, neu'n rhagweld y rhai yn y canol (cyfryngwyr) ac sydd yn eu tro yn rhagdybio eu bod yn gysylltiedig â, neu'n rhagweld y rhai ar y dde (ffactorau deilliant). Mae saethau yn dynodi'r cyfeiriad y rhagdybir i'r gydberthynas.

Mae'r lliwiau'n gysylltiedig â'r theori newid a gyflwynir yn yr [Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r cwricwlwm a diwygiadau asesu yng Nghymru](#). Mae ffactorau mewn blychau glas golau yn weithgareddau ar gyfer ymarferwyr, mae'r rhai mewn melyn golau yn ddeilliannau tymor byr a pharhaus, defnyddir glas tywyllach ar gyfer gweithgareddau ymarferwyr a melyn tywyllach ar gyfer deilliannau tymor canolig a pharhaus fel y cyflwynwyd y theori newid. Ym mhob blwch, cyflwynir crynodeb o'r cwestiynau arolwg a oedd wedi eu cynnwys yn y ffactor hwn. Nid oedd y cyfernodau a gyflwynir mewn coch yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < 0.05$.

Ffigur 62. "Datblygu amodau ar gyfer cynnal cynnydd"



Cyfernodau coch = ddim yn ystadegol arwyddocaol ar lefel $p < 0.05$

Nodyn: mae'r diagram hwn yn defnyddio lliwiau o'r theori newid a gyflwynir yn yr [Astudiaeth Cwmpasu ar gyfer gwerthuso'r cwricwlwm a'r diwygiadau asesu yng Nghymru](#)

Metrigau ffit y model

I asesu ffit FA a SEM, y mynegeion ffit allweddol a'r trothwyon a ddymunir er mwyn dynodi ffit dda ar gyfer y model oedd:

- Mynegeion ffit cymharol:
 - Mynegai ffit cymharol (CFI): o leiaf > 0.9 neu'n ddelfrydol > 0.95
 - Mynegai Tucker-Lewis (TLI): o leiaf > 0.9 neu'n ddelfrydol > 0.95
- Mynegeion ffit absoliwt
 - Cyfeiliorniad brasamcan isradd sgwâr cymedrig (RMSEA): < 0.05
 - Gweddill isradd sgwâr cymedrig safonedig (SRMR): < 0.08

Noder, ar gyfer yr FA a'r SEMs, lle yr oedd rhywfaint o ddata ar goll ac roedd yn rhaid eu hamcangyfrif, defnyddiwyd yr amrywiadau mwy cadarn o'r mynegeion ffit gymharol mewn modelau gyda gwerthoedd amcangyfrifedig.

Canfyddiadau cryno: 'Datblygu amodau ar gyfer cynnal cynnydd' SEM

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y model yn cyd-fynd â'r data yn weddol dda a bod cydberthynas gymedrol i uchel rhwng y rhan fwyaf o'r ffactorau. O ran ystadegau ffit cymharol, cynhyrchodd y model SEM CFI o 0.787 a TLI o 0.781, ar gyfer ffit absoliwt cynhyrchodd y model rhiant RMSEA o 0.048 a SRMR o 0.068. Mae'r ddau ystadegyn ffit absoliwt yn dangos bod y model yn ffit da. Mae'r mesurau ffit cymharol yn is na'r trothwy o 0.90 ar gyfer ffit model derbyniol.

Mae'r canfyddiadau'n dangos:

- bod gan lefel cyfalaf y cwricwlwm gydberthynas wan â dysgu proffesiynol a chydberthynas gymedrol ag effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw lefel cyfalaf y cwricwlwm yn gysylltiedig â lefel lles
- yn ei dro, mae cyfalaf y cwricwlwm yn gysylltiedig â lefel agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru, ansawdd addysgeg ac asesu, newidiadau i addysgeg, cadernid ymholi proffesiynol a galluedd athrawon. Y ffactor sydd â'r

gydberthynas cryfaf yw agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, a'r gwannaf yw ansawdd addysgeg ac asesu ac, i raddau llai, cadernid ymholi proffesiynol

Dylid ystyried y canfyddiadau hyn yng nghyd-destun y mesurau ffit cymharol, sy'n is na'r trothwy o 0.90 ar gyfer ffit model derbyniol a dylid ystyried y gallai fod cydberthynas sydd yn fwy cymhleth nag y mae'r model hwn yn gallu ei gyflwyno. Yn gyffredinol, y rhesymau posibl bod ffit cymharol y model yn is na'r trothwy yw:

- y gallai fod rhai dylanwadau ar y ffactorau yn y model sydd yn ffactorau allanol nad ydynt wedi'u casglu gan yr arolwg
- efallai nad yw'r SEM penodol a gynigir ac a ymchwiliwyd yn adlewyrchu'r gydberthnasoedd yn y data yn ddigonol
- bod y model yn fwy cymhleth nag y byddai maint y sampl yn caniatáu i SEM ymchwilio
- y gallai maint y sampl fod yn rhy fach. Fel y nodwyd ym Mhennod 3, byddai sampl o leiaf ddwywaith yn fwy yn ddelfrydol i ffitio'r SEM a osodwyd

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu:

- bod cyfalaf y cwricwlwm wedi'i gysylltu fwyaf ag effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm - yn fwy felly na dysgu proffesiynol. Nid oedd gan gyfalaf y cwricwlwm bron unrhyw gydberthynas â lefel y lles. Mae hyn yn awgrymu, os mai'r nod yw gwella cyfalaf y cwricwlwm, mai gwella effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm gallai fod y mwyaf dylanwadol o'r ffactorau hyn. Mae hefyd yn awgrymu efallai nad yw lles yn cael effaith ar gyfalaf y cwricwlwm fel y rhagdybiwyd yn wreiddiol yn y theori newid
- fodd bynnag, mae cydberthynas gymedrol rhwng cyfalaf y cwricwlwm â llawer o ffactorau eraill – a chydberthynas gryf ag agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Fel y cyfryw, mae'n bosib fod cyfalaf y cwricwlwm yn offeryn gwerthfawr i'w ddefnyddio i weithredu ar bob un o'r chwe ffactor arall hyn, os mai'r nod yw gwella un ohonynt. Mae'n bosibl y byddai gweithredu i wella un hefyd yn gwella'r lleill, gan wneud cyfalaf y cwricwlwm yn ffactor allweddol i ganolbwyntio arno wrth wireddu'r Cwricwlwm i Gymru

Fodd bynnag, mae'r perthnasoedd hyn yn gyffredinol ond yn gymedrol o ran maint, sy'n dangos bod ffactorau allanol eraill yn debygol o gael effaith ar y ffactorau sydd o dan ystyriaeth yma, yn ogystal â'r ffactorau sydd yn y model.

Canfyddiadau manwl: 'Datblygu amodau ar gyfer cynnal cynnydd' SEM

Modelwyd naw atchweliad fel rhan o'r SEM, fel y cynrychiolir gan saethau yn Ffigur 62. Mae pob saeth yn adlewyrchu atchweliad unigol; Er enghraifft, mae'r saeth chwith uchaf yn adlewyrchu ceisio rhagweld lefel cyfalaf y cwricwlwm yn seiliedig ar lefel dysgu proffesiynol. Mae'r gwerthoedd uwchben pob saeth yn adlewyrchu'r cyfernod safonedig ar gyfer yr atchweliad hwnnw. Mae gwerthoedd lliw coch yn adlewyrchu unrhyw atchweliadau nad oeddent yn ystadegol nodedig.

Roedd cyfernodau llwybr ar gyfer y model uchod ychydig yn fwy nag ar gyfer y modelau 'Rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith' neu 'Ansawdd addysgeg ac asesu' a gyflwynir yn Atodiad D, gyda chwech allan o naw o'r cyfernodau hyn yn uwch na 0.5. Mae hyn yn dangos bod cryfder y berthynas rhwng ffactorau yn gryfach nag yn y modelau eraill, gan wneud hyn yn llai tebygol o fod yn ffactor allweddol yn y materion ffit model a welir yma.

Mae lefel cyfalaf y cwricwlwm yn gysylltiedig â lefel dysgu proffesiynol (0.332) ac yn gryfach, ag effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm (0.546). Fodd bynnag, nid yw lefel cyfalaf y cwricwlwm yn gysylltiedig â lefel lles (0.032). Gall hyn adlewyrchu'r ffaith bod y cwestiynau a gafodd eu mapio i'r ffactorau dysgu proffesiynol ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm (gweler Atodiad D) yn gofyn am themâu sydd wedi'u cysylltu'n agosach â chyfalaf y cwricwlwm (er enghraifft, sgiliau a datblygiad proffesiynol) na'r cwestiynau sydd wedi'u mapio i'r ffactor lles.

Yn ei dro, mae cyfalaf y cwricwlwm yn gysylltiedig â lefel agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith (0.732), gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru (0.623), ansawdd addysgeg ac asesu (0.438), newidiadau i addysgeg (0.604), cadernid ymholi proffesiynol (0.503) ac galluedd athrawon (0.665). Mae'n ddiddorol mai'r ffactor sydd â'r gydberthynas fwyaf cryf yw agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, a'r ddau wannaf ansawdd addysgeg ac asesu a chadernid ymholi proffesiynol. Yn rhesymegol byddai agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn ymwneud yn agos â chyfalaf cwricwlwm, ond mae'n ymddangos bod ffactorau eraill sy'n ymwneud ag ansawdd addysgeg ac asesu a chadernid ymholi proffesiynol.

Ar ôl cwblhau ail rownd yr arolwg, byddai'n ddefnyddiol cyfuno'r data o'r ddwy rownd ac ailymweld â'r modelau hyn i gadarnhau ai maint y sampl yw'r ffactor cyfyngol. Os na, yna mae hyn yn dynodi cymhlethdod y cydberthnasoedd fel achos y ffit model gwael.

Atodiadau A-E: Atodiadau arolwg technegol (gweler dogfennau ar wahân)